



Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2022–2023

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023

Cyflwynir yr adroddiad i Senedd y DU yn unol ag Adran 7(1) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, a chyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn unol ag Adran 7(3) Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

I'w argraffu ar 17 Gorffennaf 2023 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidog Yr Alban ar 17 Gorffennaf 2023

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon ar 17 Gorffennaf 2023

Wedi'i roi gerbron Senedd Cymru ar 22 Medi 2023

HC 1568

SG/2023/98



© **Hawlfraint Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir fel arall.

I weld y drwydded hon, ewch i:

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom:
Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

4th Floor

Cannon Bridge House

25 Dowgate Hill

Llundain, EC4R 2YA

Y Deyrnas Unedig

ISBN 978-1-5286-4215-6

E02922605

07/23

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 40% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

Achub trysorau mwyaf y DU

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG) wedi bod yn dyfarnu grantiau i ddiogelu treftadaeth bwysicaf y DU ers 1980.

Fel cronfa dewis olaf, mae CGDG wedi helpu i achub miloedd o'n trysorau hoff annwyl rhag cael eu colli am byth. Mae'r rhain yn amrywio o dai hanesyddol a gweithiau celf, i drenau, cychod a thirweddau hynafol.

Gyda'i gilydd, mae'r trysorau hyn yn gofeb barhaol i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU.

Cynnwys

2 Rhagair gan Dr Simon Thurley CBE

4 Prosiectau CGDG

- 4 Trosolwg
- 5 Model o HMS Victory
- 6 Hunangofiannau Caroline Herschel
- 8 Two Ladies
- 9 Deial Ilay-Glynne gan Richard Glynne
- 10 Y Llawysgrif Liwt
- 12 Archif John Galsworthy
- 13 Casgliad Beiciau Modur Rasio Gogledd Iwerddon
- 14 Celc Swydd Henffordd
- 16 Gwarchod RRS Discovery ar frys
- 17 Medalau Arweinydd Sgwadron Arthur Scarf VC
- 18 Archif Buckland
- 20 Tirwedd Panoramig gyda Chaeau Ŷd a Thwyni wrth ymyl y Môr gan Jacob Van Ruisdael

22 Prosiectau Cronfa Ymateb COVID-19

- 22 Trosolwg
- 23 Bythynnod y glowyr
- 24 SV Glenlee
- 25 'Morayshire'

- 26 Vigilance of Brixham
- 27 Castell Hurst
- 28 Melin Corffori Powdwr Gwn 'L157', Waltham Abbey
- 29 Melin Paradise, Amgueddfa Sidan a'r Hen Ysgol Sul, Macclesfield
- 30 Wyth capel hanesyddol

31 Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

- 31 Adroddiad perfformiad
- 40 Adroddiad atebolrwydd

56 Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

60 Y datganiadau ariannol

- 60 Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net
- 61 Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
- 62 Datganiad o Lifoedd Arian Parod
- 63 Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr
- 64 Nodiadau i'r cyfrifon

73 Datgelu buddsoddiadau

74 Cadeirydd, Ymddiriedolwyr a rheolwyr

Rhagair gan Dr Simon Thurley CBE

Cadeirydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol


Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn chwarae rhan hanfodol mewn bywyd cenedlaethol, gan weithredu fel ffynhonnell ariannu dewis olaf ar gyfer treftadaeth genedlaethol eithriadol sydd mewn perygl. Mae ein grantiau'n sicrhau treftadaeth ar gyfer y dyfodol gan weithredu fel cofeb i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y wlad. Mae ein diffiniad o dreftadaeth yn eang ac rydym wedi darparu grantiau, eleni, ar gyfer popeth o lawysgrifau i longau, o drysorau i gestyll.

Roeddem yn falch iawn o chwarae rhan wrth ddod â Chelc Swydd Henffordd adref. Mae hanes y storfa ryfeddol hon, a orweddai'n dawel ers dros fil o flynyddoedd, yn helpu i ail-lunio'r ffordd yr ydym yn deall Lloegr Eingl-Sacsonaidd. Bu i'n grant gefnogi ei gaffaeliad ar gyfer Amgueddfa ac Oriol Gelf Henffordd, lle bydd y gwrthrychau rhyfeddol hyn yn cael eu harddangos mewn oriel barhaol sydd newydd ei hadnewyddu.

Eleni fe wnaethom ariannu caffael nifer o drysorau gwyddonol rhyfeddol. Fe wnaethom helpu Amgueddfa Seryddiaeth Herschel yng Nghaerfaddon i gaffael cofiannau llawysgrifen y seryddwr Caroline Herschel, gan eu hachub rhag y posibilrwydd o gael eu hallforio, a chan gadw nhw yng nghyn-gartref Herschel a rhoi llais i'r gwyddonydd benywaidd rhyfeddol hwn. Bu i ni gefnogi prynu Archif Buckland a oedd mewn perygl o fynd ar wasgar. Bellach mae gan Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen dros 1,000 o eitemau sy'n cynrychioli gwaith palaeontoleg arloesol William a Mary Buckland ac yn cyfoethogi ei harchif bresennol.

Bu i ni barhau hefyd i fuddsoddi yng Nghronfa Ymateb COVID-19 CGDG, cronfa gwerth £40miliwn i ddiogelu treftadaeth sy'n bwysig yn genedlaethol a roddwyd mewn perygl o ganlyniad i effaith y pandemig. Mae'r gronfa hon yn cyfuno'r Gronfa Asedau Diwylliannol: dyraniad o £20miliwn a sicrhawyd gan lywodraeth y DU i'w ddosbarthu i asedau treftadaeth eithriadol yn Lloegr, ynghyd ag ymrwymiad ychwanegol gan waddol CGDG o £20miliwn gan alluogi cydbwysedd o ariannu ar gyfer treftadaeth eithriadol ar draws y DU.

Trwy'r gronfa hon fe wnaethom helpu English Heritage i wneud atgyweiriadau brys i Gastell Hurst, un o gyfres o gaerau yn ymestyn o Hull i Aberdaugleddau a fu'n rhan hanfodol o amddiffyniad Lloegr o gyfnod y Tuduriaid tan ganol yr 20fed ganrif. Bu i'r gronfa hefyd



“ Mae CGDG yn chwarae rhan hanfodol mewn bywyd cenedlaethol ... rydym wedi darparu grantiau, eleni, ar gyfer popeth o lawysgrifau i longau, o drysorau i gestyll.”

gefnogi gwaith hanfodol yn y Melinau Powdwr Gwn Brenhinol, Waltham Abbey, gan ddiogelu'r melin corffori powdr gwn cynharaf a phwysicaf ar y safle a'i galluogi i agor i'r cyhoedd eto.


Y cais CGDG mwyaf arwyddocaol a ystyriwyd yn y flwyddyn ariannol hon oedd yr un gan yr Oriol Bortreadau Genedlaethol am ariannu i gefnogi ei hymgyrch i gaffael Portread Syr Joshua Reynolds o Mai. Dyma waith rhagorol gan un o beintwyr mwyaf blaenllaw y DU. Gwnaethom grant sylweddol – un o'r rhai mwyaf y mae CGDG wedi'i roi ar gyfer paentiad – a alluogodd i'r Oriol Bortreadau Genedlaethol ei gaffael mewn partneriaeth gyfartal ag Amgueddfa Getty. Mae'r Portread wedi ysgogi diddordeb mawr gan y cyhoedd a bydd yn ganolbwynt i'r oriel ar ei newydd wedd. Rydym yn falch o fod wedi cefnogi ei gaffaeliad. Bydd ein hymrwymiad ariannol ar gyfer y penderfyniad hwn yn cael ei wneud y flwyddyn nesaf felly bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023–2024 yn manylu ar y caffaeliad yn llawn.

Mae CGDG yn parhau i fod yn gronfa hanfodol pan fydd asedau treftadaeth yn wynebu argyfyngau. Gyda nifer cynyddol o geisiadau ac arian cyfyngedig mae barn gadarn y staff, aelodau o Banel Cynghori ac ymddiriedolwyr CGDG, fel bob amser, wedi bod yn amhrisiadwy. Hoffwn ddiolch i aelodau'r panel, y cynghorwyr a'n tîm am gefnogi'r ymddiriedolwyr i barhau â'u gwaith o ddiogelu a chyfoethogi ein casgliadau cenedlaethol.

Dr Simon Thurley CBE
Cadeirydd CGDG

Trosolwg

Eleni parhaodd ffrwd ariannu safonol CGDG i gael ei dosbarthu'n llwyddiannus, gan ddarparu grantiau i gefnogi deuddeg prosiect o bwysigrwydd eithriadol i dreftadaeth ar draws y DU.



Model o HMS Victory

Amgueddfa Genedlaethol
y Llynges Frenhinol

£247,000



“Mae HMS Victory yn symbol o bŵer llynges Prydain; mae hi hefyd yn enghraifft flaenllaw o gadwraeth llongau hanesyddol yn y byd. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol yn falch o fod wedi gweithio gyda CGDG, y Gymdeithas Ymchwil Forwrol a Chronfa Waddol Cadwraeth HMS Victory i ddiogelu'r model ac atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng y Llynges a'r Genedl.”

Yr Athro Dominic Tweddle
Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa
Genedlaethol y Llynges Frenhinol

Gwnaed model graddfa 1:48 o HMS Victory yn ystod gwaith atgyweirio mawr ar Victory yn iard longau Chatham rhwng 1800 a 1803. Dyma'r unig fodel cyfoes y gwyddys amdano o fanerlong y Llyngesydd Nelson. Mae'n dangos y llong cyn Brwydr Trafalgar a rhai elfennau o ailosod na chawsant eu cwblhau erioed.

Mae Victory yn llong bwysig iawn. Gwelodd wasanaeth gweithredol am y tro cyntaf yn Rhyfel Annibyniaeth America. Wedi hynny bu'n rhan o Warchae Toulon, ymladdodd ym Mrwydr Cape St Vincent, a chafodd ei thro'i'n llong ysbyty cyn cael ei hail-gomisiynu ar gyfer yr Is-Lyngesydd Nelson. Ym 1805 dyna oedd prif fanerlong Nelson ym Mrwydr Trafalgar, un o'r brwydrau enwocaf yn hanes llynges Prydain.

Gwerthwyd y model trwy ocsiwn yn Sotheby's ym mis Gorffennaf 2022, ac yna cynigiwyd cyfle i Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol gael gafael arni mewn gwerthiant preifat. Gyda chymorth £247,000 o ariannu CGDG, bydd yn cael ei arddangos ochr yn ochr ag arteffactau eraill sy'n adrodd hanes Brwydr Trafalgar. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i arbenigwyr Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol gymharu cofnodion archif, y model, a'r llong ar yr un pryd, gan roi cipolwg unigryw ar hanes HMS Victory.



Hunangofiannau Caroline Herschel

Amgueddfa Seryddiaeth Herschel,
Caerfaddon

£33,000

Yn arloeswr i fenywod ym myd gwyddoniaeth y DU, Caroline Herschel (1750–1848) oedd y fenyw gyntaf erioed i ddarganfod comed, i'w phapur gael ei ddarllen yn y Gymdeithas Frenhinol ac i'w hurddo gan y llywodraeth fel gwyddonydd.

Symudodd o Hanover i Gaerfaddon yn 1772 i ymuno â'i brawd William Herschel (1738–1822) a hyfforddi fel cantores. Yn ddiweddarach aeth yn seryddwr enwog, wrth iddi ddarganfod wyth comed a 14 nifiwl, cyfrannu at lawer o gatalogau seryddiaeth a derbyn medal aur y Gymdeithas Seryddol Frenhinol ym 1828.

Ysgrifennodd Caroline ei hunangofiannau pan oedd hi'n 86 oed. Maent yn cofio ei phlentynod a'i dyddiau cynnar yng

Nghaerfaddon, ac mae'r drafft hwn yn cynnwys myfyrion materol a phersonol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y fersiynau terfynol a gyhoeddwyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddeunydd Herschel mewn perchnogaeth breifat ac mae cyfleoedd i'w gaffael yn brin. Gan ddefnyddio £33,000 o ariannu CGDG, mae'r llawysgrif hon wedi'i chaffael gan Amgueddfa Seryddiaeth Herschel yng Nghaerfaddon, cartref y teulu Herschel a lle y derbyniodd Caroline ei haddysg gyntaf mewn seryddiaeth.

Bydd y cofiannau'n cael eu defnyddio i gyfeirio ailddehongliad o'r tŷ ac i ysbrydoli gweithgareddau ar gyfer ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol. Byddant hefyd yn cael eu digideiddio.



“Trwy sicrhau'r gwrthrych hwn a'i arddangos yng nghyn-gartref Caroline a William, bydd ymwelwyr yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â stori Caroline drwy ei geiriau ei hun. Bydd y caffaeliad hwn yn gwella'n sylfaenol ein gallu i adrodd stori Caroline Herschel a'i rôl o bwys byd-eang yn y byd gwyddoniaeth.”

Claire Dixon

Cyfarwyddwr Amgueddfeydd
Ymddiriedolaeth Cadwraeth
Caerfaddon



18. In the course of the Summer a Tube of the
 small 20 ft Newtonian Telescope with a
 Mirror of 12 inch Dia. was made
 by my Brother Alexander frequently pushed
 in the labours and Mechanical contrivances
 and where Strength and Courage was required
 he was always foremost to lend his assistance
 force and even yet I shudder ~~at~~ ^{on re-}
 collecting the dangerous situation ^{was}
 was in when the Gages of the 20 ft Mirror
 were struck standing at the end of one of
 the short Supporting ^{stands} ^{of this} ^{telescope}
 at full stretch he was going down the Plumb-
 line. But now and then I could not help feeling
 some uneasiness about my future prospects, for
 all the time my Brother could spare from his business
 and attending on his Scholars was com-
 pletely filled up with Optical and Mechanical
 Works as well as the fine night ^{with} ^{studying}
 the Heavens, so that I could not hope for re-
 ceiving any lessons or directions in my pro-
 fession.

... or even the comfort of his society by
 without then called upon for assisting him
 in the workroom where when I was not
 otherwise employed I used whilst he was
 at the turning of the or pointing mirrors to
 read to him - Don Quixot, the Arabian Nights
 Horne's Feelings & Revels - Serving Tea
 and Supper without interrupting the work
 with which he was engaged. In this manner
 his part of the summer was spent without any
 change, but when our Landlady with her two
 Daughters came to take Tea with us Miss Whalley
 was a very handsome young and looked upon as
 the Bride of Alexander, but it was soon found
 that she had more than one favoured lover, and
 poor Alex. was pined again, and went soon
 after to forget his disappointment in business to
 which he was engaged for the rest of the Summer.
 Being now (I interrupted) I applied each
 moment I could find in publishing by myself to by
 given notes, for health was seldom thought of.
 My father's health was so bad that he could not
 do any work for some time. I had to take
 the care with me to be sure to get the letter

24. printed so he bid high enough, and nothing was
 published.
 In such a household as this my Mother felt often
 impatient at missing my assistance in the Kitchen
 during the additional hours I was attending at
 School by way of preparation against my Confirma-
 tion. My Brother Alexander too - was now released
 from his Pilgrimage and came to Hanover (for the present)
 in Conditon by than Stadt-musikus, where he had
 little else to do but to give a daily Lesson to an Ap-
 prentice and to blow an Organ from then Mackturn.
 So that nearly all his time could be given to Prae-
 tice and receiving daily Instruction from his
 Father in order to recover what was lost by
 time and to perfect him for an First-rate Violin
 Player.
 It may easily be supposed that my Father
 could not be very happy when feeling his health
 daily declining, and no prospect of any one
 of his children capable or even willing to
 help themselves. And knowing that a constant
 Correspondence in English (of which he could of
 course not be a partaker) was kept up between my
 two eldest Brothers * He could not help feeling conso-
 lated by the subject of these Letters was a ^{new} Theory on which
 the title of which for want of time is left unpublished in
 my Brother's Library.

... about his absent son, with whom it was ^{now}
 full 7 years since their distressing parting in the
 Camp near Husterbeck; and it was not till after
 the visit he made us in 1764 when my poor Father
 was released from this anxiety by the description
 of his then present situation (at least in York-shire)
 and his future prospects.
 Of the joys and pleasures which all felt at this
 long wished for meeting with my Father (my dear
 eldest Brother); But a small portion could fall
 to my share; for my constant attendance at
 Church and School, besides the time I was employ'd
 in doing the duty of a schooler, it was but del-
 don I could make one in the groups when the
 family were assembled together.
 On the day before my Brothers arrival viz 1764
 April 18th. it happen'd to be an Eclipse of the Sun
 which we were all desirous to observe in the courtyard
 ten staves around a Tub of water, where my Father
 explain'd the Phenomenon to us.
 Monday the 2^d at noon we were much happy at
 the sight of the dear Travellers, each enjoying the writing
 according to their own feeling. Alexander was (after having
 blown his Organ at 11th from then Mackturn) introduc'd
 * See James Ferguson's Astronomy page 261.

Two Ladies

Compton Verney

£154,600



Portread alegoriaidd prin o'r 17eg ganrif yw Two Ladies sy'n dangos menyw ddu a menyw wen gyda nifer o glytiau cosmetig ar eu hwyneb. Mae'r paentiad heb ei arwyddo a chredir iddo gael ei gwblhau tua 1650. Cafodd ei basio i lawr trwy deulu a daeth ei fodolaeth i'r amlwg dim ond pan gafodd ei roi mewn arwerthiant yn 2021 a'i brynu gan Yale Center for British Art yn Connecticut, UDA. Nid yw erioed wedi bod yn destun ymchwil ac mae'n parhau i fod yn waith anhysbys.

Lansiodd Compton Verney, oriel gelf sydd wedi ennill gwobrau yn Swydd Warwick, ymgyrch i gaffael y paentiad pan ohiriwyd ei allforiad gan y llywodraeth er mwyn rhoi cyfle i sefydliadau'r DU gael gafael arno. Cynigiodd yr oriel bartneriaeth ymchwil gyda Yale. Mae'r bartneriaeth yn galluogi Yale i gynnal gwaith dadansoddi ac adfer yn ei Sefydliad Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol, tra y bydd tîm curadurool Compton Verney yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil cymrodoriaeth Yale i gynyddu dealltwriaeth o'r genre hwn o gelf Brydeinig.

Bydd y paentiad, a gaffaelwyd gyda grant CGDG o £154,600, yn dychwelyd i Compton Verney i'w arddangos yn y tymor hir. Bydd deunyddiau ymgysylltu hygyrch ar gyfer ysgolion yn cael eu datblygu yn ogystal â phrosiectau cymunedol, gan gyfeirio'n benodol at gymunedau diaspora sy'n byw yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.



“Mae'n bleser gan Compton Verney gael gwaith mor bwysig ac mae'n gyffrous i fod yn cydweithio â Yale ar brosiect ymchwil a rennir er mwyn deall ymhellach ei arwyddocâd a'i gyd-destun hanesyddol. Hoffem ddiolch i CGDG a Chronfa Grant Prynu V&A am eu cefnogaeth.”

Abigail Viner

Cyfarwyddwr Rhaglennu Creadigol ac Ymgysylltu, Compton Verney

Deial Ilay-Glynne gan Richard Glynne

Amgueddfeydd Cenedlaethol Yr Alban £135,000



“Rydym wrth ein bodd y gall yr offeryn godidog hwn, o gabinet aristocrat pwysig a phwerus yn Yr Alban, bellach gael ei chaffael gan yr amgueddfa a'i arddangos. Bydd y deial yn ffocws ar gyfer dehongli o'r newydd, gan ddatgelu ei arwyddocâd gwyddonol a diwylliannol yn llawn.”

Dr Rebekah Higgitt

Prif Guradur Gwyddoniaeth,
Amgueddfeydd Cenedlaethol Yr Alban

Mae'r Deial Ilay-Glynne yn offeryn amser a gwyddonol hardd o'r 18fed ganrif sy'n caniatáu adrodd amser yn gywir trwy fesur safle'r Haul. Mae'n cynnwys cwmpawd a chalendr sidydd, ac mae wedi'i addurno.

Fe'i crëwyd gan Richard Glynne, un o wneuthurwyr offerynnau mathemategol mwyaf mawreddog dechrau'r 18fed ganrif. Ei gwsmer oedd Iarll Ilay, 3ydd Dug Argyll yn ddiweddarach, un o 16 o arglwyddi o'r Alban i eistedd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn dilyn y Ddeddf Uno, a ddaeth mor wleidyddol bwerus wedyn y cafodd y llysenw "Brenin yr Alban."

Mae'r deial o arwyddocâd gwyddonol, esthetig a diwylliannol eithriadol ac roedd mewn perygl o gael ei werthu ar y farchnad agored. Gyda chymorth £135,000 gan CGDG, bydd yn awr yn cael ei arddangos yn oriel Spirit of the Age yn Amgueddfa Genedlaethol Yr Alban, Caeredin. Bydd yn helpu i adrodd hanes sut yr helpodd diddordebau a nawdd Ilay i osod sylfeini Goleuedigaeth Yr Alban.

Mae Amgueddfeydd Cenedlaethol Yr Alban yn gweld y deial fel gwrthrych seren, sy'n cyfuno hanes deallusol a materol ac yn helpu i adrodd straeon newydd am ddatblygiad diwylliannol Yr Alban ar ôl y Ddeddf Uno. O ystyried diddordebau a gweithgareddau Ilay, bydd hefyd yn galluogi dehongliad pellach o hanesion trefedigaethol a'u etifeddiaethau, yn ogystal ag archwiliadau o bwysigrwydd manwl gywirdeb, seryddiaeth ac amser.

Y Llawysgrif Liwt

Prifysgol Caeredin

£73,100

Cyfrol brin 400 mlwydd oed yw'r Llawysgrif Liwt a oedd ar un adeg yn eiddo i Arnold Dolmetsch, un o sylfaenwyr y mudiad Cerddoriaeth Gynnar. Wedi'i greu yn Bafaria tua 1620 ac yn dal yn ei rhwymiad gwreiddiol, mae wedi bod yn bwysig i ysgolheictod liwt ers dros ganrif.

Wedi'i ysgrifennu mewn tabl nodiant liwt Ffrengig – nodiant cynnar gyda chysylltiaeth â thabiau gitâr modern – mae'r gerddoriaeth yn rhyngwladol, gan gynnwys darnau gan gyfansoddwyr Ffrangeg, Eidaleg a Phrydeinig. Mae 320 o weithiau, nad yw 89 ohonynt i'w darganfod mewn unrhyw llawysgrif arall.

Dyma un o'r ffynonellau cerddoriaeth pwysicaf sydd wedi goroesi ar gyfer y liwt, offeryn poblogaidd iawn yn y 1600au a'r 1700au. A'r llawysgrif mewn perygl o gael ei gwerthu dramor, gosododd llywodraeth y DU far allforio ar y llyfr er mwyn rhoi cyfle i sefydliadau'r DU gael gafael arno. Diolch i gyfraniad o £73,100 gan CGDG, mae'r gyfrol werthfawr hon wedi'i hachub ar gyfer y DU.

Bydd y llawysgrif yn cael ei chadw, ei chatalogio a'i digideiddio gan Brifysgol Caeredin, yn barod i'w defnyddio mewn ymchwil ac addysgu. Bydd ei cherddoriaeth yn cael ei pherfformio mewn cyngherddau sydd i'w cynnal yn Neuadd St Cecilia, Caeredin – lleoliad cyngherddau hynaf Yr Alban.



“Bydd y Llawysgrif Liwt yn cyfoethogi dealltwriaeth myfyrwyr ac ymwelwyr o sut mae cerddoriaeth wedi chwarae rhan enfawr yn ein bywydau trwy gydol hanes. Mae cael cyfansoddiadau wedi'u perfformio ar yr offerynnau y cawsant eu hysgrifennu ar eu cyfer yn cynnig mewnwelediadau anhygoel i arferion cyfansoddi a pherfformio sy'n ysbrydoli cerddorion heddiw mewn sawl ffordd wahanol.”

Dr Jenny Nex

Curadur a Darlithydd mewn Offerynnau Cerdd, Prifysgol Caeredin





Archif John Galsworthy

Y Llyfrgell Brydeinig

£150,000



Roedd yr awdur a'r dramodydd John Galsworthy (1867–1933) yn un o ffigyrau llenyddol mwyaf poblogaidd a dylanwadol ar ddechrau'r 20fed ganrif ac yn enillydd Gwobr Nobel am Lenyddiaeth. Yr archif hon yw'r casgliad mwyaf o'i bapurau sydd wedi goroesi. Mae'n cynnwys llythyrau o'i gyfoeswyr llenyddol, llawysgrifau o'i nofelau a'i ddramâu â'i lofnod arnynt, a chyfrolau o'i ddyddiaduron.

Yn ei fywyd preifat a'i weithiau cyhoeddedig, roedd gan Galsworthy bryderon ynghylch system dosbarth cymdeithasol Lloegr a'r anghyfiawnder cymdeithasol a ddeilliodd ohoni. Defnyddiodd ei ysgrifennu i ymgyrchu dros gydraddoldeb hiliol, hawliau menywod, diwygio carchardai, lles anifeiliaid ac yn erbyn sensoriaeth. Fe'i cofir yn bennaf am The Forsyte Saga, cyfres o nofelau fu'n disgrifio bywydau teulu Saesneg dosbarth canol uwch.

Caffaelwyd yr archif gyda chymorth £150,000 gan CGDG. Bydd y Llyfrgell Brydeinig yn ei gatalogio'n llawn ac yn darparu mynediad ymchwil iddi am byth.

Bydd dogfennau o'r archif yn cael eu harddangos yn Oriel Drysorau'r Llyfrgell a bydd copïau digidol dethol yn cael eu cyhoeddi ar ei llwyfan ddysgu 'Discovering Literature'. Mae gan y llyfrgell raglen gyhoeddus weithredol ym maes llenyddiaeth a theatr ac mae'n benthyg eitemau'n rheolaidd o'i chasgliadau i arddangosfeydd allanol.



“Mae archif John Galsworthy yn adnodd sylweddol o ran astudio llenyddiaeth a theatr yn negawdau cyntaf yr 20fed ganrif. Rwy'n falch iawn y bydd nawr ar gael yn barhaol ar gyfer ymchwil ac astudio yn y DU.”

Dr William Frame
Pennaeth Archifau a
Llawysgrifau Modern,
Y Llyfrgell Brydeinig

Casgliad Beiciau Modur Rasio Gogledd Iwerddon

Amgueddfeydd Cenedlaethol
Gogledd Iwerddon

£90,000



“Rydym wrth ein bodd bod y beiciau modur hyn yn dod yn rhan o'r casgliad cenedlaethol. Mae awydd sylweddol am feicio modur yng Ngogledd Iwerddon, felly does gennyf ddim amheuaeth y bydd y newyddion hyn yn cael ei groesawu gan y cyhoedd yn ehangach. Hoffwn ddiolch i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol am wneud y caffaeliad cyffrous hwn yn bosib.”

Kathryn Thomson

Prif Weithredwr Amgueddfeydd
Cenedlaethol Gogledd Iwerddon

Yn cynnwys saith beic modur rasio ffordd sy'n dyddio o'r 1970au i'r 2010au, mae'r casgliad hwn yn cynrychioli camp rasio ffyrdd beiciau modur yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r beiciau wedi'u cysylltu â rhai o bencampwyr rasio ffyrdd pwysicaf Gogledd Iwerddon erioed, gan gynnwys Joey Dunlop a enillodd y Grand Prix Ulster 24 o weithiau yn ystod ei yrfa. Ystyrir hefyd bod y beiciau modur o ddiddordeb eithriadol gan fod pob beic yn unigryw, gan gael ei addasu'n bwrpasol ar gyfer y beiciwr.

Mae rasio ffyrdd yn gamp fawr yng Ngogledd Iwerddon, sy'n un o'r ychydig wledydd yn y byd sy'n cynnal rasys ar ffyrdd cyhoeddus. Ystyrir mai'r North West 200 yw'r digwyddiad chwaraeon blynyddol mwyaf yng Ngogledd Iwerddon gan ddenu dros 150,000 o wylwyr bob blwyddyn. Ac eto, nid oedd gan Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon unrhyw enghreifftiau o feiciau modur rasio yn eu casgliad.

Gyda chymorth £90,000 gan CGDG, bydd y casgliad yn cael ei symud i gasgliad parhaol Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon lle bydd eu tîm cadwraeth yn gofalu amdano. Bydd y beiciau modur yn cael eu harddangos yn Ulster Transport Museum.



Celc Swydd Henffordd

Gwasanaeth Amgueddfa
Swydd Henffordd

£456,250

Yn ystod haf 2015, bu sibrydion am ddarganfyddiad ysblennydd ond heb ei ddatgan ymhlith cymuned defnyddwyr datgelydd metel clos y DU. Yna postiwyd lluniau o ddarnau arian prin mewn fforwm defnyddwyr datgelydd metel ar-lein.

Pan roddwyd darnau arian tebyg ar werth mewn tŷ ocsiwn yn Llundain, bu cryn dipyn o bryder. Bu dwy gyrch ar dai defnyddwyr datgelydd metel yn Ne Cymru a daethpwyd o hyd i luniau o drysor, dal wedi'u hanner-claddu mewn cae ger Llanllieni, Swydd Henffordd. Dangosodd y rhain oddeutu 300 o ddarnau arian, er mai dim ond 29 y gallai'r heddlu ei adfer.

Datganwyd yr eitemau a adferwyd, sydd bellach wedi'u hadnabod fel Celc Swydd Henffordd, yn "drysor", gan alluogi sefydliad yn y DU i godi arian i'w gaffael. Mae'r celc yn cynnwys modrwy fraich aur gyda chlesbyn pen bwystfil, crogdwlws wedi'i wneud o sffêr o grisial craig caboledig mewn ffrâm aur a modrwy bys wythonglog aur enfawr gyda mewnosodiad du.

Mae'n debyg bod y trysor wedi'i gladdu tua AD 878 fel rhan o celc Llychlynnaidd statws uchel. Mae'r darnau arian ar eu pennau eu hunain yn ailysgrifennu hanes Prydain yn y cyfnod hwn: gan adlewyrchu perthynas fwy cyfartal rhwng teyrnasoedd Mercia a Wessex na'r hyn a ddisgrifiwyd yn Cronicleu Eingl-Sacsonaidd y Brenin Alfred. Fel un o'r trysorau canoloesol cynnar mwyaf arwyddocaol a ddarganfuwyd erioed ym Mhrydain, mae grant gan CGDG o £456,250 (yr hawliwyd £402,800 ohono) wedi helpu i gaffael y celc a fydd yn y pen draw yn cael ei arddangos yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Henffordd, a bydd yn cael ei weld mewn cyfres o ddiwrnodau agored cyhoeddus yn 2023 yng Nghanolfan Adnoddau a Dysgu Amgueddfa Henffordd.



Tudalen gyferbyn:

Tlws crog crisial
5ed-7fed ganrif

Modrwy bys aur wythonglog
9fed ganrif

Isod:

Breichled aur o'r 9fed ganrif

Ceiniog arian Ceolwulf II o
Mercia o'r 9fed ganrif



“I lawer, creodd yr ymgyrch i gaffael y celc gysylltiad â hanes y sir. Mae'n galonogol clywed pobl yn siarad am y celc gyda'r fath gariad a diddordeb – mae wir wedi dal dychymyg yr Henfforddwyr. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth CGDG wrth helpu i ddod â'r celc adref.”

Damian Etheraads

Arweinydd Amgueddfa ac
Oriol Gelf, Cyngor Swydd
Henffordd



Gwarchod RRS Discovery ar frys

Dundee Industrial Heritage Ltd

£1,000,000



“Rydym yn hynod ddiolchgar i CGDG am ei chefnogaeth barhaus i'r gwaith hwn, sy'n mynd yn gynyddol frys. RRS Discovery yw prif flaenoriaeth Ymddiriedolaeth Treftadaeth Dundee a'r gwaith hwn yw'r cam cyntaf i sicrhau dyfodol hirdymor y llong.”

Emma Halford-Forbes

Cyfarwyddwr Treftadaeth ac Arddangosfeydd, Ymddiriedolaeth Treftadaeth Dundee

Mae Royal Research Ship Discovery o bwysigrwydd amlwg yn hanes morwrol y DU. Fe'i hadeiladwyd yn Dundee a'i dylunio ar gyfer ymchwil wyddonol ac i wrthsefyll cael ei rewi mewn rhew yn ystod alldaith Genedlaethol Antarctig Prydain 1901–04 dan arweiniad Capten Scott. Bu i'r alldaith siartio arfordir Antarctica, darganfod ffin plât tectonig a chynorthwyo astudio morfilod. Roedd y llong wedi cael gyrfa amrywiol nes iddi gael ei dychwelyd adref yn 1986 i wasanaethu fel man addysg ac adloniant.

Cynlluniwyd i atgyweiriadau brys i'r llong, gyda chefnogaeth CGDG, ddechrau yn 2021, ond gohiriwyd y gwaith oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 estynedig, a oedd hefyd yn cyflwyno heriau o ran sicrhau contractwyr, fel y gwnaeth natur arbenigol y gwaith. Yn y cyfamser cododd cost pren, y prif ddeunydd atgyweirio, yn serth, a gwaethygodd pydredd y llong oherwydd yr oedi.

Ymrwymodd CGDG arian CGDG ychwanegol o £1,000,000 i alluogi'r gwaith mwyaf brys o atgyweirio'r dec, amnewidiad hydredol y starn, paentio, ailgalcio ac amddiffyn corff y llong. Mae hyn yn cynrychioli cam cyntaf hanfodol y gwaith atgyweirio, a fydd yn sefydlogi'r llong wrth i arian gael ei godi ar gyfer gwaith pellach.



Medalau Arweinydd Sgwadron Arthur Scarf VC

Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol

£390,000



Mae'r medalau a ddyfarnwyd i Arweinydd Sgwadron Arthur Scarf am ei ddewrder a'i wasanaeth yn ystod y rhyfel yn cynnwys Croes Fictoria yn ogystal â Seren 1939–45, Medal Amddiffyn, Medal Ryfel 1939–45, a Seren y Môr Tawel. Roedd y medalau ar fenthyg ac yn cael eu harddangos gan Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol am 40 mlynedd cyn iddynt gael eu tynnu'n ôl i'w gwerthu gan y perchennog.

Mae'r grŵp hwn o ddiddordeb hanesyddol eithriadol, yn enwedig y VC, sef yr unig un a ddyfarnwyd i aelod o'r Llu Awyr Brenhinol am weithredoedd yn theatr De-ddwyrain Asia yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd y medalau mewn perygl o gael eu colli i'r genedl ar ôl cael eu gwerthu mewn arwerthiant i brynwr o dramor a gosododd y llywodraeth far allforio ar y medalau er mwyn rhoi cyfle i sefydliadau yn y DU eu sicrhau. Camodd CGDG i'r adwy gan ddyfarnu £390,000 i Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol i gynorthwyo ei gais i gadw'r trysor cenedlaethol hwn yn y DU. Bydd Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol yn arddangos y grŵp yn ei oriel gyflwyniadol yn y lle cyntaf. Yna fe gaiff ei symud i ofod arddangos, yng nghalon yr amgueddfa, gydag awyrennau sy'n gysylltiedig â theatr y Dwyrain Pell yn yr Ail Ryfel Byd. Dyma ran o'r rhyfel honno lle mae rôl y Llu Awyr Brenhinol yn draddodiadol wedi'i thangynrychioli.



“Roedd ein hymgyrch i achub Croes Fictoria Arthur Scarf a'r bar medalau rhag cael eu hallforio'n flaenoriaeth enfawr i ni am eu bod yn cynrychioli naratif pwysig a thangynrychioledig o arwriaeth yr RAF yn y Dwyrain Pell. Mae medru rhannu'r stori hanesyddol arwyddocaol a emosiynol personol hon er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ddysgu ohoni a chael eu hysbrydoli ganddi yn fraint ac yn llawenydd.”

Maggie Appleton MBE

Prif Weithredwr, Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol

Archif Buckland

Amgueddfa Hanes Naturiol
Prifysgol Rhydychen

£224,450




“Mae caffaeliad yr amgueddfa o gasgliad mawr o bapurau Buckland o ddwylo preifat yn ddatblygiad sylweddol i haneswyr gwyddoniaeth ac eraill sydd â diddordeb yn hanes rhyw, dosbarth a gwladychiaeth. Ynghyd â chasgliadau Rhydychen sydd eisoes yn fawr ac yn amrywiol, bydd y deunyddiau newydd yn cadarnhau Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen fel canolbwynt ymchwil yn y dyfodol.”

Eliza Howlett

Pennaeth Casgliadau'r Ddaear,
Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol
Rhydychen



Roedd William Buckland (1784–1856) yn ffigwr dylanwadol tu hwnt yn y byd academiaidd, gwleidyddiaeth, gwyddoniaeth a chrefydd. Ef oedd y person cyntaf i enwi a disgrifio deinwsor ffosil (Megalosor), a bu i'w ymchwil osod sylfeini palaeoecoleg – astudiaeth ecosystemau dros amser. Roedd gwraig Buckland, Mary (née Morland) (1797–1857) hefyd yn gasglwr ffosiliau, palaeontolegydd a darlunydd gwyddonol uchel ei pharch.



Roedd Archif Buckland mewn perygl o fynd ar wasgar trwy gael ei gwerthu ar y farchnad agored. Cyfrannodd CGDG £224,450 er mwyn diogelu'r archif. Mae Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen wedi casglu dros 1,000 o eitemau Buckland gan gynnwys llythyrau, llyfrau nodiadau, papurau teulu, printiau a gweithiau celf, sy'n cynrychioli William a Mary ill dau. Bydd y rhain yn cyfoethogi archif Buckland bresennol yr amgueddfa ac yn ychwanegu'n sylweddol at y ddealltwriaeth o fywyd a gwaith y teulu Buckland.



O'r chwith i'r dde:


Portread o William Buckland

Mary Morland, dyfrlliw o fôr-gyllell, c. 1817, o'i llyfr nodiadau o sbesimenau

Mary Morland, dyfrlliw o *Dipus canadensis* (llygodyn neidio o Ganada) c.1817, o'i llyfr nodiadau o sbesimenau

Thomas Sopwith, dyfrlliw o William Buckland yn archwilio ffurfiant creigiau yn Eryri, mis Hydref 1841

Llythyr wedi'i lofnodi gan Mary Anning at William Buckland, 21 Rhagfyr 1830, yn ei hysbysu am sgerbwd plesiosor yr oedd wedi'i ddarganfod yn ddiweddar



Mae tystiolaeth o'r archif yn rhoi mewnwelediad manwl i feddylfryd a sefydliadau ar ddechrau'r 19eg ganrif, adeg pan oedd gwyddoniaeth a diwinyddiaeth yn aml yn rhoi esboniadau gwahanol ar gyfer ffenomenau naturiol. Mae'r archif hefyd yn cynnwys gweithiau celf gwreiddiol, gan gynnwys fersiwn prin mewn lliw o'r lithograff sy'n seiliedig ar lun Henry de la Beche, 'Duria Antiquior' – y gynrychiolaeth ddarluniadol gyntaf o olygfa o fywyd cynhanesyddol yn seiliedig ar dystiolaeth o ffosilau – a phortread prin o Buckland yn y maes.





Tirwedd Panoramig gyda Chaeau ŷd a Thwyni wrth ymyl y Môr gan Jacob Van Ruisdael

Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk £122,628

Jacob Van Ruisdael (1628/9–1682) oedd arlunydd tirweddau clasurol mwyaf dylanwadol yr Iseldiroedd yn yr 17eg ganrif. Mae'r paentiad hwn yn enghraifft o'i arddull ddiweddarach, yn dangos caeau isel, melin wynt, tai, arfordir, cychod bach ac ychydig o ffigurau, o dan awyr enfawr yn llawn cymylau cwmwlws. Mae wedi'i gydnabod yn feirniadol fel un o'i weithiau diweddarach gorau.

Mae gan y paentiad gysylltiad rhanbarthol cryf â Norfolk hefyd, am ei fod yn rhan o un o gasgliadau celf mawr y sir. Fe'i cynigiwyd o dan gytundeb Derbyn-mewn-Lle hybrid, sy'n galluogi amgueddfeydd i gaffael am bris sy'n cynnwys gostyngiad treth. Gyda £122,628 o ariannu CGDG, roedd Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk yn gallu caffael paentiad sy'n dangos datblygiad celf a chasglu yn Norfolk yn y 19eg ganrif.

Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk eisiau ei arddangos yn barhaol yn Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Norwich, mewn ystafell sydd wedi'i hymroi i ddylanwad tirwedd Oes Aur yr Iseldiroedd ar baentio tirweddau'r 18fed a'r 19eg ganrifoedd yn Nwyrain Anglia. Yno, bydd yn helpu i adrodd hanes casglu celf yn Norfolk, sy'n thema allweddol i'r amgueddfa.



“Yn gyfansoddiad godidog o olau a chysgod, mae hwn yn waith allweddol yn hanes casglu celf Norfolk. Diolch i'r cynllun Derbyn-mewn-Lle a haelioni arianwyr, rydym wrth ein bodd i'w gadw yn Norfolk i'r cyhoedd ei fwynhau am genedlaethau i ddod.”

Steve Miller

Cyfarwyddwr Diwylliant a Threftadaeth, Pennaeth Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk, Cyngor Swydd Norfolk

Prosiectau Cronfa Ymateb COVID-19 CGDG

Trosolwg

Mae ein Cronfa Ymateb COVID-19, a lansiwyd ym mis Mehefin 2021, yn cefnogi treftadaeth sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ac mewn perygl oherwydd effaith y pandemig ledled y DU.

Mae cyfanswm o £40miliwn yn cael ei ddsbarthu gan CGDG.

1. Mae CGDG wedi ymrwymo £20miliwn, ar gyfer treftadaeth o bwys cenedlaethol ledled y DU.

2. Darparwyd Cronfa Asedau Diwylliannol gwerth £20miliwn gan DCMS fel rhan o Gronfa Adferiad Diwylliant ehangach llywodraeth y DU. Mae'r ariannu hwn yn diogelu asedau treftadaeth o bwys cenedlaethol yn Lloegr.

Yn 2022–2023 bu i ni ymrwymo'r Gronfa Asedau Diwylliannol yn llawn i gefnogi grantiau i brosiectau yn Lloegr a byddwn yn parhau i ddsbarthu ariannu ledled y DU hyd at ddiwedd mis Mehefin 2023.

Prosiectau DU gyfan



Bythynnod y glowyr

£75,752



SV Glenlee

£1,809,500



'Morayshire'

£144,290

Prosiectau'r CAD



Vigilance of Brixham

£820,000



Castell Hurst

£500,000



Melin Corffori Powdwr Gwn 'L157', Waltham Abbey

£420,575



Melin Paradise, Amgueddfa Sidan a'r Hen Ysgol Sul, Macclesfield

£308,975



Wyth capel hanesyddol

£3,689,000

Bythynnod y glowyr

Ymddiriedolaeth Amgueddfa Wanlockhead



“Mae'r adeiladau dan ofal Ymddiriedolaeth Amgueddfa Wanlockhead wedi goroesi am fwy na thair canrif mewn amgylchedd arbennig o heriol. Diolch i arian a ddarparwyd gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG, byddant yn cael eu hadfer i'w gogoniant blaenorol, mewn pryd ar gyfer pen blwydd yr ymddiriedolaeth yn 50 oed yn 2024.”

Jon Evans

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr,
Ymddiriedolaeth Amgueddfa
Wanlockhead, Amgueddfa
Mwyngloddio Plwm, Wanlockhead

Mae'r Amgueddfa Mwyngloddio Plwm yn cynnwys cyfres o fythynnod y glowyr a'r pwll glo ei hun ym mhentref Wanlockhead yn ne-orllewin Yr Alban. Mae wedi'i lleoli o fewn ardal gadwraeth a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Dechreuodd mwyngloddio mwyn plwm yn y 1600au a pharhaodd nes yr aeth plwm yn rhatach i'w fewnforio yn y 1950au. Roedd y glowyr yn gweithio fel dynion rhydd, yn wahanol i lowyr glo, ac roedd ganddynt fynediad at system addysg a lles a ddefnyddiwyd yn helaeth.

Sefydlwyd Llyfrgell y Glowyr yn 1756 gan grŵp o lowyr plwm. Mae'n un o lyfrgelloedd tanystrifio hynaf Ewrop, ac yn un o'r nifer fach o enghreifftiau sydd wedi goroesi o lyfrgell danystrifio gymunedol yn darparu addysg a diwylliant i bobl sy'n gweithio. Yn Gasgliad Cydnabyddedig, mae ganddo tua 2,800 o gyfrolau sy'n adlewyrchu diddordebau a hanes cymdeithasol y rhai a fu'n defnyddio'r llyfrgell yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrifoedd.

Roedd angen gwaith atgyweirio hanfodol ar fwthyn Llyfrgell y Glowyr a dau arall i atal dŵr rhag dod i mewn a diogelu'r casgliad y maent yn gartref iddo, ar ôl i'r pandemig effeithio ar allu'r amgueddfa i wneud gwaith cynnal a chadw. Bydd cyfraniad o £75,752 gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG yn helpu i'w gwneud yn ddiogel rhag y tywydd ac osgoi dirywiad pellach.

SV Glenlee

Ymddiriedolaeth The Tall Ship Glenlee



“ Mae'r arian hwn yn llinell fywyd ar gyfer cynnal a chadw ein llong hoff annwyl a adeiladwyd ar Afon Clud. Mae'r Tall Ship yn grynhoad o'r cyfnod olaf o longau hwylio yn y byd ac wedi mynd yn rhan hynod eiconig o nelinell Glasgow a threftadaeth ddiwylliannol y ddinas. Edrychwn ymlaen at weld trawsnewidiad y llong dros y ddwy flynedd nesaf.”

Fiona Greer

Cyfarwyddwr Datblygu Ymddiriedolaeth The Tall Ship Glenlee Trust

Mae Sailing Vessel Glenlee yn llong tri mast o adeiladwaith dur a adeiladwyd ym Mhorth Glasgow ym 1896. Mae'n un o bump yn unig o longau hwylio a adeiladwyd ar Afon Clud sy'n weddill ar y dŵr yn y byd, a'r unig un o'i fath yn y DU.

Cludodd Glenlee lwythi ar ddiwedd y 19eg ganrif ac ar ddechrau'r 20fed ganrif, gan deithio o gwmpas y byd bum gwaith a bu'n llong wasanaeth yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gefnogi economi'r rhyfel trwy gludo cargo gan gynnwys olew, glo, nitradau a gwenith. Ddeng mlynedd ar hugain yn ôl dychwelodd y cyn-long hwylio llynges fasnachol hon i Afon Clud o Sbaen. Fel amgueddfa achrededig mae bellach yn croesawu 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Roedd y llong i fod i fynd i doc sych am waith atgyweirio yn 2020–2021 ond amharwyd ar hyn gan y pandemig, a effeithiodd yn sylweddol hefyd ar incwm ymwelwyr a chodi arian, gan leihau gallu'r ymddiriedolaeth i dalu am waith cynnal a chadw.

Mae grant o £1,809,500 gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG yn galluogi i waith atgyweirio brys gael ei gwblhau. Bydd gwaith hanfodol yn digwydd ar gragen, deciau a rigio'r llong, a'r amserlen i'w gwblhau yw rhan gyntaf 2025.

'Morayshire'

Scottish Railway Preservation Society



“Mae Scottish Railway Preservation Society wrth ei fodd â derbyn arian ar gyfer y Prosiect 'Morayshire', a fydd yn ein galluogi i adfer, a chadw ased gwerthfawr i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau. Edrychwn ymlaen at weithio mewn partneriaeth â CGDG.”

Yvonne MacDermid
Cadeirydd, Scottish Railway Preservation Society

Wedi'i gwblhau ym 1928, mae 'Morayshire' yn locomotif Dosbarth D49. Mae'n arwyddocaol i dreftadaeth rheilffyrdd Yr Alban gan iddo gael ei ddylunio'n benodol ar gyfer gwasanaeth cyflym i deithwyr a heriau tirwedd Yr Alban. Y dylunydd oedd Syr Nigel Gresley, peiriannydd rheilffordd amlwg. 'Morayshire' yw'r unig enghraifft sydd wedi goroesi o'r dosbarth D49.

Roedd 'Morayshire' mewn perygl unwaith y bu'n rhaid canslo gwaith ailwampio a amserlennwyd ar ôl i'r cwmni oedd yn gwneud y gwaith fynd i ddwylo'r derbynnyddion yn ystod y pandemig. Cafodd y locomotif ei ddatgymalu a'i storio, gan gynyddu'r risg o rannau'n diraddio neu'n cael eu colli. Roedd angen arian i gwblhau'r gwaith ailwampio.

Bydd grant o £144,290 gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG yn helpu i alluogi gwaith adfer mewn gweithdy sy'n cynnwys llwyfan wyllo sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Bydd cwblhau'r gwaith adfer yn dychwelyd 'Morayshire' i gyflwr gweithio a bydd yn rhedeg ar Reilffordd Bo'nness a Kinneil Ile y bydd ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd.

Vigilance of Brixham

The Friends of The Vigilance



“Hebdo, byddai'r cwch treftadaeth pwysig hwn wedi cael ei golli. Erbyn hyn mae hi mewn iard longau arbenigol yn Plymouth i newid y pren i gyd o dan y ddyfrlin. Mae'n dasg anferth. Mae angen llawer mwy o waith ac arian ond diolch i Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG ymateb mae hi wedi cael ei hachub.”

Nigel Gooding

Cyfarwyddwr Cyllid ac Ymddiriedolwr,
The Friends of the Vigilance

Wedi'i adeiladu yn 1926, Vigilance yw'r trellong bysgota hwylio fawr olaf a adeiladwyd yn Brixham. Mae'r cwch hwylio 111 troedfedd cyfareddol hwn yn oroeswr prin o'i fath ac yn un o ddim ond 200 o gychod sy'n ffurfio Ffilyd Hanesyddol Genedlaethol y DU. Mae Friends of the Vigilance yn elusen gwirfoddolwyr fach sy'n gweithredu'r cwch, gan gynnig mordeithiau byr o amgylch Torbay ac arfordir Riviera Lloegr. Mae llinellau llyfn a hwyliau uchel wedi'u rigio â thryfer Vigilance yn rhan nodedig a hanfodol o leoliad harbwr hanesyddol Brixham.

Yn anffodus bu i'r pandemig COVID-19 atal llawer o weithgareddau'r Cyfeillion, gan ddinistrio incwm ac achosi dwy flynedd o oedi i waith adnewyddu a chynnal a chadw hanfodol. Aeth yr angen am waith atgyweirio'n frys er mwyn i Vigilance barhau i hwylio.

Golygodd grant gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG y gellid mynd â Vigilance i doc sych yn Plymouth lle bydd gwaith yn cael ei wneud i'w starn, i'w chragen a'i chilbren. Disgwylir i'r waith atgyweirio bara 20 mis, gan sicrhau dyfodol hirdymor y cwch fel rhan o Strategaeth Treftadaeth Torbay.

Castell Hurst

English Heritage



Sefydlwyd Castell Hurst gan Harri'r VIII rhwng 1541 a 1544 ar dafod Hurst, bron i filltir allan yn y Solent. Mae'n un mewn cyfres o gaerau canoloesol sy'n ymestyn o Hull i Aberdaugleddau a fu'n rhan hanfodol o amddiffyniad de Lloegr o gyfnod y Tuduriaid tan ganol yr 20fed ganrif.

Yn erbyn cefndir y pandemig, gyda'i heriau canlyniadol i incwm a niferoedd ymwelwyr, ym mis Chwefror 2021 cwmpodd darn o wal ar adain ddwyreiniol y castell o'r 19eg ganrif ar ôl i'r môr amlygu a thandorri ei sylfeini.

Er y bu'n bosib sefydlogi a gwarchod y rhan hon o'r castell gyda chefnogaeth y Gronfa Adfer Diwylliannol, mae'r eiddo'n parhau i fod mewn perygl o fethiant adeileddol pellach, prosesau arfordirol newidiol ac ymchwydd yn lefel y môr. Gan hynny, cafodd Castell Hurst ei gynnwys ar Restr Warchod Cronfa Henebion y Byd 2022, sy'n tynnu sylw at 25 o safleoedd treftadaeth sydd fwyaf mewn perygl ledled y byd bob dwy flynedd, gan alluogi English Heritage i rannu profiad a dysgu gan eraill sy'n wynebu heriau tebyg yn fyd-eang.

Er mwyn helpu i bennu'r ffordd orau o ddiogelu'r castell yn y tymor hir, derbyniodd Prosiect Dichonoldeb Sefydlogi Castell Hurst grant o £500,000 gan Gronfa Ymateb COVID-19 ehangach CGDG. Mae'r prosiect wedi cynnwys ymchwiliadau daear, arolygon adeileddol, arolwg geomatig 3D a chynllunio dichonoldeb, dylunio a meistr. Bydd hefyd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer ailgorgymnodiad i'r cyhoedd.



“Er ein i ni gymryd camau breision i amddiffyn Castell Hurst, mae hyn yn amgylchedd heriol a bythol newidiol o hyd, gydag erydiad arfordirol a stormydd môr llym yn parhau i achosi risg. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Cronfa Ymateb COVID-19 CGDG.”

Rob Woodside
Cyfarwyddwr Ystadau
English Heritage

Melin Corffori Powdwr Gwn 'L157', Waltham Abbey

Melinau Powdwr Gwn Brenhinol



“Bydd y grant gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG yn ein galluogi i ddiogelu un o'n hadeiladau hanesyddol mwyaf gwerthfawr ac ail-lansio ein rhaglen addysg o ddifri. Mae wrth wraidd ein safle a bydd ei adfer i ddefnydd unwaith eto ar ôl cyfnod mor anodd yn rhoi hwb gwych i'n rhaglenni cyhoeddus.”

Fiona Baxter

Cadeirydd Cwmni Gweithredu
Melinau Powdwr Gwn Brenhinol
Waltham Abbey

Dyfeisiwyd neu datblygwyd llawer o brosesau diwydiant powdwr gwn ym Melinau Powdwr Gwn Brenhinol Waltham Abbey. Mae'r safle a'i gasgliadau o ddeunydd archifol yn cynrychioli hanes cyfan y diwydiant powdwr gwn, gan gynnwys technolegau a allforiwyd ar draws y byd.

Mae ugain o adeiladau prin y safle wedi'u rhestru. Y Felin Corffori Powdwr Gwn 'L157' Gradd I rhestredig, a adeiladwyd ym 1861, yw'r cyntaf a'r mwyaf cyflawn o'r melinau corffori. Mae'n bosib olrhain datblygiad y diwydiant powdwr gwn trwy addasiadau a newidiadau'r adeilad.

Arweiniodd cyfnodau hir o fod ar gau yn ystod y pandemig at golli incwm sylweddol, mynediad cynnal a chadw cyfyngedig a gostyngiad yn nifer y staff. Daeth mynediad cyhoeddus i stop a gwaethygodd cyflwr L157 i'r pwynt yr aeth yn gritigol.

Diolch i grant o £420,575 gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG, bydd gwaith hanfodol yn cael ei wneud i daclo dirywiad i'r adeilad, gan gynnwys i'w do, ffenestri'r nenfwd, cladin, pren adeileddol, addurniadau a draenio. Bydd hwb yn cael ei roi i arddangosiadau a dehongli a bydd y safle'n ailagor i'r cyhoedd.

Melin Paradise, Amgueddfa Sidan a'r Hen Ysgol Sul, Macclesfield

The Silk Heritage Trust



“Fel yr unig amgueddfa sidan yng nogledd Lloegr, rydym wrth ein boddau â medru cychwyn ar y gwaith pwysig hwn. Mae gwarchod ein treftadaeth genedlaethol a rhyngwladol bwysig yn golygu y gall mwy o ymwelwyr gael eu hysbrydoli gan y bobl a'r arloesedd creadigol a thechnegol a wnaeth Macclesfield yn ganolfan fyd eang ar gyfer cynhyrchu sidan.”

John Varney
Cadeirydd, The Silk Heritage Trust

Ar un adeg roedd Macclesfield yn gynhyrchydd mwyaf y byd o sidan gorffenedig, gyda 5,000 o wyddiau a 71 o ffatrioedd melin. Mae ei nenlinell wedi'i siapio gan felinau a'i strydoedd coblog wedi'u leinio â rhesi o fythynnod gweithwyr. Mae Silk Heritage Trust yn gyfrifol am gasgliadau treftadaeth ddiwydiannol ysbennydd y dref a rhai o'i hadeiladau eiconig.

Bu i'r pandemig ostwng cronfeydd yr amgueddfa'n sylweddol, gan gynnwys ar gyfer gwaith atgyweirio, gan roi adeiladau a fu eisoes yn fregus a'u casgliadau mewn perygl. Gyda grant o £308,975 gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG, bydd yr amgueddfa yn mynd i'r afael â'r risgiau allweddol hyn, gan ddiogelu dyfodol hirdymor yr asedau treftadaeth.

Bydd les 125 mlynedd newydd yn cael ei sicrhau ar gyfer llawr uchaf y Felin Paradise restredig Gradd II, sy'n gartref i gasgliad mwyaf adnabyddus Ewrop o wyddiau llaw sidan Jacquard yn eu lleoliad gwreiddiol. Bydd y les yn sicrhau atgyweiriadau hanfodol i'r to ac adfer lifft, gan agor mynediad i'r cyhoedd. Bydd ffenestri'r Hen Ysgol Sul restredig Gradd II* yn cael eu hatgyweirio a'u hadnewyddu.

Yn olaf, bydd rheolaethau amgylcheddol yr Amgueddfa Sidan yn cael eu huwchraddio i wella storio a chadwraeth, gan gynnwys ar gyfer casgliad arwyddocaol o lyfrau patrymau sidan sy'n cofnodi bron i 200 mlynedd o greadigrwydd a dyluniadau dyfeisgar.

Wyth capel hanesyddol

Historic Chapels Trust



“Mae HCT yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth grant CAD CGDG wrth i ni fynd ati gyda'r broses drist ond anochel o ddod o hyd i gartrefi newydd a chynaliadwy ar gyfer ein capeli ysblennydd. Heb yr arian yma byddai rhagolygon y capeli yn y dyfodol ond yn un o ansicrwydd a risg fawr. Dim ond CAD all helpu fel hyn.”

Chris Smith
Cadeirydd, Historic Chapels Trust

Historic Chapels Trust (HCT) yw ceidwad 20 o addoldai segur rhestredig Gradd I neu Radd II* nad ydynt yn perthyn i Eglwys Loegr. Mae'r capeli hyn yn olrhain datblygiad Anghydfurfiaeth a Chatholiaeth Rufeinig yn Lloegr.

Mae rhai o'r capeli yn enghreifftiau prin a rhagorol o'u math, ac maent o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol eithriadol. Mae gan rai ffitiadau pensaernïol pwysig neu maent o arwyddocâd arbennig i'w henwad. Mae gan nifer arwyddocâd coffau. Mae eraill yn gysylltiedig â phobl a digwyddiadau hanesyddol bwysig. Adeiladwyd Eglwys Undodaidd Todmorden restredig Gradd I gan feibion John Fielden AS, perchennog melin a radical a fu'n gyfrifol am 'Ddeddf Deg Awr' 1847, a gyfyngodd ar oriau gwaith menywod a phlant.

Bu i'r pandemig ddinistrio incwm HCT ac nid yw bellach yn gallu gofalu am y capeli. Gyda £3.689miliwn gan Gronfa Ymateb COVID-19 CGDG, bydd HCT yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cadwraeth Eglwysi a Historic England i atgyweirio'r wyth capel rhestredig hyn sydd mewn perygl gan eu galluogi i gael eu trosglwyddo i berchnogion hirdymor addas.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am brif amcanion a strategaethau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (CGDG neu'r Gronfa). Mae'r adran drosolwg yn rhoi gwybodaeth i'r defnyddiwr am ddibenion a gweithgareddau'r sefydliad, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut y mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn. Yn yr adran dadansoddiad mae'r Bwrdd yn adrodd ar ei fesurau perfformiad pwysicaf, gan gynnwys dadansoddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth ariannol o'r datganiadau ariannol.

Ein perfformiad yn 2022–2023: Datganiad gan y Prif Weithredwr

Roedd hon yn flwyddyn pan oedd arwyddocâd ac effaith treftadaeth yn parhau i gael eu gwerthfawrogi ar draws pob rhan o'r DU, hyd yn oed wrth iddi ddal i gael ei heffeithio gan ôl-ffeithiau'r pandemig COVID-19 a wynebu treialon newydd. Ac unwaith eto, yn ei rôl o ddiogelu treftadaeth bwysicaf y DU, cydiodd CGDG yn yr her.

Ariannu CGDG

Yn 2022–2023 diogelodd cefnogaeth CGDG efallai un o'r grwpiau mwyaf amrywiol o dderbynyddion a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Bu i ni ddyfarnu grantiau i eitemau treftadaeth sy'n cynrychioli rhychwant eang o ddiwylliant, gan eu hychwanegu at y casgliad o'r radd flaenaf sy'n perthyn i bobl y Deyrnas Unedig am byth.

Y grant mwyaf arwyddocaol a gafodd ei asesu – ond nid ei ddyfarnu – eleni oedd yr un i'r Oriol Bortreadau Genedlaethol i gaffael y Portread o Mai (Omai) y gohiriwyd ei allforiad, mewn partneriaeth ag Amgueddfa Getty. Roedd CGDG yn gallu cefnogi'r caffaeliad partneriaeth arloesol hwn gan wybod y byddai'n sicrhau mynediad ar gyfer cyhoedd y DU at baentiad a fyddai fel arall yn cael ei golli. Mae'r Oriol Bortreadau Genedlaethol wedi ymrwymo i rannu'r paentiad trwy fenthyciadau gyda phartneriaid yn y DU. Byddwn yn cynnwys manylion llawn y caffaeliad pwysig hwn yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Mae'r eitemau a gefnogwyd eleni yn dangos y gwerth unigryw y mae CGDG yn ei roi i dreftadaeth y genedl ac yn cynnwys:

- Celc Swydd Henffordd
- Portread Two Ladies
- RRS Discovery

- Archif John Galsworthy
- Hunangofiannau Caroline Herschel
- Casgliad Beiciau Modur Gogledd Iwerddon

Y Gronfa Ymateb COVID-19

Yn 2022–2023 gwnaethom barhau i ddarparu'r Gronfa Ymateb COVID-19, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2021 i gefnogi a diogelu ystod amrywiol o dreftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a roddwyd mewn perygl o ganlyniad i effaith y pandemig.

Bu i ni gwblhau cyflwyno grantiau a ariannwyd gan Gronfa Asedau Diwylliannol (CAD) DCMS i brosiectau yn Lloegr, gan gynnwys:

- dros £3.6 miliwn i Historic Chapels Trust ar gyfer atgyweiriadau brys i wyth capel hanesyddol fel y gall yr Ymddiriedolaeth eu trosglwyddo i berchnogion hirdymor addas
- £500,000 i Gastell Hurst, er mwyn i English Heritage gynnal arolygon adeileddol brys i sefydlogi'r castell
- dros £400,000 i Felinau Powdwr Gwn Brenhinol Waltham Abbey ar gyfer atgyweiriadau brys i ddiogelu'r melin corffori powdwr gwn ac ailgychwyn mynediad i'r cyhoedd

Gwnaethom hefyd ddechrau dyfarnu grantiau ar draws y DU gan ddefnyddio cyfraniad CGDG ei hun at y Gronfa Ymateb COVID-19, gan gynnwys:

- £1.8 miliwn i Tall Ship Glenlee i daclo'r ôl-groniad cynnal a chadw fel y gall barhau i groesawu ymwelwyr ar Afon Clud
- Grant o ychydig dros £75,000 i amddiffyn bythynnod glowyr hanesyddol rhag y tywydd er mwyn i Amgueddfa Mwyngloddio Plwm Wanlockhead barhau i adrodd hanes mwyngloddio plwm yn y Lleoliad anghysbell hwn

Mae ystod a natur y dyfarniadau hyn yn adlewyrchu gallu unigryw CGDG i ddiogelu treftadaeth eithriadol ar ei ffurfiau amrywiol.

Wrth flaenoriaethu ceisiadau i'r CAD, rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth partneriaeth Historic England, Arts Council England a'r Archifau Cenedlaethol. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Historic Environment Scotland a Museums Galleries Scotland am eu cefnogaeth a'u cyngor ar y grantiau a wnaed o'r Gronfa Ymateb COVID-19 yn Yr Alban ac i Cadw am eu cymorth a'u cyngor ar geisiadau yng Nghymru. Mae eu harbenigedd wedi helpu i sicrhau bod yr arian hwn yn diogelu'r asedau cenedlaethol pwysig hynny sydd mewn perygl oherwydd effeithiau'r pandemig.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Eleni fe wnaethom gwblhau ymrwymo'r grantiau CAD yn Lloegr. Byddwn yn gwneud y dyfarniadau terfynol ar gyfer y Gronfa Ymateb COVID-19 DU gyfan yn ystod 2023–2024.

Arian ychwanegol ar gyfer treftadaeth

Mae ein partneriaeth â Llywodraeth Cymru wedi parhau i dyfu. CGDG yw'r partner a ffafirir ar gyfer nifer o raglenni tair blynedd ar draws Rhaglen Lywodraethu bresennol Llywodraeth Cymru, gan ailagor rhaglenni arddangos (gan gynnwys Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, Chwalu Rhwystrau a Rhwydweithiau Natur) a lansio rhaglenni newydd (Y Grant Buddsoddiad Coetiroedd). Bu i ni ddyfarnu bron i £14miliwn eleni yng Nghymru, yn ogystal ag edrych ymlaen at rowndiau grant ychwanegol yn 2023–2024 a 2024–2025.

Hefyd, bu i ni ddyfarnu £550,000 i Historic England ar gyfer gweithgareddau newydd ar gyfer y Parthau Gweithredu Treftadaeth Stryd Fawr bresennol sy'n taclo unigrwydd ac yn creu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â strydoedd mawr lleol fel rhan o Raglen Know Your Neighbourhood DCMS. Gwnaethom hefyd ddyfarnu ymchwydd cymedrol mewn grantiau i brosiectau fel rhan o'r Rhaglen Covid Recovery Employment and Skills Initiative for Heritage yng Ngogledd Iwerddon, a gyflwynwyd ar ran yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC). Mae gennym wyth rhaglen cymorth grant yn y cam monitro gweithredol, lle mae grantiau wedi'u dyfarnu ac mae prosiectau'n mynd rhagddynt. Bu i ni gau saith rhaglen eleni a fu'n cwmpasu ystod o raglenni ymateb COVID-19 yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys Cronfa Adfer Diwylliant DCMS.

Yn olaf, adleisiaf diolchiadau ein Cadeirydd i'n holl staff CGDG am eu gwaith caled, eu cyfanrwydd, eu proffesiynoldeb a'u hymrwymiad, ac am ddarparu gwasanaeth eithriadol mewn blwyddyn heriol. Yn yr un modd, ymunaf ag ef wrth gydnabod aelodau panel CGDG sy'n cynghori ac yn cefnogi dosbarthiad arian CGDG i sicrhau'r budd mwyaf i dreftadaeth. Roedd eu gwybodaeth fanwl a'u rhychwant arbenigedd eang yn hanfodol wrth helpu ni i wneud penderfyniadau anodd i gyfeirio ein hariannu lle mae ei angen fwyaf.

Ein diben a gweithgareddau

Mae CGDG wedi'i breinio a'i gweinyddu gan gorff corfforaethol y mai ei enw yw Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Cadeirydd a dim mwy na 14 o aelodau eraill a benodir gan y Prif Weinidog. Sefydlwyd y Gronfa ar 1 Ebrill 1980 gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ('Deddf 1980') mewn olyniaeth i'r Gronfa Tir

Genedlaethol, fel coffâd i'r rheiny sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU. Mae'n derbyn cymorth grant blynyddol gan lywodraeth y DU i'w galluogi i ddyfarnu grantiau. Cafodd pwerau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr eu hymestyn gan ddarpariaethau Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ('Deddf 1993'), Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1997 ('Deddf 1997') a Deddf y Loteri Genedlaethol 1998.

O dan Ddeddf 1993, daeth yr ymddiriedolwyr yn gyfrifol hefyd am ddsbarthu'r gyfran honno o enillion y Loteri Genedlaethol a ddyrannir i dreftadaeth. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr CGDG baratoi cyfrifon ar wahân ar gyfer derbyn a dyrannu cymorth grant ac ar gyfer eu gweithrediad fel dosbarthwyr arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis cyfeirio at y cyllid fel CGDG ar gyfer symiau a ddyrannwyd o dan ddarpariaethau Deddf 1980 ac fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (y Gronfa Treftadaeth) ar gyfer cyllid a dderbynnir o dan ddarpariaethau Deddf 1993.

O dan adrannau 3 a 3a Deddf 1980, gall ymddiriedolwyr wneud grantiau a benthyciadau at ddiben caffael, cynnal neu ddiogelu:

1. unrhyw dir, adeilad neu adeiledd sydd, ym marn yr ymddiriedolwyr, o ddiddordeb golygfaol, hanesyddol, esthetig, pensaernïol, archeolegol neu wyddonol eithriadol
2. unrhyw wrthrych sydd, yn eu barn hwy, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol
3. unrhyw gasgliad neu grŵp o wrthrychau, sef casgliad neu grŵp sydd, yn ei gyfanrwydd, o ddiddordeb hanesyddol, artistig neu wyddonol eithriadol yn eu barn hwy

Mae adran 4 Deddf 1980 (fel y'i diwygiwyd) yn ymestyn pwerau'r ymddiriedolwyr i wella arddangosiad eitemau o ddiddordeb eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol drwy roi cymorth ariannol i adeiladu, trawsnewid neu wella unrhyw adeilad er mwyn darparu cyfleusterau a ddylunnir i hyrwyddo mwynhad y cyhoedd neu ddatblygu gwybodaeth y cyhoedd.

O dan Ddeddf 1980, gall yr ymddiriedolwyr bellach gynorthwyo hefyd â phrosiectau a anelir at gynyddu dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd o'r dreftadaeth ac at ddehongli a chofnodi agweddau pwysig ar hanes, hanes naturiol a thirwedd y genedl. Mae'r Ymddiriedolwyr yn defnyddio'r pwerau estynedig hyn yng nghyswllt Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cred yr Ymddiriedolwyr fod gan CGDG rôl hanfodol fel

rhagfur canolog wrth amddiffyn eitemau o bwysigrwydd eithriadol i'r genedl sydd mewn perygl, ac er cof am y rhai sydd wedi rhoi eu bywydau dros y DU. Bydd yr ymddiriedolwyr yn parhau i ddefnyddio'r adnoddau a ddarperir gan lywodraeth y DU, yn ogystal ag adnoddau o'i gronfa waddol, i gynnig cefnogaeth ariannol fel cronfa cyfle olaf ar gyfer caffael, diogelu a chynnal a chadw treftadaeth sydd mewn perygl o gael ei dinistrio neu ei cholli.

Ein risgiau allweddol

Mae ein gweithgareddau dosbarthu Trysorlys/cymorth grant wedi wynebu nifer o risgiau trwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi rheoli'r rhain yn weithredol ac yn effeithiol i isafu'r effaith ar ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn ogystal ag arnom ni ein hunain.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y risgiau a wynebir gan y sefydliad mewn cyfarfodydd Bwrdd a thrwy'r gwaith craffu manwl a ddarperir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

1. Risgiau allanol

Mae'r risgiau allweddol yma wedi canolbwyntio ar ein gallu parhaus i ddarparu'r rhaglenni cymorth grant gan lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol y flwyddyn.

Fe wnaethom adeiladu ar ein hymatebion y llynedd ac rydym hefyd wedi rheoli'r risgiau sydd ynghlwm wrth y rhain drwy ail-neilltuo capasiti staff o'n gwaith Loteri Genedlaethol, ôl-lenwi'r rolau hyn, dod â staff ychwanegol i mewn ar gontractau tymor byr ynghyd ag arbenigedd allanol ychwanegol i gefnogi'r rhaglenni.

2. Risgiau mewnol

Yn 2021–2022, canolbwyntiodd risgiau mewnol ar gynllunio parhad busnes oherwydd y pandemig COVID-19.

Eleni roedd llai o risgiau parhad busnes wrth i'r Gronfa symud i batrymau gwaith hybrid yn sgil y pandemig. Er hynny, roedd ein staff yn dal i addasu i'r dull newydd hwn. O ganlyniad i hyn, rydym wedi parhau i gefnogi staff mewn perthynas â'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u lles.

Parhaodd adnoddau staff, yn enwedig recriwtio staff, i fod yn her yn y farchnad gyflogaeth ôl-bandemig fyrlymus a hefyd o ran y cyfyngiadau ar gyflogau yng nyfarniadau tâl blynyddol y sector cyhoeddus o'i gymharu â'r sector preifat. Er mwyn lliniaru'r risg hon, mae'r Gronfa'n chwilio'n weithredol am ffyrdd i gynyddu ein cynnig gwerth i gyflogaion.

Rydym hefyd yn cydnabod y risg o dwyll mewnol ac

allanol mewn perthynas â gwneud grantiau. Er mwyn lliniaru'r risg anogir pob aelod o staff i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant a roddir gan DCMS. Mae ein timau buddsoddi a'n swyddogion yn effro i dwyll a byddant yn tynnu sylw at unrhyw risgiau o dwyll ar brosiectau pan fyddant yn codi, gan helpu i liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â grantiau a ddyfernir.

3. Prif risgiau eraill

Bu i ni barhau i ymateb i'r risg sy'n deillio o'r argyfwng hinsawdd. Rydym wedi sicrhau bod ein hól troed carbon, arferion mewnol a'n rheolaeth yn adlewyrchu rheolaeth well o'r risg hon ac erbyn hyn mae gennym gynllun i'r Gronfa gyrraedd Sero Net Carbon yn ei gweithrediadau erbyn 2030.

Yn 2022–2023 bu i ni barhau i ddatblygu ein system rheoli buddsoddiadau newydd a datgomisiynu ein system rheoli grantiau etifeddol ym mis Mawrth 2023. Rydym wedi rheoli risg datblygu'r system newydd yn weithredol trwy brofi'n gynhwysfawr gyda chwsmeriaid, defnyddwyr mewnol, rheoli cyflenwyr a datblygwyr ac wedi cynnal mesurau rheoli cyfanrwydd, diogeledd a chadernid data'n effeithiol. Bu'r gwaith hwn yn flaenoriaeth allweddol i'r sefydliad a bydd yn parhau i fod yn 2023–2024 wrth i ni symud ymlaen at gam nesaf y prosiect. Mae hyn yn cynnwys adolygiad beirniadol o'n prosesau presennol a sut y gellir eu symleiddio a'u gwella yn y system rheoli buddsoddiadau newydd.

Gwnaethom barhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i bob risg drwy gydol y flwyddyn a sicrhau ein bod yn eu rheoli'n effeithiol ar bob lefel ar draws y Gronfa.

Busnes gweithredol

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol. Mae hyn oherwydd bod:

1. asedau'n sylweddol uwch na rhwymedigaethau ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol
2. yr ymddiriedolwyr wedi pennu cyllideb dyfarnu grantiau ar gyfer 2023–2024 na ddisgwylir y bydd yn newid y sefyllfa honno

Nid oes gan yr Ymddiriedolwyr unrhyw reswm dros gredu na fydd eu prif ffynhonnell incwm – cymorth grant – yn parhau i gael ei derbyn. Gan hynny, nid oes gan y Bwrdd unrhyw reswm dros gredu na fydd CGDG yn parhau i weithredu hyd y gellir rhagweld.

Crynodeb o berfformiad

Mae graddfa ein gwaith yn golygu bod gennym nifer cyfyngedig o ddangosyddion perfformiad. Dangosir y rhain yn adran yr adroddiad hwn ar ddangosyddion perfformiad ar dudalennau 36 a 37.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn 2022–2023, ein gwariant grant net yn y flwyddyn oedd £21.3miliwn. Ni wnaethom dynnu unrhyw arian cymorth grant i lawr gan DCMS yn ystod y flwyddyn gan i ni ddal balansau arian dros ben eisoes o dynnu arian i lawr mewn blynyddoedd blaenorol (gweler nodyn 5 yn adran y cyfrifon).

Rhaglenni cymorth grant

Bu i ni ddsbarthu arian ar ran ein hadran noddi DCMS, ac ar ran Defra, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Y rhaglenni oedd:

Teitl y Rhaglen	Nodau'r rhaglen	Cronfa wedi'i rheoli ar ran	Swm a ddyfarnwyd	Gwybodaeth ddyfarnu
Covid Recovery Employment and Skills Initiative	Rhaglen tair blynedd i gefnogi swyddi newydd yn y sector treftadaeth.	Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon	£47,960	Symiau grant ychwanegol i grantion presennol i dalu am gynnydd mewn costau byw.
Cronfa Rhwydweithiau Natur	Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, sy'n rhan o Raglen Rhwydweithiau Natur ehangach Llywodraeth Cymru, yn ceisio gwella cyflwr a chydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd morol a thir gwarchoddedig.	Llywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol	£240,754	Symiau grant ychwanegol a ddyfarnwyd i ymgeiswyr Rownd 1 i dalu am gynnydd mewn costau.
Cronfa Rhwydweithiau Natur Rownd 2	Fel uchod	Llywodraeth Cymru	£3,779,982 wedi'i ddyfarnu Rhagfyr 2022 £7,009,593 wedi'i ddyfarnu Chwefror 2023	£874,294 o arian cyfatebol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Grantiau wedi'u dyfarnu i 17 o brosiectau maint canolig dwy flynedd a naw prosiect mawr tair blynedd.
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cronfa Gyfalaf	Rhaglen sydd â'r nod o alluogi ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd, cymunedau lled-drefol/trefol, a/neu'r rhai sydd â'r mynediad lleiaf at natur yng Nghymru i adfer a gwella natur 'ar garreg eich drws'.	Llywodraeth Cymru	£940,000	Grantiau wedi'u dyfarnu i naw prosiect. Ariannwyd 15% o bob grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cronfa Refeniw – Goresgyn Rhwystrau	Rhaglen sydd â'r nod o gefnogi cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio rhag byd natur i nodi a rhwystrau i gymryd rhan ym myd natur a mynd i'r afael â nhw.	Llywodraeth Cymru	£366,000	Grantiau wedi'u dyfarnu i chwe phrosiect.
Y Grant Buddsoddiad Coetiroedd	Rhaglen sydd â'r nod o greu, adfer a gwella coetiroedd yng Nghymru, fel rhan o Fenter Coedwigoedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.	Llywodraeth Cymru	£1,740,000	Grantiau wedi'u dyfarnu i naw prosiect ar draws dwy rownd o'r rhaglen. Cyfrannodd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol 15% o'r gronfa grantiau.
High Street Heritage Action Zone – Rhaglen Ddiwylliannol		Historic England	£3,000,000	
High Street Heritage Action Zone – Estyniad o'r Rhaglen Ddiwylliannol		Historic England	£550,000	

Dadansoddiad o berfformiad

Mae CGDG yn gweithredu dwy gronfa: ei chronfa cymorth grant wreiddiol (CGDG) a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol (Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol). Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS, mae'n ofynnol iddi gyfrif am y gweithgareddau hyn ar wahân ac felly ni pharatoir cyfrifon cyfunol. Mae'r adroddiad hwn yn trafod gwaith cymorth grant CGDG yn unig.

Diben yr adran hon yw trafod perfformiad CGDG wrth ddsbarthu arian sy'n deillio o DCMS a chyrrff llywodraethol eraill yn 2022–2023. Mae'r dadansoddiad isod yn trafod uchafbwyntiau'r flwyddyn gan gynnwys symudiad sylweddol ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr Net a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn ogystal ag ar rai dangosyddion perfformiad allweddol.

Gwnaeth CGDG ddyfarniadau i 12 o brosiectau eleni, y cefnogwyd eu ceisiadau gan ymddiriedolwyr, gwerth cyfanswm o £3,076,028, wedi'i ddyfarnu ar draws amrywiaeth o dreftadaeth sy'n rhychwantu'r DU gyfan.

Gall CGDG, a sefydlwyd fel coffâd parhaol i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau mewn rhyfeloedd dros y wlad hon, helpu i ariannu eitemau o bwys eithriadol i'r dreftadaeth genedlaethol sydd mewn perygl o gael ei golli neu â chymeriad coffadwriaethol. Ond nid yw pob cais i'r Gronfa'n cyrraedd y safon uchel hon o bwysigrwydd. Felly, mae panel CGDG yn cynorthwyo

wrth flaenoriaethu ceisiadau cynnar am ariannu. Mae'r achosion blaenoriaeth uchaf yn parhau i wneud ceisiadau.

Fel y nodwyd, cais yr Oriel Bortreadau Genedlaethol am arian CGDG i gefnogi caffael Portread o Fai oedd y mwyaf arwyddocaol i'w ystyried yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd yr Adroddiad Blynnyddol ar gyfer 2023–2024 yn disgrifio'r caffaeliad yn fanwl.

Yn ogystal, eleni cefnogodd CGDG nifer o gaffaeliadau archifol sylweddol (William a Mary Buckland, Caroline Herschel a John Galsworthy) a darparodd gymorth grant i gaffael eitemau treftadaeth o bwysigrwydd cenedlaethol yr oedd eu hallforiad wedi'i ohirio dros dro yn achos y portread Two Ladies a'r Llawysgrif Liwt.

Rydym yn cefnogi caffael gweithiau celf o bwysigrwydd cenedlaethol lle cynigir eitemau o dan y cynllun Derbyn yn Lle, a ddigwyddodd eleni gyda thirlun Jacob van Ruisdael ar gyfer Amgueddfa Castell Norwich.

Mae CGDG hefyd yn ffynhonnell cymorth ar gyfer eitemau a gafwyd drwy'r broses Deddf Trysor, gan alluogi caffaeliad Celc Swydd Henffordd eithriadol o Oes y Llychlynwyr eleni.

Rydym yn darparu cefnogaeth ar gyfer gwrthrychau a chasgliadau amgueddfa prin ac unigryw, gan gynnwys y caffaeliad eleni o Ddeial Ilay-Glynne a fydd yn trawsnewid dehongliad Amgueddfa Genedlaethol Yr Alban o Oleuedigaeth yr Alban.

Caffaeliad/Prosiect	Ymgeisydd	Dyfarwyd
Gwaith cadwraeth brys ar RRS Discovery	Dundee Industrial Heritage Ltd.	£1,000,000
Celc Swydd Henffordd	Gwasanaeth Amgueddfa Swydd Henffordd	£456,250
Caffael y portread Two Ladies, 1650au	Compton Verney	£154,600
Archif William and Mary Buckland – palaeontolegwyr blaengar	Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen	£224,450
Caffael y llawysgrif liwt ca.1620, o gasgliad Arnold Dolmetsch	Prifysgol Caeredin	£73,100
'Tirwedd Panoramig gyda Chaeau Ŷd a Thwyni wrth ymyl y Môr' gan Jacob van Ruisdael (1628/9–1682)	Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk	£122,628
Model o HMS Victory – model o gorff llawn y llong cyfoes tua 1800	Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol	£247,000
Caffael llawysgrifen cofiannau Caroline Herschel	Ymddiriedolaeth Herschel House	£33,000
Caffael archif yr awdur a'r dramodydd, John Galsworthy	Y Llyfrgell Brydeinig	£150,000
Caffael grŵp medalau Arthur Scarf VC	Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol	£390,000
Casgliad Beiciau Modur Rasio Gogledd Iwerddon	Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon	£90,000
Deial Ilay-Glynne	Amgueddfeydd Cenedlaethol Yr Alban	£135,000
Cyfanswm y grantiau safonol a ddyfarwyd		£3,076,028

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Bu i'n grant i Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon alluogi caffael casgliad beiciau modur rasio ar gyfer Amgueddfa Drafnidiaeth Ulster. Fe wnaethom gefnogi caffael model ar raddfa o HMS Victory y bydd Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol yn ei ddefnyddio i helpu i roi cyd-destun i Frwydr Trafalgar. Oherwydd eu cymeriad coffa cryf, bu i ni hefyd gefnogi Amgueddfa Frenhinol y Llu Awyr Brenhinol i gaffael grŵp medalau Arthur Scarf VC, yr oedd ei allforiad wedi'i ohirio; a bu i ni ariannu cynnydd grant ar gyfer atgyweiriadau brys i Royal Research Ship Discovery.

Fel y nodwyd yn gynharach, parhaodd CGDG i gyflwyno Cronfa Ymateb COVID-19 CGDG gwerth £40miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a fu'n cynnwys y Gronfa Asedau Diwylliannol gwerth £20miliwn a ddyrannwyd gan lywodraeth y DU, ochr yn ochr â dyraniad CGDG ei hun o £20miliwn. Mae pum dyfarniad wedi'i wneud yn Lloegr, gan ymrwymo'r Gronfa Asedau Diwylliannol yn llawn, gyda thri dyfarniad DU gyfan. Bydd y gronfa DU gyfan yn parhau i gael ei chyflwyno tan ddiwedd mis Mehefin 2023.

Bydd Cronfa Ymateb COVID-19 CGDG yn cefnogi atgyweiriadau brys i starn y dreillong bysgota Vigilance ac arolygon hanfodol ar Gastell Hurst yn Hampshire. Gellir adfer mynediad cyhoeddus i felin hynaf Melinau Powdwr Gwn Waltham Abbey am fod cefnogaeth wedi galluogi gwaith atgyweirio brys. Mae dyfarniad i Amgueddfa Sidan Macclesfield wedi diogelu ei chasgliad o wyddiau sidan gwreiddiol. Bydd grant sylweddol i wyth capel rhestredig hanesyddol ar y Gofrestr Treftadaeth Mewn Perygl yn eu galluogi i drosglwyddo i berchnogion hirdymor.

Yn y dyfarniadau DU gyfan cyntaf o'r gronfa hon, fe wnaethom gefnogi tri phrosiect yn Yr Alban. Bydd gwaith atgyweirio hanfodol yn diogelu bythynnod yn Amgueddfa Mwyngloddio Plwm Wanlockhead a'r llong hwylio Glenlee a adeiladwyd ar Afon Clud. Fe wnaethom helpu Scottish Railway Preservation Society i gwblhau'r gwaith o adfer y locomotif 'Morayshire', er mwyn sicrhau ei fod yn dychwelyd i gyflwr gweithredol.

Dangosir rhestr o grantiau safonol ar dudalen 35. Cyfanswm y grantiau safonol a ddyfarnwyd oedd ychydig dros £3miliwn. At hynny, fe wnaethom ddyfarniadau gwerth £21miliwn fel rhan o raglenni argyfwng a rhaglenni eraill amrywiol ar ran arianwyr eraill, fel a ganlyn:

	Dyfarnwyd (cyn dad-ymrwymadau)
Gweithgarwch Safonol y Gronfa Goffa	£3,076,028
Ymateb COVID-19 CGDG	£3,386,311
Cronfa Asedau Diwylliannol	£4,381,781
Rhaglenni amrywiol ar ran Llywodraeth Cymru	£12,802,701
Rhaglen Adferiad COVID-19 Gogledd Iwerddon	£47,960
Cronfa HAZ Know Your Neighbourhood	£550,000
Cyfanswm	£24,244,781

Perfformiad ariannol

Yn gyffredinol, gostyngodd y balans ar ein cyfrif incwm a gwariant £22.3miliwn gan i ni beidio â thynnu unrhyw gymorth grant i lawr yn ystod y flwyddyn am ein bod eisoes â balansau arian parod yn weddill o'r flwyddyn flaenorol (gweler nodyn 5 yr adran gyfrifon). Mae gan CGDG rwymedigaethau grant dros ben o £58.6m ar 31 Mawrth 2023 (gweler nodyn 3 yr adran gyfrifon). Yn gyntaf, bydd y rhain yn defnyddio'r balans arian parod a chyfwerth ag arian parod a ddelir o £48.0m (gweler nodyn 16 yr adran gyfrifon) cyn tynnu rhagor i lawr o DCMS wedi hynny yn 2023–2024 ac yn y blynyddoedd i ddod i fodloni'r ymrwymadau grant sy'n weddill.

Roedd yr adeniliad ar y gwaddol yn 2022–2023 yn ostyngiad o 2.3%. Bu cynnydd o 9.2% y llynedd wrth i farchnadoedd adfer ar ôl COVID-19, fodd bynnag, bu dirywiad yn 2022–2023 oherwydd pwysau economaidd a ysgogwyd gan yr ymchwydd mewn prisiau ynni ac effaith y rhyfel yn Wcrain.

Gostyngodd ein costau gweithredu o £5.4miliwn i £2.7miliwn. Mae hyn o ganlyniad i gau'r rhaglenni cymorth grant gan gynnwys y rhaglenni brys.

Ein hincwm nad yw'n ymwneud â gweithredu, oedd £0.5miliwn (£0.0m yn 2021–2022).

Gostyngodd gwerth buddsoddiadau yn y gronfa waddol o £53.0miliwn i £46.3miliwn. O ganlyniad i dynnu rhai unedau allan mewn arian parod, £27.6miliwn oedd yr arian parod a ddalwyd ar ddiwedd y flwyddyn (£21.6miliwn yn 2021–2022).

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y dylai CGDG anelu at berfformiad uchel yn ei gweithgareddau. I'r perwyl hwn mae gennym ddau ddangosydd perfformiad. Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud â'r agweddau mwyaf arwyddocaol ar wasanaeth cwsmeriaid: cyflymder prosesu cais am grant a chyflymder talu cais am daliad grant.

Dangosyddion perfformiad allweddol fesul blwyddyn

	Targed	2022–23	2021–22	2020–21	2019–20	2018–19	2017–18
Amserau prosesu ceisiadau (misoedd)							
– ceisiadau brys	3	1.4	1.3	0.7	1.2	0.6	1.2
– ceisiadau nad ydynt ar frys	6	2.2	1.9	Gweler nodyn 1	2.6	0.7	2.3
Talu grantiau (nifer y diwrnodau gwaith ar ôl cais am daliad)							
– grantiau safonol	15	9	13	21	12	11	8

Nodyn 1: Nid oedd unrhyw geisiadau nad oeddent yn rhai brys yn 2020–2021. Ni osodwyd targedau ar gyfer cyflymder prosesu rhaglenni brys ac felly nid ydym wedi adrodd arnynt. Dim ond un neu ddau o ddyddiadau penderfynu oedd gan y rhan fwyaf o raglenni brys ac felly roedd prosesu wedi'i anelu at ddod â cheisiadau at y cyfarfodydd gwneud penderfyniadau hynny.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

		2022–23	2021–22	2020–21
Allyriadau nwyon tŷ gwydr	Allyriadau Cwmpas 1 (tCO ₂ e)	2	26	14
	Allyriadau Cwmpas 2 (tCO ₂ e)	33	44	36
	Allyriadau Cwmpas 3 (tCO ₂ e)	94	70	6
	Cyfanswm allyriadau gros (tCO₂e)	129	140	56
Defnydd o ynni a dŵr	Trydan (kWh)	169,109	207,051	58,301
	– o ffynonellau adnewyddadwy (kWh)	19,211	27,777	
	– o ffynonellau anadnewyddadwy (kWh)	149,898	179,274	
	Nwy (kWh)	13,588	140,457	76,429
	Dŵr (m ³)	436	1,530	2,434
Gwariant (£'000)	Cyfleustodau (gan gynnwys taliadau gwasanaeth)	624	329	279
	Teithio busnes (gan gynnwys llety)	422	172	2

Isafu a rheoli gwastraff

		2022–23	2021–22	2020–21
Gwastraff (tunelli)	Peryglus (gan gynnwys WEEE*)	0.001	0	0.3
	Tirlenwi	0	0	0
	Ynni o wastraff	1.92	0.77	1.4
	Ailgylchu cymysg	1.15	0.43	0.3
	Cyfanswm gwastraff	3.25	1.20	2
Gwariant ar wastraff (£'000)	Cyfanswm gwastraff (gan gynnwys glanhau yn 2020–21)	wedi'i gynnwys mewn cyfleustodau	26	19

* WEEE = cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff

Defnydd meidraidd o adnoddau

		2022–23	2021–22	2020–21
Adnoddau meidraidd	Dŵr (m ³)	436	1,530	2,434
	Defnydd o bapur (taflenni)	33,340	6,930	0
	Defnydd o bapur (tCO ₂ e)	3.5	0.73	0

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Symiau taladwy

Mae CGDG yn glynu wrth y safon llywodraeth-gyfan ar dalu biliau a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n nodi y dylid talu pob bil dilys o fewn 30 niwrnod. Talwyd dros 91% o anfonebau o fewn 30 niwrnod calendr (2021–2022: 93%).

Ffordd arall o fesur ein hymrwymiad i dalu cyflenwyr yw'r gymhareb dyddiau credydwr: cymhareb y symiau taladwy masnachol ar ddiwedd y flwyddyn i gyfanswm gwerth y pwrasiadau yn y flwyddyn wedi'i mynegi yn nhermau diwrnodau calendr. Ar 31 Mawrth 2023, y ffigur oedd 38 diwrnod (2021–2022: 35 diwrnod).

Polisiâu amgylcheddol ac adrodd am gynladwyedd

Eleni fe wnaethom gyhoeddi cynllun datgarboneiddio hyd at 2030 a thargedau cysylltiedig ar gyfer lleihau. Bu i ni gyflawni'n dda yn erbyn ein targedau.

Yn ogystal â'n hymrwymiad sero net erbyn 2030 i'n gweithrediadau, bu i ni ymrwymo i leihau effaith carbon ein buddsoddiadau erbyn 2050.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Eleni cwblhawyd y gwaith o symud o ofodau swyddfa seiliedig ar les a gweithredu traddodiadol i swyddfeydd o fewn gofodau a reolir, y mae'r mwyafrif ohonynt o dan gytundebau swyddfa â gwasanaeth. O ganlyniad i hyn bu'n bosib i ni resymoli ôl troed ein swyddfeydd i weddu i anghenion y sefydliad, gan ostwng ein hardal gofod gwaith o 1,550m² i 843 m². Yn fwyaf arwyddocaol, bu i ni symud o'n prif swyddfa 721m² yn Llundain i swyddfa a rennir â chyfanswm o 91m². Mae'n ein galluogi i ddefnyddio'r adeilad yn fwy effeithlon gyda chyfleusterau a rennir fel ceginau ac ystafelloedd cyfarfod. Fodd bynnag, mae'n gosod her o ran adrodd am gyfleustodau a'u costau cysylltiedig. Gan mwyaf, bu'n bosib i landlordiaid ddarparu defnydd nwy a thrydan dosranedig. Pan nad yw'r data ar gael yn Nottingham, Manceinion, Newcastle a Chaeredin, rydym wedi defnyddio data EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni) fel dirprwyon, yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Mae symudiadau o'r swyddfeydd hyn yn Nottingham a Llundain wedi cael effaith gadarnhaol ar ein defnydd o nwy. Yn 2021–2022, roedd y ddwy swyddfa hyn yn cyfrif am 91% o'n defnydd o nwy, sydd wedi'i adlewyrchu yn y gostyngiad a ddangosir. Bellach dim ond dau ofod swyddfa sydd gennym yn defnyddio nwy ar gyfer gwresogi, a bydd hyn yn cael ei adolygu pan fydd amser i'r trwyddedau gael eu hadnewyddu.

Bu i gostau swyddfeydd Llundain a Nottingham orgyffwrdd yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gynnydd yng nghyfanswm y costau. Mae'r gwariant a

ddarperir yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg a rheoli'r gofod swyddfa gan nad yw'n bosib gwahanu'r rhain.

Ni wnaethom gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithio gartref yn ein hadroddiad am fod y rhain y tu hwnt i gwmpas y canllawiau adrodd ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol, er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Ar yr un pryd, rydym yn monitro defnydd trydan amcangyfrifedig dyfeisiau gan mai hyn sydd fwyaf tebygol o gyfrannu'n ychwanegol at effaith amgylcheddol gweithio gartref, a byddwn yn defnyddio'r data hwnnw i gyfeirio caffael yn y dyfodol.

Isafu a rheoli gwastraff

a defnyddio adnoddau meidraidd

Cynyddodd ein gwastraff eleni wrth i staff ddychwelyd i swyddfeydd, fodd bynnag, mae hyn yn dal yn isel iawn o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig. Yn yr un modd, er bod y defnydd o bapur wedi codi, mae'n chwarter y gyfradd ddefnydd a gofnodwyd yn 2019–2020.

Bu i ni barhau i redeg Cynllun Effaith Werdd ar draws y sefydliad sydd, ymhlith meysydd eraill, yn canolbwyntio'n allweddol ar isafu a gostwng gwastraff plastigau untro, gan gydnabod bod lleihau gwastraff yn ddibynol ar newid diwylliant ac ymddygiad ein staff.

Fe wnaethom ddargyfeirio tua 255kg o nwyddau trydan gwastraff o safleoedd tirlenwi a chynhyrchu £24,000 mewn refeniw trwy werthu ein hen ddyfeisiau i drydydd parti a wnaeth dynnu'r data ohonynt yn ddiogel a'u hailwampio i'w hailwerthu fel y gellir parhau i'w defnyddio.

Mae symud o'n swyddfa yn Llundain wedi lleihau ein defnydd o ddŵr yn sylweddol. Yn 2021–2022 roedd ein swyddfa yn Llundain yn cyfrif am 71% o gyfanswm ein defnydd o ddŵr. Lle mae darlleniadau dŵr wedi'u dosrannu ar gael rydym wedi'u cynnwys. Ar gyfer pob swyddfa arall rydym wedi rhagdybio cyfradd defnyddio o 0.5m³ fesul m² o ofod swyddfa a rentir. Mae costau dŵr wedi'u hymgorffori yng nghyfanswm y taliadau cyfleustodau a ddarperir ar dudalen 37.

Cynllunio gweithredu adferiad natur a bioamrywiaeth

Ein heffaith fwyaf ar fyd natur yw trwy ein gwaith ehangach o roi grantiau'r Loteri Genedlaethol. Yn 2022–2023 fe wnaethom ddsbarthu £32.5miliwn i dir a natur trwy ein cymorth grant a'n Rhaglenni Agored. Er enghraifft, drwy Rownd 2 y Gronfa Green Recovery Challenge dyfarnwyd £876,600 i Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir. Roedd hyn yn

cefnogi menter Flourishing Floodplains uchelgeisiol, gan weithio gyda dros 50 o ffermwyr a thirfeddianwyr ar adfer treftadaeth naturiol gorlifdiroedd dyffrynnoedd Hafren ac Avon.

Dyfarnwyd bron i £10.8miliwn hefyd i brosiectau tir, natur a gwyddoniaeth dinasyddion ar draws Cymru drwy Rownd 2 y Gronfa Rhwydweithiau Natur.

Yn nes at adref, fe wirfoddolodd ein staff i lanhau gerddi cymunedol a bu i ni gyflenwi casglwyr sbwriel i annog staff i lanhau eu cymunedau lleol yn ystod amser cinio.

Caffael cynaliadwy

Mae ein hymagwedd yn cyd-fynd â safonau llywodraeth. Rydym yn bwriadu gwella ein polisiau caffael cynaliadwy ac yn cydnabod yr angen am ddarparu mwy o ganllawiau. Y llynedd fe ddechreuom ymgysylltu â'n cyflenwyr mwyaf i ddeall eu gallu i adrodd a lleihau eu heffaith amgylcheddol. Gwnaethom hefyd ymgorffori gofynion cynaladwyedd wrth wneud penderfyniadau ar gyfer pob cytundeb swyddfa newydd.

Addasu i'r newid yn yr hinsawdd

Mae ein hystâd ffisegol yn fach ac yn ystwyth. Gan nad ydym yn berchen ar seilwaith nac yn ei weithredu, mae'r risg i'n sefydliad o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ddiogelwch a lles staff a'r risg bosib i barhad busnes os bydd cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol. Ymdrinnir â'r risgiau cysylltiedig yn y cofrestrau risg priodol ac nid ydym yn ystyried addasu i newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd, fodd bynnag byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Lleihau effeithiau amgylcheddol o ddefnyddio TG a digidol

Nod ein strategaeth TG yw lleihau effaith amgylcheddol y dechnoleg a ddefnyddiwn. Eleni fe wnaethom sefydlu gwaelodlin ar gyfer allyriadau sy'n gysylltiedig â TGCh a digidol. Defnyddiwyd Llawlyfr TGCh y Llywodraeth Werdd i nodi meysydd i'w gwella a byddwn yn cyflwyno polisiau cadw a dulliau storio data newydd yn ogystal â darparu gwybodaeth a chymorth i staff o 2023–2024 ymlaen.

Amcanion polisi a thargedau

Mae ein cynllun blaenorol i gyflwyno strategaeth gynladwyedd wedi'i ddisodli gan y cynllun datgarboneiddio ar gyfer ein sefydliad ac integreiddio cynladwyedd amgylcheddol i'n strategaeth 10 mlynedd newydd, Treftadaeth 2033.

Er mwyn cyrraedd allyriadau gweithredol sero net, bydd y ffocws ar ein swyddfeydd, seilwaith TG,

teithio a'r gadwyn gyflenwi. Rydym wedi gosod targedau effeithlonrwydd ynni i'r gofod swyddfa ar gyfer y saith mlynedd nesaf. Bu i ni gyflawni'r targed eleni drwy ddewis adeilad ynni-effeithlon ar gyfer ein swyddfa newydd yng Nghaerdydd a symud allan o swyddfeydd lesddaliadol yn Llundain a Nottingham.

Ein nod oedd lleihau'r pellter a deithiwyd i 1,100,000 cilomedr ond fe wnaethom deithio 1,226,804 km. Fodd bynnag, bu i ni ragori ar ein targed o newid modd i cludiant cyhoeddus drwy symud o'r ffordd i'r rheilffordd, gan deithio 83% o gyfanswm y pellter ar reilffyrdd (targed 65%). Roedd hedfan yn cyfrif am 5% o'r pellter a deithiwyd, gan fethu â chyrraedd ein targed o 3% ar gyfer 2022–2023. Mae hon yn her i'w lleihau o ystyried ein hól troed yn y DU, gydag 84% o deithiau hedfan yn ymwneud â theithio rhwng Belfast a gweddill y DU.

Bu i ni weithio i ddeall ôl troed carbon y prosiectau a ariannwn ac i bennu targed gostwng ar sail gwyddoniaeth, sy'n cynnwys yr allyriadau hyn. Trwy ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith amgylcheddol y prosiectau rydym yn eu hariannu, byddwn yn gallu darparu arweinyddiaeth a chymorth ymarferol i'r sector treftadaeth wrth bontio i ddyfodol cynaliadwy.


Paratoi ardaloedd gwledig ar gyfer y dyfodol

Mae llawer o'n prosiectau mewn ardaloedd gwledig ac mae ein buddsoddiad yn helpu i greu swyddi a chefnogi cymunedau. Rydym yn cydnabod yr heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu, gan gynnwys cynrychiolaeth, mynediad at gludiant cyhoeddus, ac argaeledd a chyraddoldeb gwaith cyflogedig.

Fel sefydliad rydym yn cefnogi ein cydweithwyr i weithio ledled y wlad ac mae ein polisi gweithio hybrid newydd yn disgrifio sut y gall staff weithio'n hyblyg ar draws y DU.

Adeiladu cynaliadwy

Heblaw ariannu prosiectau cyfalaf, nid oes gan y sefydliad unrhyw waith adeiladu newydd o ran asedau cyfalaf.



Eilish McGuinness

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

Adroddiad atebolrwydd

Mae tair adran i'r adroddiad atebolrwydd:

- adroddiad llywodraethu corfforaethol – trafodaeth o'n strwythur llywodraethu a'i gyflawniadau yn y flwyddyn dan sylw
- adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff – mae hwn yn rhoi manylion tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr ac uwch reolwyr yn ogystal â threfniadau pensiwn i staff. At hynny, rydym yn trafod ein cyflawniadau o ran cydraddoldeb yn y gweithle ac amrywiaeth staff.
- adroddiad atebolrwydd ac archwilio seneddol – adroddiad gan ein harchwilwyr ar ganlyniadau eu harchwiliad o'n cyfrifon ar gyfer 2022–2023 yn unol â safonau cyfrifyddu ac archwilio

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Diben yr adroddiad llywodraethu corfforaethol hwn yw esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu CGDG a sut y maent yn cefnogi cyflawni ein hamcanion.

Adroddiad y cyfarwyddwyr

Cadeirydd ac Ymddiriedolwyr CGDG

Cadeirydd	Dr Simon Thurley CBE
Ymddiriedolwyr	Maria Adebawale-Schwarte Y Farwnes Kay Andrews OBE tan 31 Rhagfyr 2022 Dr Claire Feehily Julian Glover o 1 Mai 2022 Denise Lewis-Poulton o 6 Chwefror 2023 Ray Macfarlane Taryn Nixon o 1 Mai 2022 Carol Pyrah o 9 Mai 2022 Mukesh Sharma MBE DL Dr David Stocker

Prif Weithredwr Eilish McGuinness

Gellir dod o hyd i fanylion aelodau staff uwch eraill yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff sy'n dechrau ar dudalen 49.

Roedd y rhaniad o'n staff o ran rhywedd (gan gynnwys y rhai ar gongtractau cyfnod penodol) sy'n gweithio ar ein gweithgareddau Trysorlys, a'n hymddiriedolwyr ar 31 Mawrth 2023 ar sail cyfrif pennau, fel a ganlyn:

	Dynion	Menywod	Cyfanswm
Ymddiriedolwyr	4	6	10
Cyfarwyddwyr gweithredol	1	3	4
Staff	41	117	158

Ac eithrio ein gwaith ar raglenni brys a rhaglenni arbennig eraill, roedd gennym ddau aelod o staff yn gweithio ar weithgareddau safonol CGDG ar ddiwedd y flwyddyn. Bu'r holl staff uchod hefyd yn gweithio ar weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Roedd gennym hefyd 170 o staff ar ddiwedd y flwyddyn a fu'n gweithio dim ond ar ein gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Mae eu rhaniad o ran rhyw wedi'i ymgorffori yn y rhaniad rhwng rhywiau staff a adroddwyd yn ein cyfrifon dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Cofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr

Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae'r ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a pherthnasoedd masnachol â'r Gronfa Treftadaeth ac yn diarddel eu hunain o'r prosesu arfarnu, trafod a gwneud penderfyniad ar y grant perthnasol o fewn CGDG.

Yn eu cysylltiadau ag ymgeiswyr grant, mae ymddiriedolwyr yn ceisio osgoi lefelau cyfranogiad neu ddylanwad a fyddai'n anghydnaws â'u cyfrifoldebau fel ymddiriedolwr CGDG. Ceir trefniadau cyfatebol er mwyn i staff adrodd buddiannau ac osgoi gwrthdaro buddiannau posib. Mae'r Gofrestr Buddiannau Ymddiriedolwyr ar gael ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: www.heritagefund.org.uk/cy.

Datblygiadau'r dyfodol

Bydd y flwyddyn i ddod yn gweld y Gronfa Treftadaeth yn canolbwyntio ar bontio i Treftadaeth 2033, a thrwy hynny byddwn ni'n parhau â'n hymagwedd bresennol o gynnig rhaglenni ariannu agored – o grantiau bach hyd at brosiectau gwerth miliynau o bunnoedd – ar gyfer pob math o dreftadaeth.

Byddwn ni'n cryfhau partneriaethau gyda llywodraethau, awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol ac yn creu partneriaethau newydd gyda'r rhai sy'n rhannu ein gweledigaeth.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiant wrth ddarparu arian cymorth grant drwy'r pandemig, gan ddarparu ariannu ychwanegol ar gyfer treftadaeth ar ran llywodraethau a chyrff eraill i gyflawni ein nodau a rennir.

Data ac ymchwil

Y flwyddyn yma gwnaethom gynyddu ein galluedd dadansoddi data a chydweithio â chyrff hyd braich eraill ar brosiectau ymchwil fel Pwls Treftadaeth a thrwy rannu data ymgysylltu o'r Arolwg Cymryd Rhan dan arweiniad DCMS. Gwnaethom hefyd wella ein harlwy data agored er mwyn cyhoeddi data yn ehangach ac

yn amlach. Mae ein huchelgais ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys treialu Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) newydd a galluoedd mapio a fydd yn ein helpu i ddarparu mewnwelediadau cryfach a chefnogi'r gwaith buddsoddi seiliedig ar le ac ar raddfa tirweddau sydd wedi'i nodi yn Treftadaeth 2033.

Penodi archwilwyr

Mae Deddf 1980 yn gwneud darpariaeth i gyfrifon blynyddol CGDG gael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae Deddf 1993 yn ymestyn hyn i weithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol yr ymddiriedolwyr.

Rhanddeiliaid allweddol

Rhanddeiliad allweddol CGDG yw'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae rhanddeiliaid allweddol eraill yn cynnwys arianwyr ein rhaglenni brys a rhaglenni eraill: Defra, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Rydym hefyd yn cadw anghenion y sector treftadaeth a phoblogaeth y DU mewn cof wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau am ariannu.

Data personol

Cafodd CGDG bedwar achos lle datgelwyd data personol yn anfwriadol i drydydd parti. Fodd bynnag, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), nid oedd angen adrodd ar unrhyw un o'r digwyddiadau hyn i'r ICO. Dysgwyd gwersi a chymerwyd camau adferol i leihau'r posibilrwydd y byddai'n digwydd eto. Bydd CGDG yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi ac ymdrin ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus ei systemau.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan adran 7(3) Deddf 1980, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda chydysniad Trysorlys EF. Paratoir y cyfrifon ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i hincwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr CGDG gydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Trysorlys EF ac yn benodol:

1. glynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifyddu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros

DCMS, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiâu cyfrifyddu priodol yn gyson

2. ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol
3. datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn y LIAA wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
4. paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu

Penododd prif Swyddog Cyfrifyddu DCMS yr uwch swyddog amser llawn, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y Gronfa.

Mae eu cyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros ddiogelu asedau'r Gronfa Treftadaeth a thros gadw cofnodion priodol, wedi'u disgrifio yn yr adran sydd â'r teitl 'Swyddogion Cyfrifyddu' yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Hyd eithaf gwybodaeth y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod yr adroddiad a chyfrifon blynyddol yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac mai hi sy'n cymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r farn y mae ei hangen i bennu ei fod yn deg, cytbwys a rhesymol.

Datganiad Llywodraethu

Rhagair

Fe'm penodwyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ar 1 Ionawr 2022.

Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn ar draws y sefydliad cyfan sy'n cefnogi cyflawni diben y Gronfa ac yn diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

Cyflwyniad

Mae'r datganiad llywodraethu hwn yn grynoded o'r trefniadau ar gyfer stiwardiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys sut rydym

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

yn rheoli risg a sut rydym yn cydymffurfio â chod llywodraethu corfforaethol Trysorlys EF.

Fel Swyddog Cyfrifyddu CGDG, mae'n ofynnol i mi, yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon yr Ysgrifennydd Gwladol, gyfrif ar wahân am fy nwy brif ffynhonnell incwm – cymorth grant a chyllid gan y Loteri Genedlaethol. Rwy'n atebol hefyd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion CGDG, ac ar yr un pryd diogelu'r cyllid ac asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol yn bersonol amdanynt. Mae hyn yn cydweddu â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cael eu gweithredu fel endid unigol gan i mi gredu bod hyn yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gan hynny, dim ond un strwythur llywodraethu sydd yn y datganiad hwn, y mae'n cwmpasu dosbarthiad dyfarniadau cymorth grant a grantiau'r Loteri Genedlaethol. Er i ni weithredu un strwythur llywodraethu cyffredinol, rydym wedi addasu ac ystwytho ein llywodraethu i fodloni gofynion ein rhaglenni cymorth grant. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio paneli bach o ymddiriedolwyr a darparu hyblygrwydd ar gyfer rhai o'n penderfyniadau wedi'u dirprwyo.

Amgylchedd gweithredu

Bu ein hamgylchedd gweithredu'n heriol ac yn feichus, gyda'n sefydliad ein hunain yn cael ei effeithio gan ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd. Serch hynny, bu i ni barhau i ymateb i'r sector a chefnogi treftadaeth ar draws y DU. Bu i ni ddatblygu partneriaethau newydd a gweithio gyda gwahanol adrannau llywodraeth y DU, ynghyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Bu i ni barhau i ddarparu ein rhaglenni cymorth grant – yn gyffredinol a rhaglenni ymateb COVID-19 penodol gyda ffocws ar adferiad a chydnerthedd.

Parhaodd llif arian a hylifedd i fod yn allweddol i iechyd a goroesiad y sector treftadaeth. Bu modd i ni gyfrannu buddsoddiad er mwyn cynnal cefnogaeth i brosiectau, helpu cymunedau, diogelu swyddi a sicrhau goroesiad rhannau helaeth o'r sector efallai na fyddent wedi llwyddo i ymdopi â'r hinsawdd economaidd ansicr fel arall.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod ein trefniadau llywodraethu wedi caniatáu i ni nid yn unig weithredu drwy'r amgylchedd gweithredu ansicr ond i gyflwyno ystod o ymatebion ar draws y DU sydd wedi bod yn hollbwysig o ran diogelu'r sector treftadaeth.

Mae llywodraethu'r Gronfa wedi parhau i fod yn


gydnerth ac yn hyblyg drwy gydol y flwyddyn gyfan.

Y Cytundeb Fframwaith rhwng DCMS a CGDG

Yn ystod y flwyddyn cytunodd CGDG ar Ddogfen Fframwaith drafft gyda DCMS yn nodi ein trefniadau llywodraethu fel corff hyd braich o'r adran, ein dirprwyaethau, mesurau rheoli gwariant a threfniadau gweithredu ehangach. Disgwylw'n i hwn gael ei gwblhau yn 2023–2024.

Strwythur llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu CGDG yn ystod 2022–2023 wedi'i ddisgrifio yn y diagram isod. Mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau fel y'u disgrifir, ochr yn ochr â'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad.



Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am:

- rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol
- cymeradwyo mecanweithiau rheoli i ddiogelu adnoddau cyhoeddus
- cymeradwyo cyllidebau buddsoddi a gweinyddu
- goruchwyllo rheolaeth gyffredinol gweithgareddau CGDG
- adrodd ar stiwardiaeth cyllid cyhoeddus

Cynhaliodd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel grŵp, saith cyfarfod yn ystod y flwyddyn i bennu polisi CGDG a gwneud penderfyniadau'n unol â'r polisi hwnnw. Mynychir y cyfarfodydd hyn gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr gweithredol.

Dr Simon Thurley CBE yw Cadeirydd y Gronfa a thrwy gydol y flwyddyn cynhaliwyd cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhyngddo ef, y Prif Weithredwr a staff uwch. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol hyd at uchafswm o 15 o ymddiriedolwyr gan gynnwys y Cadeirydd.

Yn 2022–2023, penodwyd tri ymddiriedolwr newydd.

Cyfradd bresenoldeb gyffredinol ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 93%. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi dirprwyo rhai o'u tasgau i'r Pwyllgorau Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth uchod. Mae'r pwyllgorau hyn yn goruchwyllo gweithgareddau rheolwyr ac yn darparu arweiniad a chymorth i staff uwch. Mae cofnodion

cyfarfodydd pwyllgor yn eitemau sefydlog yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

Mae cadeiryddion pwyllgorau'n darparu adroddiad llawn ar eu gweithgareddau hefyd.

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd trwy gydol 2022–23 fel a ganlyn:

	Cyfarfodydd cymwys	Cyfarfodydd a fynychwyd
Dr Simon Thurley CBE	7	7
Maria Adebawale-Schwarte	7	5
Y Farwnes Kay Andrews OBE tan 31 Rhagfyr 2022	7	6
Dr Claire Feehily	7	6
Julian Glover o 1 Mai 2022	7	7
Denise Lewis-Poulton o 6 Chwefror 2023	1	1
Ray Macfarlane	7	6
Taryn Nixon o 1 Mai 2022	7	7
Carol Pyrah o 9 Mai 2022	7	7
Mukesh Sharma MBE DL	7	7
Dr David Stocker	7	7

Cyfansoddiad y Bwrdd

O'r 11 o ymddiriedolwyr a fynychodd y Bwrdd trwy gydol y flwyddyn, roedd 60% yn fenywod a 40% yn ddynion. Daeth dau (20%) o gefndiroedd Mwyafrif Byd-eang.

Gwrthdaro buddiannau'r Bwrdd

Mae ymddiriedolwyr a staff yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir ac y diwedderir eu cofnodion yn y Gofrestr Buddiannau fel y bo angen. Mae'r tîm Cyfreithiol a Llywodraethu yn goruchwyllo proses i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu diweddarau bob blwyddyn. Ar ddechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd, gofynnir i'r holl ymddiriedolwyr a staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posib. Nodir y rhain yn y cofnodion pan bennir bod y mater yn gyfystyr â gwrthdaro a bydd ymddiriedolwyr a staff yn tynnu allan o drafodaethau'r Bwrdd ar y materion hynny.

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r pwyllgor ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn. Fe'i cadeirir gan ymddiriedolwr.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod pwyllgor gyda'r cyfarwyddwyr gweithredol Cyflwyno Busnes a Gwasanaethau Busnes ac mae staff uwch eraill yn bresennol fel y bo angen. Cefnogir a gwasanaethir y Pwyllgor gan dîm Cyfreithiol a Llywodraethu'r Gronfa. Mae archwilwyr allanol (y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) ac archwilwyr mewnol (BDO) y Gronfa, ac erbyn hyn DCMS, hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn cynnal sesiynau yn y dirgel eu hunain cyn cyfarfodydd ac

mae hefyd yn cynnal trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr cyn y cyfarfodydd.

Yn ychwanegol at ymddiriedolwyr, mae dau aelod annibynnol anweithredol yn aelodau o'r pwyllgor hefyd – sef Warren Mead a Robert Milburn. Ymunodd y ddau yn effeithiol o 1 Mehefin 2022. Disodlodd yr aelodau newydd hyn David Michael a Carole Murray a ymddeolodd o'u rolau ar 30 Mehefin 2022.

Bu i'r Pwyllgor ailbenodi BDO fel archwilwyr mewnol yn 2021–2022. Cytunwyd ar gynllun strategol ar ei newydd wedd ar gyfer archwilio mewnol ac ar y rhaglen waith un flwyddyn ar gyfer 2022–2023. Roedd yr holl adolygiadau a gyflawnwyd yn 2022–2023 ac a adroddwyd i'r Pwyllgor yn cyfateb i'r dull strategol hwnnw. Cymeradwyir cynllun un flwyddyn manwl o adolygiadau archwilio mewnol bob blwyddyn.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ar:

- fudo data gwasanaeth rheoli buddsoddiadau
- strategaeth llywodraethu gwybodaeth a TG
- strategaeth pobl
- mesurau rheoli ariannol craidd

Mae cofnodion cyfarfod y Pwyllgor, ac adroddiadau cryno yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd ac mae cadeirydd y pwyllgor yn rhoi diweddariad ar lafar i'r Bwrdd ar fusnes a phenderfyniadau'r pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu Adroddiadau a Chyfrifon Blyneddol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Yn ystod 2022–2023, yn ychwanegol at yr adroddiadau a chyfrifon uchod, ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- adroddiadau pellach ar y system rheoli buddsoddiadau
- achosion o dwyll a thwyll honedig gan gynnwys asesiad risg twyll manwl ac asesiad ôl-werthuso ar gyfer ein rhaglenni cymorth grant yn y pandemig
- trefniadau caffael gan gynnwys unrhyw eithriadau i dendrau caffael arferol

Roedd presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor trwy gydol 2022–2023 fel a ganlyn:

Ymddiriedolwr	Cyfarfodydd cymwys	Cyfarfodydd a fynychwyd
Dr Claire Feehily Cadeirydd	4	4
Maria Adebawale-Schwarte	4	3
Warren Mead o 1 Mehefin 2022	4	4
David Michael tan 30 Mehefin 2022	1	1
Robert Milburn o 1 Mehefin 2022	4	4
Carole Murray tan 30 Mehefin 2022	1	1

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae cadeirydd y pwyllgor hefyd yn mynychu Fforwm Cadeiryddion Archwilio DCMS gan roi adborth a sicrwydd pellach i'r Swyddog Cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn.

Pwyllgor Enwebiadau a Thâl Cydnabyddiaeth

Ni chyfarfu'r Pwyllgor yn 2022–2023.

Dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo eu cyfrifoldebau gwneud grantiau ar gyfer mathau a gwerthoedd penodol o grantiau'r Loteri Genedlaethol i'r gwledydd ac i ardaloedd o Loegr. Mae chwech o'r pwyllgorau hyn (tair gwlad a thair ardal yn Lloegr), pob un ag ymddiriedolwr. Yn ychwanegol at wneud penderfyniadau grant, mae'r pwyllgorau hyn yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar flaenoriaethau yn eu hardal ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros waith y sefydliad fel corff dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cyfarfu cadeiryddion y Pwyllgorau Gwlad ac Ardal â Chadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr, ynghyd â staff uwch yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfarwyddwr gweithredol (Cyflwyno Busnes) yn mynychu pwyllgorau ar gyfer pob gwlad ac ardal o Loegr trwy gydol y flwyddyn.

Hefyd, mae'r ymddiriedolwyr wedi dirprwyo gwneud penderfyniadau am grantiau o dan £250,000 i staff, yn benodol cyfarwyddwyr gwlad ac ardal yn y gwledydd a'r ardaloedd o Loegr. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar effaith grantiau wedi'u dirprwyo ar draws yr holl bwyllgorau i'r Bwrdd. Adroddir yr holl benderfyniadau a wneir gan bwyllgorau a staff i'r Bwrdd.

Gweithrediaeth a Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP)

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rheolaeth o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr.

Daeth Gweithrediaeth sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri chyfarwyddwr gweithredol i rym ar gyfer pob adran yn 2019 ac mae wedi bodoli ers hynny (gweler y strwythur adrannau yn y golofn nesaf). Mae'r Weithrediaeth hon yn gyfrifol am faterion rheoli strategol ehangach a'r ddarpariaeth fusnes yn y Gronfa. Mae'r Weithrediaeth yn cwrdd bob wythnos neu bythefnos yn unol ag anghenion busnes.

Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad (GSP) yn cynnwys uwch gyfarwyddwyr a staff ar draws y tair adran ac mae ganddo gyfrifoldeb dros sganio'r gorwel, rheoli perfformiad o ddydd i ddydd a chynllunio corfforaethol. Cyfarfu'r GSP yn rheolaidd ac mewn nifer o'r cyfarfodydd hyn roedd y Weithrediaeth hefyd yn bresennol.

Mae pob cyfarwyddwr gweithredol yn darparu adroddiadau i'r Bwrdd ar weithgareddau a materion

sydd o fewn eu cylch gwaith.

At hynny, ar ddechrau pob blwyddyn, rwy'n cyhoeddi Llythyr o Gyfrifoldeb i bob cyfarwyddwr gweithredol yn nodi eu cyfrifoldebau a'r angen i weithredu o fewn canllawiau a rheolau'r Gronfa, Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EF. Ar ddiwedd pob blwyddyn rwy'n derbyn Memoranda Sicrwydd wedi'u llofnodi gan bob cyfarwyddwr gweithredol yn cadarnhau eu cydymffurfiaeth neu'n nodi unrhyw dor rheolau. Adroddwyd cydymffurfiaeth lawn ar gyfer 2022–2023.

Rwyf hefyd yn mynychu Fforwm y Loteri (grŵp o holl Brif Weithredwyr Dosbarthwyr y Loteri) trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cyswllt â DCMS a Chomisiwn y Loteri. Mae'r cyfarwyddwr gweithredol (Gwasanaethau Busnes) hefyd yn mynychu'r fforwm cyfatebol ar gyfer cyfarwyddwyr cyllid yn ogystal â chyfarfodydd cyfarwyddwr cyllid DCMS. Darperir adborth a sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu drwy'r llwybrau hynny.

Dyluniad a strwythur y sefydliad

Yn ystod y flwyddyn, fel Prif Weithredwr, gweithredais strwythur o dair adran, sef:

- Arloesedd a Mewnwelediad Busnes (strategaeth, polisi, data a mewnwelediad ynghyd â marchnata a chyfathrebu)
- Cyflwyno Busnes (cyflwyniad gweithredol)
- Gwasanaethau Busnes (swyddogaethau cefnogi)

Datblygir y cynllun gweithredu – y Cynllun Busnes – bob blwyddyn ochr yn ochr â chynllunio cyllidebau ariannol a rhaglenni buddsoddi. Fel yn y blynyddoedd blaenorol bu i ni integreiddio rheoli risgiau'n agos i'r broses cynllunio busnes. Trafodir y Cynllun Busnes gyda'n hadran noddi, DCMS.

Mae DCMS hefyd yn pennu cyfarwyddiadau polisi a chyfarwyddiadau ariannol DU, yr ydym wedi cydymffurfio â nhw yn ein gweithgareddau loteri. Mae Llywodraethau'r Alban a Chymru wedi cyhoeddi rhai cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas â gweithgareddau'r Loteri Genedlaethol yn y gwledydd hynny ac rydym hefyd wedi cydymffurfio â'r rheiny. Mae gennym hefyd gyfarwyddiadau polisi gan DCMS dros Loegr. Bu i ni weithredu yn unol â'n Cytundeb Fframwaith drafft a'r Memorandwm Ariannol rhyngom ni a DCMS. Saif y blaenoriaethau a nodir yn y ddogfen fframwaith drafft ochr yn ochr â chyfarwyddiadau polisi'r DU a'r gwledydd.

Ategir hyn gan gyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion DCMS a dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol.

Fframwaith Ariannu Strategol

Eleni oedd y bedwaredd flwyddyn o weithredu ein Fframwaith Ariannu Strategol 2019–2024 ar gyfer grantiau'r Loteri Genedlaethol. Mae'r Fframwaith Ariannu Strategol yn disgrifio'r weledigaeth a'r egwyddorion sy'n arwain ein hariannu dros fywyd y fframwaith, gan gynnwys Rhaglen Agored sengl symlach gyda thair lefel o ariannu; datganoli'r mwyafrif o benderfyniadau gwneud grantiau i Gymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a'n tair ardal yn Lloegr; a mwy o ffocws ar natur a thirweddau, treftadaeth gymunedol a threftadaeth sydd mewn perygl.

Yn 2022–2023 bu i ni ddechreio yn llawn i weithrediadau dyfarnu grantiau loteri ar ôl y pandemig. Mae sefydliadau treftadaeth wedi gweithio i addasu i hinsawdd economaidd fwy ansicr, gyda llai o dwristiaeth ryngwladol a chostau ynni cynyddol, a chwyddiant yn effeithio ar refeniw, gweithrediadau a rhaglenni cyfalaf. Bu i ni ganolbwyntio ein hariannu a'n harbenigedd ar gefnogi sefydliadau treftadaeth i addasu i amgylchiadau sydd wedi newid yn sylfaenol. Bu i ni gefnogi eu gwaith drwy archwilio eu modelau busnes presennol a datblygu ffyrdd newydd, creadigol a mwy cydnorth o weithredu trwy ein hariannu Rhaglen Agored craidd ac ymestyn ein Rhaglenni Menter a Chymorth Busnes drwy gydol y flwyddyn. Dychwelodd ein Rhaglen Agored i dderbyn 2,055 o geisiadau, ac roeddem yn falch o fod wedi gallu cefnogi 1,126 o brosiectau gyda buddsoddiad o £199.2 miliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Ochr yn ochr â'n Rhaglen Agored fe wnaethom barhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithio ac arloesi i ehangu cyrraedd ac effaith arian treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn bu i ni weithio ar y cyd gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol i ddangos effaith y Loteri Genedlaethol ar y cyd, gan ganolbwyntio ar Jiwbilî Blatinwm y Frenhines a Gemau'r Gymanwlad 2022. Lansiwyd Cronfa Arloesi newydd i archwilio, profi a thyfu syniadau sy'n anelu at sicrhau bod gan y gweithlu treftadaeth y capasiti a'r galluedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y dyfodol, a threialwyd menter Cyllid Gwyrdd i brofi ffyrdd newydd o gefnogi prosiectau amgylcheddol. Fe wnaethom barhau â'n partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a DLUHC ar Future Parks Accelerator, gan weithio i ddiogelu a datblygu adnoddau naturiol mewn ardaloedd trefol, a sicrhau bod mannau gwyrdd o safon yn hygyrch i bawb. Wrth i waith fynd rhagddo ar ddatblygu ein strategaeth newydd, bu i ni ddatblygu cytundebau ariannu newydd gyda phartneriaid

treftadaeth megis y Gronfa Treftadaeth Bensaerniol a'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol, gan fuddsoddi mewn adeiladu gallu sefydliadau treftadaeth yr effeithiwyd arnynt yn benodol gan y pandemig.

Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Dylunnir ein system rheoli risg a rheoli mewnol i reoli risg i lefel dderbyniol yn hytrach na dileu risg i bolisiau, nodau ac amcanion – gan hynny ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol nid sicrwydd llwyr. Yn benodol, rwy'n glir y dylai rheoli risg gydbwysu arloesedd neu newidiadau i'r busnes pan fydd angen hynny. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar broses barhaus y mae ei nod yw nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion a gwerthuso tebygolrwydd gwireddu'r risgiau hynny a'r effaith pe bai'r gwireddiad hynny'n digwydd.

Cyfeirir pennu'r holl bolisiau a gwneud penderfyniadau grant gan ddiwylliant a dull rheoli risg CGDG. Ychydig flynyddoedd yn ôl bu i ni ddiwygio ein dull rheoli risg fel rhan o ymarfer sicrwydd ehangach ar draws CGDG. Fe wnaethom barhau i weithredu'r dull hwn yn 2022–2023 ac rydym yn bwriadu adolygu ein dull risg eto yn ystod 2023–2024.

Mae'r cofrestr/asesiadau risg a'r broses sylfaenol yn aseinio perchennog risg sy'n atebol i'r Prif Weithredwr am reoli'r risg honno yn effeithiol. Mae'r cofrestr hefyd yn nodi risgiau cysylltiedig fel bod unrhyw 'effaith luosi' yn cael ei hystyried. Mae'n gwahaniaethu hefyd rhwng y lefel risg "gynhenid" (effaith a thebygolrwydd) a'r lefel risg "weddilliol" fel ei fod yn bosib barnu effeithiolrwydd y mesurau rheoli a mecanweithiau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer lliniaru'r risg. Mae hynny hefyd yn galluogi perchennog y risg i adnabod mesurau pellach y mae eu hangen i ddod â'r risg o fewn yr awydd a'r dyddiadau penodol ar gyfer y camau hynny.

Yn ystod y pandemig fe wnaethom addasu ein hadroddiadau risg i'r Bwrdd ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i adlewyrchu natur ddeinamig y risgiau, y risgiau allanol a mewnol o'r pandemig, tueddiadau, patrymau a rhagamcaniadau o risgiau.

Adolygodd y Bwrdd hefyd ei awydd am risg yn ystod 2022–2023 ac roedd yn fodlon ar y lefelau risg presennol. Rydym yn cydnabod hefyd y dylid annog cymryd risgiau ac arloesedd a ystyrir yn drylwyr i gyflawni amcanion CGDG. Credaf fod CGDG yn dangos arloesedd yn ei dewis o ddyfarniadau grant ac nad yw'n fodloni dim ond ar wneud penderfyniadau sy'n rhydd rhag risg.

I'r perwyl hwn rydym yn barod i dderbyn na fydd

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

rhai o'r sefydliadau yr ydym yn rhoi grantiau iddynt yn y pen draw yn dangos cymhwysedd llawn wrth weinyddu'r grant hwnnw. Rydym yn dysgu ein gwersi, yn gwella ein prosesau ac, mewn rhai amgylchiadau anghyffredin, yn diddymu'r grant. Mewn achosion pan fyddwn yn amau twyll neu ymddygiad amhriodol byddwn yn adrodd yr achos i'r heddlu am ymchwiliad pellach. Rwy'n cymeradwyo pob diddymiad ac mae hyn yn fy galluogi i'w fonitro bob blwyddyn er mwyn darparu sicrwydd ar ein gweithdrefnau asesu a monitro.

Fel y gellir ei weld o'r nodyn perthnasol i'r cyfrifon, mae lefel y grantiau a diddymir yn fach iawn o'i gymharu â lefel y grantiau rydym yn ei ddisbarthu bob blwyddyn. O ganlyniad i hyn, gallaf ddod i'r casgliad nad oes unrhyw destun pryder ynglŷn â lefel y risg sy'n rhan ymhlyg o'n prosesau rhoi grantiau.

Yn 2022–2023 ystyriodd CGDG mai'r canlynol oedd y meysydd risg mwyaf arwyddocaol:

- rheoli incwm y Loteri Genedlaethol ochr yn ochr â'n amlygiad hylifedd, rhagamcaniadau cyllid hirdymor a'r gallu i ariannu'r rhain a sicrhau bod ein dangosyddion perfformiad allweddol ariannol yn parhau o fewn ein goddefiant risg o ran y galw am ddyfarniadau, ymrwymadau (rhwymedigaethau) ac ymrwymadau posib (rhwymedigaethau amodol) ac arian parod a ddelir, fel y dangosir yn y dadansoddiad o Berfformiad ar dudalen 35
- nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'n gwaith cymorth grant yn mynd yn sefydlog, nac yn cael effaith andwyol ar ein sylfaen costau strategol yn y dyfodol
- lles ac iechyd meddwl ein timau
- yr heriau a achosir gan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol
- datblygu'r system rheoli buddsoddiadau newydd
- ymdrin ag ansicrwydd economaidd ar gyfer ein prosiectau o ran costau, chwyddiant, cadwyni cyflenwi, etc
- ymdrin â newid a risg wleidyddol ar draws y DU
- rheoli effeithiau risgiau economaidd (chwyddiant, sefydlogrwydd cadwyni cyflenwi) etc ar draws ein portffolio buddsoddi
- sicrhau y defnyddir ein data a mewnwelediad er effaith optimaidd
- sicrhau ein bod ni'n cyflawni newidiadau diwylliannol ar draws CGDG i gefnogi'r newidiadau y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno

Mae gan bob un o'r risgiau hyn berchennog risg ar y lefel weithredol sydd â'r dasg o reoli'r risg a sicrhau yr

ymgymerir â chymau lliniaru priodol. Credaf ein bod wedi rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol trwy gydol 2022–2023.

Ymagwedd at risgiau twyll a gwybodaeth

Mae gan ymddiriedolwyr CGDG bolisi twyll sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Anogir holl staff CGDG i ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth twyll.

Mae'r hyfforddiant yn nodi meysydd sydd â risg o dwyll ar gyfer CGDG, a sut y gellir adnabod a lliniaru'r rhain er mwyn gostwng y risg o dwyll. Mae CGDG wedi ymgymryd yn benodol â hyfforddiant twyll pwrpasol a ddarperir gan bartion allanol i'n timau buddsoddi mewn meysydd megis sut i ddatgelu twyll a sut i roi gwybod am amheuan ynghylch twyll.

Mae'r holl staff rheng flaen gweithredol newydd yn derbyn hyfforddiant ar asesu a monitro ceisiadau grant fel rhan o'u proses gynefino. Twyll yw un o'r pynciau yr ymdrinnir ag ef yn yr hyfforddiant hwnnw. At hynny, mae amrywiaeth o fesurau gwrth-dwyll yn cael eu cyflawni gan staff yn y camau cyn-ymgeisio, ymgeisio, asesu, monitro a chau'r prosiect.

Dros flynyddoedd diweddar rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o risg a threfniadau cywain gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri Genedlaethol a pharhaom â hyn y llynedd trwy rannu gwybodaeth yn well, cyfuno adnoddau ac ystyried defnyddio trydydd partion arbenigol i nodi'r risg o dwyll.

Bu i ni gydnabod yr awydd risg ehangach am hyn y tu allan i CGDG, a gweithio ochr yn ochr â DCMS, Defra etc i fodloni eu gofynion yn hyn o beth.

Bu i ni gydnabod hefyd bod mynediad at ariannu a defnyddio grantiau a dalwyd eisoes yn parhau i fod yn feysydd lle mae perygl o dwyll neu gamgymeriad. Bu i ni barhau i ddefnyddio ein trefniadau gwrth-dwyll cadarn presennol ac adeiladu ar y rhain gydag offer a gwasanaethau newydd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae gan CGDG bolisi risg gwybodaeth hefyd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Fframwaith Polisi Diogelwch. Mae'r holl staff newydd yn derbyn arweiniad mewn diogeledd gwybodaeth, diogelu data a Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'u cynefino.

Modelau hollbwysig i fusnes

Rwy'n ystyried ein bod mewn cydymffurfiaeth â'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn Adroddiad Macpherson, Rwy'n barnu ein bod yn defnyddio un model sy'n hanfodol i'r busnes – y rhagamcaniad llif arian a ddefnyddir i bennu cyllidebau grant blynyddol allan o'n hincwm gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn

anelu at sicrhau ein bod yn dyfarnu'r swm mwyaf posib o ran lefel y grantiau heb beri'r risg o redeg allan o arian parod neu or-estyn ein hunain. Crëwyd y model tua phymtheg mlynedd yn ôl ac mae'n parhau'n bennaf ar ei ffurf wreiddiol ar wahân i ymestyn ei gylch bywyd. Mae'r model wedi cael ei ddefnyddio yn erbyn sefyllfaoedd o lefelau gwahanol o incwm gan y Loteri Genedlaethol, cyfraniadau untro i Gemau Olympaidd 2012, a rhaglenni grant arwyddocaol newydd ac rydym wedi gweld ei fod yn darparu rhagamcaniad rhesymol o'n cynladwyedd ariannol.

Yn 2014–2015, ar sail y prif fodel, creodd y Bwrdd fframwaith ariannol a ddisgrifiodd gymarebau grantiau a fu'n gysylltiedig â chyfanswm lefel yr ymrwymadau, rhwymedigaethau gwirioneddol a gymeradwywyd, incwm gan y Loteri Genedlaethol a'n balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG). Gan hynny rydym o'r gred bod y model a'r Fframwaith Ariannol yn darparu sail gadarn i ni dros roi grantiau. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r dull hwn yn 2022–2023 ac yn wir fe'i defnyddiwyd wrth fodelu ar gyfer ein sefyllfaoedd a thybjaethau cynllunio incwm gan y Loteri Genedlaethol. Fe wnaethom adolygu'r cymarebau allweddol yn 2022–2023 ac addasu'r rhain ar gyfer y tymor hwy.

Perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Y gweithgaredd mwyaf arwyddocaol i'r Bwrdd fu datblygu Treftadaeth 2033, a goruchwylio gwaith y Gronfa Treftadaeth o gyflwyno rhaglenni'r Loteri Genedlaethol a gweithgarwch cymorth grant. Mae'r Bwrdd wedi derbyn diweddariadau manwl a rheolaidd ar bob ymyriad ac mae is-setiau o'r ymddiriedolwyr wedi gwneud penderfyniadau ar raglenni a ariennir gan gymorth grant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ddeilliodd unrhyw beth sy'n peri pryder o unrhyw un o'r pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd. Roedd canfyddiadau adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol yn foddhaol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd wedi'i fodloni ei fod yn parhau i gyflawni gofynion côd llywodraethu corfforaethol Trysorlys EF.

Nid oedd unrhyw faterion gan yr archwilwyr a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Bwrdd a barodd unrhyw destun pryder iddo. O ganlyniad i hyn, cred y Bwrdd y gall ddibynnu ar yr wybodaeth a sicrwydd a ddarperir gan reolwyr o ran y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

Mae pob ymddiriedolwr a benodir o'r newydd yn derbyn cynefino ar adeg ei benodiad sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau a dyletswyddau fel ymddiriedolwr,

gwaith CGDG a'i systemau/prosesau, gan ei helpu i wneud cyfraniad llawn at weithrediad y Bwrdd. Parheir â'r rhaglen cynefino ffurfiol hon trwy'r raglen barhaus o ddigwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant eraill i ymddiriedolwyr. Arfarnir effeithiolrwydd ymddiriedolwyr gan y Cadeirydd ar sail reolaidd. Mae perfformiad y Cadeirydd yn cael ei oruchwylio ar hyn o bryd gan yr uwch ymddiriedolwr annibynnol.

Y flwyddyn lywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheoli mewnol. Cyfeirir fy adolygiad gan waith yr archwilwyr mewnol (BDO) ac uwch reolwyr o fewn CGDG sy'n gyfrifol am sicrhau cynnal a chadw a gweithredu'r fframwaith rheoli mewnol yn effeithiol ochr yn ochr â sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Pennir cytundebau perfformiad i'r holl staff ar ddechrau'r flwyddyn sy'n disgrifio eu hamcanion personol a chorfforaethol ar gyfer y flwyddyn. Mae'r rhain wedi'u cysylltu â'r Cynllun Busnes a'n strategaeth. Adolygir y rhain yn ffurfiol mewn adolygiadau hanner ffordd trwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn. Rwy'n cynnal cyfarfodydd anffurfiol gyda chyfarwyddwyr gweithredol ar sail un i un trwy gydol y flwyddyn hefyd. Fel y nodwyd, mae timau'r Weithrediaeth a'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn cwrdd yn rheolaidd.

Rwyf wedi gweld y llythyr rheoli a baratowyd gan yr archwilwyr allanol gan ddilyn eu hadolygiad o'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

O ganlyniad i'w rhaglen waith mae'r archwilwyr mewnol wedi cynhyrchu barn a thystysgrif sicrwydd flynyddol mewn perthynas â digonolrwydd systemau a gweithrediad mesurau rheoli mewnol CGDG. Mae'r farn hon yn ardystio bod system ddigonol ac effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol yn bodoli i ymdrin â'r risg na chaiff amcanion rheolwyr eu cyflawni'n llawn.

Wrth gael eu hailbenodi, cynhyrchodd yr archwilwyr mewnol strategaeth archwilio gyffredinol. Tynnir y cynllun blynyddol allan o'r strategaeth archwilio ac fe'i cysylltir i mewn i'r gofrestri risg a'r awydd am risg.

Gyda BDO bu i ni gyflwyno cyfarfodydd cyswllt chwarterol newydd gyda'r archwilwyr mewnol i helpu monitro cynnydd yn erbyn y cynllun ac ailgyfeirio adnoddau i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Parhawyd i ddefnyddio'r rhain i fonitro cynnydd a chyflwyniad y rhaglen. Cyflwynwyd mesurau rheoli newydd rhai

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

blynyddoedd yn ôl hefyd i wella atebolrwydd ar adolygiadau archwilio a gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Parhawyd â'r rhain yn 2022–2023 a chafodd yr argymhellion a oedd i fod i gael eu gweithredu yn y flwyddyn eu rhoi ar waith yn foddhaol, neu mae rheswm dilys dros yr oedi.

Trafodir holl adroddiadau'r archwilwyr mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag aelodau staff uwch yn bresennol, gan gynnwys y rhai yr adroddwyd ar eu hadrannau. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi a'r Pwyllgor drafod y canfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig i reolwyr yn fanwl. Pan dderbynnir argymhellion i wella neu gywiro, bu'n rhaid i gyfarwyddwyr ddarparu ymateb gweithredu ac amserlen ar gyfer pob argymhelliad hefyd. Mae gweithrediad yr argymhellion hyn yn cael ei dracio a'i fonitro gan yr Adran Gwasanaethau Busnes a'r archwilwyr mewnol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried bod y rhestr reoli honno'n eitem sefydlog hefyd.


Cyflwynwyd ein Cod Ymddygiad newydd i staff a chontractwyr yn 2018, gan gynnwys meysydd fel:

- egwyddorion gwasanaeth mewn bywyd cyhoeddus
- gwrthdaro buddiannau
- rhoddion a lletygarwch
- datgelu camarfer

Hysbyswyd yr holl staff am y Côt ac fe'i rhoddwyd ar ein mewnwrwyd.

Mae Llythyron Awdurdod/Cyfrifoldebau Dirprwyedig yn bodoli ar gyfer yr holl gyfarwyddwyr gweithredol – sy'n disgrifio eu hawdurdodau dirprwyedig (cyllid, caffael etc.) i'w cytuno ar ddechrau'r flwyddyn er mwyn cydweddu â'r memorandwm ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y cylch hwn wedi'i gwblhau yn 2022–2023.

O ganlyniad i'r uchod, credaf fod fframwaith rheoli CGDG yn darparu'r lefel sicrwydd i mi y mae arnaf ei hangen. Nid oes unrhyw beth yr wyf yn ymwybodol ohono sy'n peri i mi gredu nad yw ein prosesau ar gyfer datgelu ac ymateb i aneffeithlonrwydd, ar gyfer atal gwrthdaro buddiannau, ar gyfer atal a datgelu twyll ac ar gyfer isafu colledion cymorth grant a grantiau Loteri Genedlaethol yn ddigonol.



Eilish McGuinness

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr

Roedd gan bob ymddiriedolwr hawl i dderbyn cyflog blynyddol am yr amser a dreuliyd ar weithgareddau'r Gronfa. At hynny, mae'r Gronfa'n ad-dalu treuliau teithio ymddiriedolwyr wrth iddynt deithio o'u cartrefi i'w swyddfa gyflogaeth.

Mae tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr, gan gynnwys ad-dalu treuliau trethadwy a'r dreth arnynt, yn cyfateb i'r amrediadau yn y tabl isod. Penodir yr holl ymddiriedolwyr gan y Prif Weinidog.

Penodir ymddiriedolwyr am dair blynedd, gyda'r potensial o'u hadnewyddu am ail dymor. Nid ydynt yn aelodau o'r cynllun pensiwn a ddefnyddir gan CGDG. Ni wnaeth y Gronfa unrhyw gyfraniadau at gynllun pensiwn ar ran yr ymddiriedolwyr.

Dyrannwyd tâl cydnabyddiaeth ymddiriedolwyr rhwng CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar sail 1:99. Y cyfanswm tâl cydnabyddiaeth i ymddiriedolwyr yn 2022–2023 oedd £179,088 (2021–2022: £154,418). Trafodir a phennir tâl a chontractau ymddiriedolwyr gan DCMS. Nid yw eu contractau'n cynnwys unrhyw gymalau bonws.

Tâl Cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r ymddiriedolwyr (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

	2022–23 £'000	2021–22 £'000
Dr Simon Thurley CBE <i>Cadeirydd</i>	40–45	40–45
Maria Adebawale-Schwarte	10–15	10–15
Y Farwnes Kay Andrews OBE <i>tan 31 Rhagfyr 2022</i> (<i>Cyferth blwyddyn lawn: 20–25</i>)	15–20	20–25
Dr Claire Feehily	10–15	15–20
Julian Glover <i>o 1 Mai 2022</i> (<i>Cyferth blwyddyn lawn: 10–15</i>)	10–15	–
Denise Lewis-Poulton <i>o 6 Chwefror 2023</i> (<i>Cyferth blwyddyn lawn: 20–25</i>)	0–5	–
Ray Macfarlane	20–25	20–25
Taryn Nixon <i>o 1 Mai 2022</i> (<i>Cyferth blwyddyn lawn: 10–15</i>)	10–15	–
Carol Pyrah <i>o 9 Mai 2022</i> (<i>Cyferth blwyddyn lawn: 10–15</i>)	10–15	–
Mukesh Sharma MBE DL	20–25	20–25
Dr David Stocker	10–15	10–15

Ffigur cyfanswm sengl y Weithrediaeth ar gyfer tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Disgrifir tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr gweithredol yn y ddau dabl isod.

	Cyflwg 2022-23 £'000	Cyflwg 2021-22 £'000	Buddiannau pensiwn a gronnyd yn ystod 2022-23 £'000	Buddiannau pensiwn a gronnyd yn ystod 2021-22 £'000	Cyfanswm 2022-23 £'000	Cyfanswm 2021-22 £'000
Eilish McGuinness Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu	140-145	115-120*	182	92	320-325	205-210
Colin Bailey Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes tan 30 Mehefin 2022	30-35 (Cyferth blwyddyn law: 110-115)	110-115	11	41	35-40	150-155
Harnish Hadani Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes o 3 Mai 2022	100-105 (Cyferth blwyddyn law: 110-115)	—	39	—	135-140	—
Isabel Hunt Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes	120-125	120-125	46	47	165-170	165-170
Anne Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes	105-110	20-25**	201	61	305-310	80-85

* Prif Weithredwr o 1 Ionawr 2022. Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2021.

**Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes o 1 Ionawr 2022. Roedd swm cyferth blwyddyn law cyflog Anne Jenkins yn 2021-2022 yn yr amrediad £105,000 i £110,000.

Tâl cydnabyddiaeth pensiwn y Weithrediaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad £'000	Cyfanswm pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a chyfandaliad £'000	Gwerth Trosglwyddo Cyferth ag Arian Parod (CETV) ar 31 Mawrth 2023 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2022 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV a ariennir gan CGDG £'000
Eilish McGuinness Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu	7.5-10 plws cyfandaliad o 15-17.5	60-65 plws cyfandaliad o 155-160	1,416	1,096	176
Colin Bailey Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes tan 30 Mehefin 2022	0-2.5	15-20	313	288	8
Harnish Hadani Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Busnes o 3 Mai 2022	0-2.5	5-10	79	42	27
Isabel Hunt Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesedd a Mewnwelediad Busnes	2.5-5	5-10	136	92	30
Anne Jenkins Cyfarwyddwr Gweithredol Cyflwyno Busnes	7.5-10 plws cyfandaliad o 20-22.5	50-55 plws cyfandaliad o 110-115	1,061	775	189

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl ymadael â'r cynllun fel aelod gweithredol os ydynt eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus; 65 ar gyfer aelodau nuvos a'r uchaf o 65 neu'r oedran pensiwn gwladol ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer cyfarwyddwyr yn dangos pensiwn a enillir yn PGPFS neu alpha fel y bo'n briodol.

Pan fydd gan y cyfarwyddwr fuddiannau mewn PGPFS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig ei fuddiannau yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy ar oedranau gwahanol.

Gwerthoedd trosglwyddo cyferth ag arian parod (CETV)

CETV yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Mae'r buddiannau a brisir yw buddiannau cronus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniad pensiwn i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniad pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnyd yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w cyfanswm aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi'n unig.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn gwasanaeth sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosib mewn budd-daliadau o ganlyniad i dreth lwfans gydol oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniad pensiwn arall ac yn defnyddio ffactorau prisio cyffredinol y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Roedd gan bob rôl staff uwch gcontractau cyflogaeth parhaol, ac eithrio un aelod o staff a oedd ar gcontract cyfnod penodol, ac roeddent i gyd yn aelodau cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) neu alpha. Dyrannwyd eu costau rhwng Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a CGDG ar sail 99:1 (2021–2022: 99:1).

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio canllawiau'r cyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; caiff y canllawiau hyn eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023–2024.

Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn trwy drefniadau pensiwn y gwasanaeth sifil. O fis Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil: Y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn sy'n cyfateb i oedran pensiwn gwladol yr aelod (neu 65 oed os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai a fu eisoes mewn gwasanaeth ag alpha.

Cyn y dyddiad hwnnw, cymerodd gweision sifil ran mewn PGPGS, sydd â phedair adran: tri sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, telir costau'r buddiannau gan gyllid a bleidleisir gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn codi'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Parhaodd aelodau presennol PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 i fod yn rhan o PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Gwnaeth y rhai yr oeddent rhwng 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn

arferol ar 1 Ebrill 2012 newid i alpha rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod llywodraeth y DU yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, mae'n bosib y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddiannau pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler uchod).

Bydd buddiannau PGPGS yr holl aelodau a newidiodd i alpha yn cael eu bancio, a bydd y rhai sydd â buddiannau cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol PGPGS yn gweld bod y buddiannau hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniad buddiant diffiniedig priodol neu pensiwn rhanddeiliad prynu arian gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogaeth yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% o enillion pensiynadwy yn achos aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun hybrid, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiwn yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod o aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillir yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth cynnydd mewn pensiynau. Mae buddiannau mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos ond mae'r gyfradd gronni'n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniad pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £292 (2021–2022: £113) i banel o ddarparwyr pensiwn

rhanddeiliaid a benodwyd. Mae CGDG yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr.

Yn ystod 2018–2019, lleihawyd y panel i un cyflenwr, Legal & General. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Ar hyn o bryd mae pedwar aelod staff yn gweithio ar fusnes CGDG sydd â chyfrif pensiwn partneriaeth.

Ni fu i unrhyw aelodau staff ymddeol yn gynnar ar sail iechyd yn ystod 2022–2023.

Mae mwy o fanylion am y trefniadau pensiwn gwasanaeth sifil ar gael ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk.

Er eu bod yn gynlluniau buddiant diffiniedig, mae atebolrwydd am dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar PGPGS neu alpha. Mae adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill sy'n dod o dan PGPGS ac alpha yn talu cost y pensiwn a ddarperir ar gyfer y staff y maent yn eu cyflogi ar ffurf taliadau a gyfrifir ar sail gronedig.

Ar gyfer 2022–2023, talwyd cyfraniadau cyflogwr o £265,952 (2021–2022: £523,508 i PGPGS ac alpha ar y cyfraddau a ddisgrifir yn y tabl a ganlyn. Mae'r gostyngiad o ganlyniad i leihau'r rhaglenni brys.

Cyflog yn 2022–23	% yn 2022–23
£23,000 a llai	26.6%
£23,001–£45,500	27.1%
£45,501–£77,000	27.9%
£77,001 a mwy	30.3%

Cymhareb tâl cydnabyddiaeth (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Y cyfarwyddwr gweithredol ar y cyflog uchaf yn 2022–2023 a 2021–2022 oedd y Prif Weithredwr fel y datgelir yn y tabl ar dudalen 49. Tâl bandiau blynyddol y Prif Weithredwr yn 2022–2023 oedd £140,000 i £145,000 ac yn 2021–2022 roedd yn £145,000 i £150,000 (dyna oedd cyflog y Prif Weithredwr blaenorol Ros Kerslake, a adawodd CGDG ar 31 Rhagfyr 2022). Roedd hyn tua 3.8 gwaith (ailddatganwyd 2021–2022: 3.9 gwaith) tâl cydnabyddiaeth canolrif

y gweithlu, sef £37,546 (ailddatganwyd 2021–2022: £36,883). Nid oedd unrhyw gyflogaion a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth uwch na'r cyfarwyddwr gweithredol â'r tâl uchaf. Amrywiodd tâl cydnabyddiaeth o £19,800 i amrediad o £140,000 i £145,000 (ailddatganwyd 2021–2022: £18,180 i fand o £145,000 – £150,000).

Datgelriad cyflog teg

	2022–23 Cyfanswm cyflog a lwfansau	2022–23 Taliadau Bonws i Staff	2021–22 Cyfanswm cyflog a lwfansau	2021–22 Taliadau Bonws i Staff
Cyfartaledd staff	2.59%	-12.24%	-1.33%	11.75%
Y cyfarwyddwr â'r tâl mwyaf	-3.39%	-	0.00%	-

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tal ar sail perfformiad anghyfunedig a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Mae'n ofynnol hefyd i ni ddatgelu cymhareb cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr o'i gymharu â 25ain, 50ain a 75ain canradd tâl cyfwerth ag amser llawn staff. Datgelir yr wybodaeth hon isod.

	2022–23 £	2022–23 Cymhareb	Ailddatganwyd 2021–22 £	Ailddatganwyd 2021–22 Cymhareb
25th canradd	43,019	3.3	42,498	3.4
50th canradd	37,546	3.8	36,883	3.9
75th canradd	27,255	5.2	25,843	5.5

Pecynnau ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â gofynion Swyddfa'r Cabinet, mae'n ofynnol i'r Gronfa gyhoeddi manylion pob pecyn ymadael a gytunwyd yn y flwyddyn ariannol dan sylw. Yr hyn sy'n dod o dan ddiffiniad pecynnau ymadael yw diswyddiadau gorfodol a gwirfoddol, ymddeol yn gynnar, iawndal am golli swydd a thaliadau ex-gratia.

Ni thalodd y Gronfa am unrhyw becynnau o'r fath yn 2022–2023 (2021–2022: dim byd).

Costau staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

	2022–23 £'000	2021–22 £'000
Cyflogau	1,315	2,682
Taliadau YG y Cyflogwr	109	197
Taliadau i'r cynllun pensiwn	266	523
Costau staff dros dro	56	169
	1,746	3,571

Oherwydd y ffordd y mae ein systemau'n gweithredu nid ydym yn gallu darparu dadansoddiad o'r costau rhwng staff ar gontractau parhaol a'r rheini ar gontractau cyfnod penodol.

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Gwybodaeth heb ei harchwilio


Roedd nifer cyfartalog y cyflogeion a fu'n gweithio ar ein gweithgareddau fel a ganlyn:

	2022-23	2021-22
Ceisiadau grant	18	42
Gwasanaethau cyllid a chorfforaethol	4	5
Datblygu strategaethau a busnes	2	3
Cyfathrebu	2	2
	26	52

Datgelir y ffigurau uchod fel cyfwerth ag amser llawn ac maent yn cynnwys cyfartaledd o chwe staff ar gontract cyfnod penodol. Mae niferoedd cyfartalog y staff wedi'u haflunio gan y bobl a weithiodd ar ein rhaglenni brys a rhaglenni eraill. Ac eithrio'r bobl hynny, y CALI cyfartalog yn y flwyddyn oedd dau.

Yn ychwanegol at y staff uchod, nifer cyfartalog y staff a weithiodd ar ein gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol oedd 242 o staff parhaol a 46 ar gontractau cyfnod penodol. Nid yw staff dros dro ac asiantaeth wedi'u cynnwys yn y ffigurau gan nad yw ein systemau'n caniatáu cywain a chyfrifo ffigur cyfwerth ag amser llawn.

Lefelau absenoldeb



Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Fel yr adlewyrchir ymysg cyflogwyr eraill, arhosodd lefelau salwch y Gronfa'n uchel yn 2022 o gymharu â chyfraddau absenoldeb cyn y pandemig. Roedd y cynnydd hwn yn bennaf, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i gyflyrau meddygol ac anghenion lles COVID-19 ac ôl-COVID-19. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod na chafodd absenoldebau yn 2020 a 2021 eu hadrodd yn ddigonol yn ystod y cyfnodau pan oedd staff yn gweithio gartref – ac ers i ni ddychwelyd i weithio hybrid rydym wedi gweld lefelau absenoldeb yn codi eto tuag at lefelau cyn y pandemig. Yn gyffredinol, mae ein lefelau absenoldeb yn debyg i feincnodau ehangach y DU ond yn parhau i fod yn is na llawer o gymaryddion cymheiriaid y sector cyhoeddus.

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn parhau i flaenoriaethu cymorth lles i'n staff (gweler yr adran iechyd a diogelwch yn y gwaith isod) ac yn darparu gwasanaethau cymorth rhagorol drwy iechyd galwedigaethol.

Ennyn diddordeb ac ymgynghori â chyflogeion

Arolwg staff 2022

Cyflogodd y Gronfa Treftadaeth ddarparwr arolwg arbenigol i gynnal arolwg gweithwyr llawn ym mis Mai 2022. Cymerodd chwe deg naw y cant o staff ran yn yr arolwg. Yn fras, mae'r canlyniadau'n dangos lefelau uchel iawn o ymgysylltu gan weithwyr ar draws sawl thema, gan gynnwys dros 90% o staff yn cadarnhau eu bod yn falch o weithio i'r sefydliad (gweler y sgorau 'uchaf' isod).

Mae nifer o feysydd eraill lle mae canlyniadau'r Gronfa Treftadaeth yn rhagori ar feincnodau cenedlaethol. Wedi dweud hynny, bu'r arolwg hefyd o gymorth wrth nodi meysydd i'w gwella (gweler y sgorau 'isaf' isod).

Sgorau uchaf yr arolwg staff 2022

Cwestiynau'r arolwg staff	% y gweithwyr a atebodd 'ydwy/gydwy'
Rwy'n deall sut rwy'n cyfrannu at lwyddiant y Gronfa Treftadaeth	92%
Gallaf gyflawni fy nyletswyddau yn y lleoedd sydd ar gael i mi i weithio	92%
Mae fy rheolwr yn agored ac yn onest gyda fi	90%
Rwy'n falch o weithio i'r sefydliad	90%

Sgorau isaf yr arolwg staff 2022

Cwestiynau'r arolwg staff	% y gweithwyr a atebodd 'ydwy/gydwy'
Mae cyfleoedd gyrfa da i mi yn y sefydliad hwn	26%
Mae'r Grŵp Strategaeth a Pherfformiad yn ddigon gweladwy	45%
Mae ein tîm Gweithredol yn fodolau rôl ar gyfer ein gwerthoedd a'n hymddygiadau	50%
Mae fy rheolwr yn dda wrth ymdrin â pherfformiad gwael	55%
Mae'r sefydliad hwn yn ymroddedig i ddatblygu ei bobl	55%

Rydym wedi trafod adborth o'r arolwg staff gyda staff a'n Bwrdd ac mae'r materion a nodwyd yn ein sgorau isaf wedi'u grwpio i bum thema allweddol. O'r rhain rydym wedi datblygu cynllun arolwg staff tair blynedd i nodi a chyflwyno camau gweithredu. Mae mentrau amrywiol eisoes wedi dechrau ac i sicrhau ein bod yn parhau i dderbyn adborth gan gydweithwyr rydym yn trefnu arolwg 'pwls' ar gyfer 2023 ac arolwg llawn arall o weithwyr ar gyfer 2024.

Rhwydweithiau staff

Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein chwe rhwydwaith staff mewnol i wella'r cymorth a gynigir gan gymheiriaid, ac fel sianel ddefnyddiol i'n cefnogi wrth ymgysylltu ac ymgynghori â chyflogeion. Mae pob arweinydd rhwydwaith yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Prif Weithredwr. Mae ein rhwydweithiau'n cynnwys y grwpiau a ganlyn:

- Rhwydwaith Croestoriadedd
- Rhwydwaith Mwyafrif Byd-eang
- Rhwydwaith Rhywedd
- Rhwydwaith LHDTG+
- Rhwydwaith Niwroamrywiaeth
- Rhwydwaith Anabledau

Cyfarfodydd holl staff

Bu i ni barhau i gynnal cyfarfodydd holl staff rheolaidd i ddiweddarau staff am faterion busnes. Mae nifer dda wedi mynychu'r rhain ac rydym yn gwahodd staff i ofyn cwestiynau neu godi materion cyn y cyfarfodydd staff ac wrth iddynt ddigwydd.

Bu i ni gynnal cynhadledd holl staff lwyddiannus iawn ym Manceinion ym mis Hydref 2022 i gynnwys ein staff wrth ddatblygu ein strategaeth newydd. Roedd hwn hefyd yn gyfle i'n gweithlu gwrdd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers y pandemig.

Undebau llafur

Mae'r Gronfa'n cydnabod dau Undeb Llafur, PCS a FDA, y mae'n cynnal cyfarfodydd chwarterol ffurfiol a chyfarfodydd misol anffurfiol â nhw. Mae'r Gronfa Treftadaeth wedi ymrwymo'n gryf i weithio mewn partneriaeth ac yn cefnogi aelodaeth o undebau llafur.

Mae'r holl gynrychiolwyr undebau llafur yn chwarae rolau gwerthfawr yn y gweithle ac mae ganddynt hawl statudol i amser rhesymol i ffwrdd â thâl yn ystod oriau gwaith arferol i gwblhau dyletswyddau undeb, yn unol â'u rôl yn yr undebau llafur ac i ymgymryd â gweithgareddau undeb llafur. Mae'n ofyniad statudol arnom hefyd i ddatgelu gwybodaeth am amser cyfleuster undeb llafur a gwariant perthnasol.

Cynrychiolwyr undeb llafur a chyfwerth ag amser llawn

Nifer y cynrychiolwyr

Cynrychiolwyr undeb llafur	19
Cynrychiolwyr undeb llafur CaALI	17.66

Canran o oriau gwaith a dreuliyd ar amser cyfleuster

Canran o oriau gwaith	Nifer y cynrychiolwyr
0%	0
1–50%	19
51%–99%	0
100%	0

Cyfanswm bil tâl a chostau amser cyfleuster

Cyfanswm cost yr amser cyfleuster	£43,694
Cyfanswm bil tâl	£16,939,481
Canran y tâl a dreuliyd ar amser cyfleuster	0.26%

Gweithgareddau undeb llafur â thâl

Oriau a dreuliyd ar amser gweithgareddau ULI â thâl	89
Canran y cyfanswm amser cyfleuster â thâl a dreuliyd ar weithgareddau ULI â thâl	4.8%

Monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI) yn parhau i fod yn rhan annatod o'n gwaith o roi grantiau ac o'n llywodraethu, ein gweithlu, ein gwerthoedd a'n hymddygiadau.

Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac yn hyrwyddo hyn yn ein pyrth a'n deunyddiau recriwtio. Rydym yn gwneud addasiadau rhesymol yn y cyfweiliad ac yn y gweithle. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau i rolau, amgylchedd gwaith, ac addasiadau arbenigol etc.

Fe wnaethom barhau i gymryd rhan yn Rhaglen Change 100 Leonard Cheshire o leoliadau gwaith â thâl yn yr haf, datblygiad proffesiynol a mentora. Nod y rhaglen yw dileu'r rhwystrau a brofir gan bobl anabl yn y gweithle, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial.

Bu i ni barhau â'n gwaith gyda Chymrodoriaeth Windsor a chreu mwy o swyddi i raddedigion o'r Mwyafrif Byd-eang i weithio gyda ni am flwyddyn a datblygu cyfleoedd gyrfa mewn treftadaeth.

Ar ôl cwblhau ein Hadolygiad EDI yn 2020, bu i ni sefydlu grŵp EDI ar draws y sefydliad, wedi'i gadeirio gan gyfarwyddwr ac Arweinydd Cydraddoldeb a Diwylliant y Gweithlu. Mae'r grŵp hwn yn goruchwyllo gweithgareddau EDI, gan gynnwys y camau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad EDI a chynllun gweithredu EDI blynyddol yr adran AD.

Dadansoddiad o amrywiaeth y gweithlu

Mae'r siartiau isod yn dangos amrywiaeth y gweithlu, o ran ethnigrwydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac anabled. Dangosir data meincnod cymharol hefyd (yn seiliedig ar lefelau poblogaeth weithio'r DU).


Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

Rydym yn nodi nad yw ein gweithlu mor amrywiol mewn rhai meysydd o'i gymharu â lefelau cenedlaethol ac yn cydnabod bod rhai grwpiau staff sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym hefyd yn cydnabod tueddiadau a rhwystrau ehangach i fynediad i'r sector treftadaeth, y maent oll yn effeithio ar siâp ein gweithlu.

Rydym yn parhau â phrosesau recriwtio sy'n seiliedig ar werthoedd ac i ganolbwyntio ar weithio tuag at ein chwe nod craidd er mwyn gwella:

1. amrywiaeth mewn recriwtio
2. rheoli amrywiaeth y gweithlu
3. datblygiad gyrfaol staff a dangynrychiolir
4. cynhwysiad trwy wella cefnogaeth i staff
5. amrywiaeth trwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith
6. amrywiaeth y gweithlu


Amrywiaeth ethnig: Staff Mwyafrif Byd-eang yn y gweithlu



Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae canran ein gweithlu o'r Mwyafrif Byd-eang wedi aros ar 10% dros y tair blynedd diwethaf, sef 4.5% o dangynrychiolaeth o'i gymharu â meincnod y DU.

Amrywiaeth o ran anabled: Anabled yn y gweithlu




Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cododd y ganran o'n gweithlu sydd ag anabledd i 12% er bod gennym dangynrychiolaeth o hyd o'i gymharu â meincnod y DU. Mae angen gwneud gwaith o hyd i recriwtio gweithwyr ag anabledau a

byddwn yn parhau i hyrwyddo camau i ymdrin â hyn gyda chymorth gan ein rhwydweithiau staff.


Amrywiaeth o ran rhyw: Menywod yn y gweithlu



Ffynhonnell Meincnod y DU: GOV.UK

Rydym wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran y menywod yn ein gweithlu, ond mae hyn yn dal yn sylweddol uwch na meincnod y DU. Mae gan lawer o sefydliadau eraill yn y sectorau treftadaeth ac elusennol lefelau uwch o gynrychiolaeth fenywaidd yn eu gweithlu.

Amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol: LHDTTC+ yn y gweithlu



Ffynhonnell Meincnod y DU: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae canran y cydweithwyr sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar (LHDTTC+) neu gyfeiriadedd rhywiol arall yn y gweithle wedi aros ar 6% dros y tair blynedd diwethaf, sy'n uwch na meincnod y DU a sefydliadau cymharol eraill.

Mae gennym weithwyr sy'n dewis peidio â rhannu eu data cyfeiriadedd rhywiol, fodd bynnag, sy'n awgrymu bod angen ymdrech barhaus i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran cywain data a mewnwelediad, ac i wella'r cynhwysiad a deimlir gan gydweithwyr LHDTTC+. Byddwn yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd y gwaith hwn gyda'n rhwydweithiau staff.

Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Fe wnaethom barhau i flaenoriaethu cymorth o ran lles gweithwyr ac iechyd a diogelwch ein staff.

Fe wnaethom ddarparu mynediad i raglen cymorth i gyflogion sydd wedi ennill gwobrau, gydag adnoddau

a chanllawiau ar-lein a mynediad at wasanaethau cwnsela. Fe wnaethom gynnig mynediad i:

- ioga a tai chi am ddim
- asesiad iechyd cyn cyflogaeth ar gyfer recriwtiaid newydd i nodi pa adnoddau sydd eu hangen ar staff
- sgriniad Nuffield Health
- cymorth iechyd galwedigaethol ac addasiadau rhesymol i'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor
- Gofynion DSE ar gyfer staff sydd wedi gweithio gartref yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys parhau i ddarparu hyfforddiant DSE gorfodol i bob gweithiwr newydd
- brechiadau ffliw i'r holl staff fel rhan o'n hymrwymiad i iechyd gweithwyr
- hyfforddiant gorfodol ar bynciau gan gynnwys ymwybyddiaeth iechyd meddwl a diogelwch tân
- trefniadau gweithio hybrid a gweithio hyblyg i gefnogi cydbwysedd bywyd a gwaith a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu

Rheoli cyfalaf dynol

Mae Strategaeth Pobl newydd ar gyfer 2023–2026 yn canolbwyntio ar bum thema, sef: rheoli perfformiad; arweinyddiaeth a rheolaeth; lle gwych i weithio; cynyddu sgiliau a hyder; a gwasanaethau AD a phobl ymatebol.

Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn datblygu rheolwyr ac arweinwyr a sgiliau craidd i wella effeithiolrwydd y gweithlu a chefnogi dilyniant gyrfaol.


Mae'r ddarpariaeth ddysgu'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

- datblygiad gweithredol
- datblygu arweinyddiaeth
- sgiliau rheoli
- sgiliau craidd i bawb
- hyfforddiant ac ymwybyddiaeth EDI
- astudio a noddur (gan gynnwys cymwysterau proffesiynol)
- cymorth datblygiad proffesiynol parhaus
- hyfforddiant sgiliau proffesiynol

Mae gan staff fynediad hefyd at gannoedd o adnoddau dysgu ar-lein i gefnogi cyfleoedd dysgu o bell/hybrid.

Fe wnaethom barhau i gefnogi a chymryd rhan yn Rhaglen Arweinyddiaeth Clore, gan noddi staff a chefnogi datblygiad talent yn y sector treftadaeth.

Trosiant staff



Ffynhonnell Meincnod y DU: HR Review.co.uk

Roedd trosiant staff yn 2022–2023 yn 27% o'n lefelau staffio cyfartalog yn ystod y flwyddyn. Mae'r gyfradd hon yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cyn y pandemig o 15% ac mae'n adlewyrchu trosiant uchel yn y farchnad gyflogaeth ehangach yn sgil y pandemig. Mae meincnodau'r DU yn dangos trosiant cyfartalog o 36% ar draws yr holl gyflogwyr. Roedd trosiant hefyd wedi'i yrru gan ein defnydd cynyddol o staff ar gontractau cyfnod penodol i ymdrin â gwaith cymorth grant cyfnod penodol, oherwydd natur tymor byr y penodiadau hynny.

Rydym yn nodi'r cydbwysedd rhwng cyfraddau cadw staff iach a recriwtio doniau newydd ac yn cydnabod yr her o ran cadw ein staff. Yn 2022, yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â staff a'n hundebau llafur, fe wnaethom gyflwyno gweithio hybrid sy'n galluogi ein pobl i weithio gartref neu ar safle nad yw'n un o'r swyddfeydd am hyd at dri diwrnod yr wythnos.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn camau gweithredu i gefnogi cadw staff, gan gynnwys cynyddu ein cyllideb dysgu a datblygu yn 2023 i gefnogi datblygiad gyrfaol.

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Gwariodd CGDG ddim byd ar ymgynghorwyr yn 2022–2023 (2021–22: dim byd) fel rhan o'i gweithgareddau dosbarthu CGDG mewn perthynas â darparu cyngor ac arbenigedd na fyddem yn eu caffael fel mater o drefn i gefnogi ein gweithrediadau.

Datgelu camarfer

Mae gan y Gronfa bolisi Datgelu Camarfer clir i alluogi staff i godi pryderon a datgelu gwybodaeth y mae'r unigolyn yn tybio ei bod yn dangos camarfer neu amhriodoldeb. Mae hyn yn cynnwys materion sydd er lles y cyhoedd ac yn cynnwys y materion (anghynhwysol) a ganlyn:

- camarfer neu amhriodoldeb neu dwyll o ran cyllid
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth neu statud cyfreithiol


Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu

- peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd
- gweithgarwch troseddol
- ymddygiad amhriodol neu anfoesegol
- ymgeisiau i guddio unrhyw un o'r uchod

Nid oedd unrhyw achosion o ddatgelu camarfer yn ystod y flwyddyn.

Cyflogi oddi ar y gyflogres

Yn ystod 2022–2023 nid yw'r Gronfa wedi cyflogi unrhyw unigolion drwy gcontractau oddi ar y gyflogres sydd â goblygiad IR35. (2021–2022: dim byd).



Eilish McGuinness

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

10 Gorffennaf 2023

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddau Dŷ Senedd y DU, Senedd Yr Alban, Senedd Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon

Barn am ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar 31 Mawrth 2023 ac am ei gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r incwm a gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs UK), cyfraith berthnasol a Nodyn Arfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn

cydymffurfio â Safonau Moesegol 2019 diwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol'. Rwy'n annibynnol i Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol yn briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol;

Ar sail y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol mewn perthynas â digwyddiadau neu gyflyrau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuan sylweddol ar allu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadwyd y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol wrth ystyried y gofynion a nodir yng Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ragwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nag ychwaith fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a ddatgenir yn echblyg fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn yr archwiliad neu sydd fel arall i'w gweld yn cael ei chamddatgan yn faterol.

Os byddaf yn nodi'r cyfryw anghysondebau materol neu gamddatganiadau materol tybiedig, mae'n ofynnol i mi bennu a yw hyn yn achosi camddatganiad materol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i berfformio, bod camddatgan materol o'r wybodaeth arall hon yn bodoli, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o beth.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cydweddu â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau materol yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- Nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol neu nad yw dychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun yr archwiliad yn cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad yw datgeliadau tâl cydnabyddiaeth penodol a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y

Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w archwilio'n cydweddu â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu

- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- darparu mynediad ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- darparu gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu harchwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig ar gyfer y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol at bersonau o fewn Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol y mae'r archwilydd yn pennu ei bod yn angenrheidiol dderbyn tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod y fath fesurau rheoli mewnol yn bodoli y bernir eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatgan perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg a'u bod yn cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn cael ei baratoi'n unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1980; ac
- asesu gallu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1980.

Fy amcanion yw dod o hyd i sicrwydd rhesymol ynglŷn â pha un a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag camddatgan materol, p'un ai drwy dwyll neu gamgymeriad, ai beidio, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol â SARh (Deyrnas Unedig) bob amser yn datgelu camddatganiad materol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau yr ystyriwyd yr oedd yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Dyluniad weithdrefnau'n unol â fy nghyfrifoldebau, sydd wedi'u hamlinellu uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae fy gweithdrefnau yn gallu canfod methiant i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Nodi ac asesu risgiau posib sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatgan materol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, bu i mi:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiâu cyfrifyddu Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.
- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys derbyn ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisiâu a gweithdrefnau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll; a
 - mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys mesurau rheoli Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol mewn perthynas â

chydymffurfiaeth Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol â Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

- holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
 - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
 - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu honiadau o dwyll;
- trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai dwyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posib o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ar gyfer dwyll gan nodi'r potensial mwyaf ar gyfer dwyll yn y meysydd canlynol: postio siwrnalau anarferol, trafodion cymhleth, gwariant ar grantiau a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un ffordd â'r holl archwiliadau o dan SRhA (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi berfformio gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn gweithredu ynddynt. Bu i mi ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a oedd ag effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau materol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.

Ymateb archwilio i risg a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- bu i mi adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau gefnogol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau perthnasol y disgrifir uchod eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais reolwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosib;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac adolygu, ac

adroddiadau archwilio mewnol; ac

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll o ganlyniad i reolwyr ddiystyru mesurau rheoli, profais briodoldeb cofnodion siwrnal ac addasiadau eraill; asesais a yw'r barnau a lunnir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosib; a gwerthusais resymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol; a
- phrofais sampl o wariant grant i gael sicrwydd bod grantiau wedi'u gwario at y dibenion a fwriadwyd.

Cyfathrebais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau dwyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, a pharheais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol wedi'i leoli ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r dibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â gofal llywodraethu mewn perthynas â, ymysg materion eraill, chwmpas ac amseru cynlluniedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

Gareth Davies

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
10 Gorffennaf 2023

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain SW1W 9SP

Y Datganiadau Ariannol

Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net

	Nodiadau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £'000
Mân incwm	2	81	–
Gwariant			
Gwariant grant	3	(24,245)	(101,211)
Llai gwariant grant sydd wedi darfod neu wedi'u diddymu	3	2,913	1,860
		(21,332)	(99,351)
Costau gweithredu			
Costau staff	7	(1,746)	(3,571)
Dibrisio ac amorteiddio	11, 12, 13	(12)	(12)
Costau gweithredu eraill	6	(920)	(1,782)
		(2,678)	(5,365)
Cyfanswm gwariant		(24,010)	(104,716)
Diffyg gweithredu		(23,929)	(104,716)
Incwm nad yw'n ymwneud â gweithredu			
Llog derbyniadwy	9	7	–
Dosbarthiadau a dderbyniwyd	10	477	5
Elw o werthu asedau ariannol hirdymor	17	1,146	2,565
		1,630	2,570
Gwariant net ar gyfer y flwyddyn		(22,299)	(102,146)
Incwm cynhwysfawr arall (Colled)/elw net wrth ailbrisiol'r Gronfa Asedau Lluosog Cyfrifol		(2,294)	3,758
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr		(24,593)	(98,388)

Mae'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net yn eithrio gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG, sydd wedi'u hadrodd mewn set o gyfrifon ar wahân.


Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 72 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

		Ar 31 31 Mawrth 2023	Ar 31 31 Mawrth 2022
	Nodiadau	£'000	£'000
Asedau anghyfredol			
Asedau anniriaethol sefydlog	11	9	12
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	12	7	13
Asedau hawl i ddefnyddio	13	–	3
Buddsoddiadau	14	46,347	53,013
		46,363	53,041
Asedau cyfredol			
Masnachu a symiau derbyniadwy eraill	15	2	5
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	16	20,424	81,036
Arian parod a ddelir yn y gronfeydd gwaddol	16	27,582	21,598
		48,008	102,639
Cyfanswm asedau		94,371	155,680
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnachu a symiau taladwy eraill	18	(830)	(12,084)
Rhwymedigaethau grant	3	(58,623)	(84,085)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau net cyfredol		34,918	59,511
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Masnachu a symiau taladwy eraill	18	–	–
Rhwymedigaethau grant	3	–	–
		–	–
Asedau llai rhwymedigaethau		34,918	59,511
Cynrychiolir gan:			
Cronfa wrth gefn gwerth teg	20	5,062	7,356
Cyfrif incwm a gwariant		29,856	52,155
		34,918	59,511


Mae'r datganiad hwn yn eithrio balansau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r dosbarthu Loteri Genedlaethol CGDG, sydd wedi'u hadrodd mewn set o gyfrifon ar wahân.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 72 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



Dr Simon Thurley CBE
Cadeirydd

10 Gorffennaf 2023



Eilish McGuinness
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad o Lifoedd Arian Parod

	Nodiadau	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 £'000	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 £'000
Diffyg gweithredu ar gyfer y cyfnod		(23,929)	(104,716)
Dibrisio	11, 12, 13	12	12
Diffyg gweithredu wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod		(23,917)	(104,704)
Gostyngiad mewn rhwymedigaethau grant	3	(25,462)	(18,827)
Gostyngiad mewn symiau derbyniadwy (ac eithrio cyfalaf a buddsoddiadau)	15	3	–
(Gostyngiad)/cynnydd mewn symiau taladwy di-gyfalaf	18	(11,254)	1,961
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(60,630)	(121,570)
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol	11	–	(3)
Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar	12	–	(10)
Taliadau i gaffael buddsoddiadau		(3,940)	–
Enillion o werthu buddsoddiadau	14	9,458	17,522
Incwm o fuddsoddiadau	10	484	5
Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		6,002	17,514
Llif arian parod o weithgareddau cyllido			
Cymorth grant	5	–	120,015
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod		(54,628)	15,959
(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod			
Balansau arian parod a gariwyd ymlaen		48,006	102,634
Llai balansau arian parod a ddygwyd ymlaen		(102,634)	(86,675)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod		(54,628)	15,959

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 72 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

	Cronfa wrth gefn gwerth teg £'000	Cyfrif incwm a gwariant £'000
Balans ar 31 Mawrth 2022	7,356	52,155
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr yn 2022–2023		
Colled net ar ailbrizio asedau ariannol	(2,294)	–
Gwariant cynhwysfawr net a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig	–	(22,299)
Cymorth grant gan DCMS	–	–
Balans ar 31 Mawrth 2023	5,062	29,856
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr yn 2021–2022		
Balans ar 31 Mawrth 2021	3,598	34,286
Enillion net o ailbrizio asedau ariannol	3,758	–
Gwariant cynhwysfawr net a drosglwyddwyd i'r gronfa gronedig	–	(102,146)
Cymorth grant gan DCMS	–	120,015
Balans ar 31 Mawrth 2022	7,356	52,155

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng llyfrgost a gwerth marchnad y buddsoddiadau yn y gronfa waddol (gweler nodyn 11).

Nodiadau i'r cyfrifon

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar ffurf a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) gyda Deddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 ac i fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol (LIAA) Llywodraeth y DU.

Mae'r triniaethau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y LIAA yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddasir neu y'u dehongliar ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Pan fydd y LIAA yn caniatáu dewis, dewisir y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol CGDG at ddiben darparu barn wir a theg. Mae'r polisiau penodol a fabwysiadwyd gan CGDG wedi'u disgrifio isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

a) Confensiwn cyfrifyddu

Cafodd y cyfrifon hyn eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a'u haddasu lle bo'n briodol ar gyfer gwerth teg.

Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Ddeddf Cwmniau, y LIAA a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

b) Grantiau llywodraeth y DU

Ni thrinnir ein cymorth grant gan DCMS fel incwm. Yn hytrach, mae'n cael ei drin fel cyllido oherwydd yr ystyrir ei fod yn gyfraniad gan barti rheoli sy'n achosi buddiant ariannol. Mae hyn yn cael ei wneud trwy wneud credyd i'r cyfrif incwm a gwariant.

Ni wneir unrhyw ddyraniad rhwng grantiau at ddibenion refeniw a chyfalaf. Mae swm y cymorth grant sy'n cael ei gydnabod yn y cyfrifon hyn yn adlewyrchu'r symiau a dderbyniwyd mewn gwirionedd gan DCMS yn ystod y flwyddyn ariannol.

c) Rhoddion

Trinnir rhoddion yn wahanol i gyllid a dderbynnir fel rhan o raglenni grant ar y cyd. Mae rhoddwr yn rhywun nad yw'n ymwneud o gwbl ag unrhyw benderfyniad i wario'r arian hwnnw. Os oes unrhyw gyfranogiad fe fyddai'n cael ei drin fel rhaglen grant ar y cyd.

Codir rhoddion fel arfer i'r cyfnod pan dderbyniwyd y cyllid. Fodd bynnag, pan fydd perthynas contract rhwng CGDG a'r rhoddwr, codir y rhodd i'r cyfnod pan ddigwyddodd y gweithgaredd cysylltiedig, heb ystyried pryd y derbyniwyd yr arian.

ch) Asedau anghyfredol

Ystyrir bod gan asedau anghyfredol fywyd byr neu werthoedd isel (neu'r ddau) ac felly mae'r rheolwyr yn ystyried bod cost yn ddirprwy ar gyfer gwerth teg ac fe'i cydnabyddir felly yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ac eithrio ar gyfer eitemau sy'n costio llai na £2,000, y cânt eu diddymu i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net ym mlwyddyn eu caffael.

Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddiddymu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

Eiddo prydlles fer	– Dros fywyd y les
Ased hawl i ddefnyddio	
– lesau eiddo	– Dros fywyd y les
Cyfarpar swyddfa	– 4–10 mlynedd
Meddalwedd asesu grantiau	
a meddalwedd arall	– hyd at 5 mlynedd

O dan yr amgylchiadau hynny pan fo gweddill bywyd les ar eiddo'n llai na phedair blynedd, bydd unrhyw adnewyddiad neu gyfarpar na ellir ei symud yn cael ei ddibrisio dros weddill cyfnod y les. Ni chyfalafir unrhyw gostau a gynhyrchir yn fewnol. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl i'r ased gael ei roi ar waith.

d) Dyrannu costau

Mae CGDG yn cyfrif ar wahân am ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol, y mae'n ofynnol i'w wneud o dan ei chyfarwyddyd cyfrifon Loteri Genedlaethol.

Mae CGDG yn mynd i gostau anuniongyrchol sy'n cael eu rhannu rhwng gweithgareddau a rienir gan gymorth grant a gweithgareddau a rienir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i CGDG ddosrannu'r costau anuniongyrchol hyn yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EF. Mae'r dosraniad costau hwn yn ceisio adlewyrchu'r gyfran benodol o amser a threuliau a ymrwymir i bob gweithgaredd.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y gyfran o gostau ar y cyd a ddosrannwyd i'n gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol oedd 99% (2021–2022: 99%).

dd) Buddsoddiadau

Mae asedau anghyfredol – ein buddsoddiadau – wedi'u cynnwys yn y cyfrifon ar werth y farchnad fel yr adroddir i ni gan ein rheolwyr buddsoddi. Mae'r

enillion a cholledion a wireddwyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ac maent wedi'u cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion o werthiannau a chost hanesyddol. Adlewyrchir enillion a cholledion nas gwireddwyd ar y buddsoddiadau hyn yn y swm wrth gefn gwerth teg, sy'n cael ei ddatgelu yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Dosbarthwyd y buddsoddiadau fel gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall.

e) Trethiant

Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trethiant cyffredinol gan fod CGDG wedi'i heithrio'n statudol o dan adran 507 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Ni all CGDG adfer Treth ar Werth (TAW) a godir arni, ac mae'r gost gan gynnwys TAW wedi'i chynnwys o dan y disgrifiadau gwariant perthnasol yn y cyfrifon hyn.

f) Pensiwn

Codir y gost reolaidd o ddarparu buddiannau i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net dros fywydau gwasanaeth aelodau'r cynllun ar sail canran gyson o dâl pensiynadwy. Mae bron pob un o'n staff yn aelodau o PGPFS neu alpha (y cynllun a ddilynodd PGPFS) ac mae'r ganran o dâl pensiynadwy yn cael ei hysbysu gan Swyddfa'r Cabinet cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff am fanylion pellach.

ff) Lesau

Mabwysiadodd CGDG IFRS 16 am y tro cyntaf yn 2019–2020. Mae asedau hawl defnyddio yn cael eu nodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gost a bennir gan werth presennol y taliadau sy'n ddyledus o dan bob les. Caiff y costau eu hamorteiddio dros isafswm cyfnod y les. Mae costau ariannol gwasanaethu'r asedau ar les yn cael eu codi fel llog yn y Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net.

Codir y rhenti blynyddol ar unrhyw lesau sydd y tu hwnt i'r diffiniad sy'n ofynnol yn ôl IFRS 16 i'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net ar sail llinol dros gyfnod y les.

g) Rhwymedigaethau grant

Cydnabyddiaeth

Cydnabyddir dyfarniadau grant fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o rwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, boed yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol.

Caiff dyfarniadau grant eu cydnabod fel gwariant a rhoddir cyfrif am ymrwymadau pan:

- fo'r dyfarniad wedi'i benderfynu'n ffurfiol gan yr ymddiriedolwyr; a
- phan fo'r dyfarniad wedi'i hysbysu i'r derbynnydd arfaethedig; a
- phan fo'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau perfformiad penodol o dan reolaeth y Gronfa

Addasiadau ar ôl y penderfyniad i werth y dyfarniad

Gall amgylchiadau newid ar y prosiect ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud – er enghraifft, gall costau prosiect newid, gall costau anghymwys gael eu nodi, neu mae arian partneriaeth yn fwy neu'n llai na'r hyn a ragwelwyd ar adeg y penderfyniad. O dan yr amgylchiadau hyn, ni wneir unrhyw addasiad i werth dyfarniadau oni bai bod y rheswm dros yr addasiad yn systematig i'r rhaglen grant yn hytrach na bod yn addasiadau unigol, untro.

Os oes amgylchiadau sy'n benodol i raglen ddyfarnu, yna bydd gwerth dyfarnu'r grant a'r rhwymedigaeth y grant yn cael eu lleihau i adlewyrchu addasiadau hysbys ar ôl dyfarnu. At hynny, bydd darpariaeth yn cael ei chreu i adlewyrchu addasiadau pellach posib i benderfyniadau eraill o fewn yr un rhaglen. Bydd unrhyw ddarpariaeth a greir a'r symudiad dilynol ar y ddarpariaeth honno'n rhan o'r datgeliad o ddad-ymrwymadau yn y flwyddyn.

Addasiadau ar ôl i'r prosiect gael ei roi ar waith

Ceir dad-ymrwymadau o rwymedigaethau grant ar ôl i brosiect ddechrau pan nad yw dyfarniad neu ran o ddyfarniad yn cael ei dderbyn yn llawn gan y granti. Mae'r amser ar gyfer cydnabod dad-ymrwymiad yn dibynnu ar gytundeb rhwng staff CGDG a'r granti. Er bod hyn yn syml fel arfer, mae CGDG yn ymwybodol o'i gofyniad cytundebol i dalu hyd at y dyfarniad grant llawn ac felly mae'n ochelgar wrth ddad-ymrwymo dyfarniadau.

ng) Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys balansau banc gan gynnwys arian parod wrth law ac arian parod a ddeler gyda'n rheolwyr buddsoddi sydd ar gael ar gais.

h) Amcangyfrif ansicrwydd

Mae paratoi'r cyfrifon hyn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau a all effeithio ar fesur incwm, treuliau, asedau, rhwymedigaethau a gofnodir a datgelu rhwymedigaethau wrth gefn. Gall hefyd effeithio ar y dyraniad costau rhwng ein cymorth grant a'n

Y Datganiadau Ariannol

gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

Os yw'r amcangyfrifon a'r tybiaethau hyn, sy'n seiliedig ar amcangyfrif neu farn orau uwch reolwyr ar ddyddiad y datganiadau ariannol, yn gwyro oddi wrth amgylchiadau gwirioneddol yn y dyfodol, caiff yr amcangyfrifon a'r tybiaethau gwreiddiol eu diweddarau yn y cyfnod y bydd yr amgylchiadau'n newid ynddo.

Mae ein hamcangyfrifon a'n dyfarniadau'n cael eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Y barnau mwyaf arwyddocaol yw:

Darpariaeth ar rhwymedigaethau grant

Bob blwyddyn rydym yn gwneud darpariaeth yn erbyn rhwymedigaethau grant a gydnabyddir yn y cyfrifon. Mae hyn yn cynnwys:

- dad-ymrwymiaidau y gwyddys amdanynt ar ôl diwedd y flwyddyn
- rhwymedigaethau a allai fod yn anactif, hy: heb dderbyn unrhyw daliadau grant na chyswllt ers nifer o flynyddoedd
- prosiectau lle mae'r taliad terfynol wedi ei wneud ond nid yw'r prosiect wedi'i gau

Mae darpariaeth gyffredinol hefyd yn cael ei chymhwyso i brosiectau segur nad ydynt wedi cael taliadau na dyfarniadau ers dwy flynedd.

Dyrannu costau rhwng ein dau brif weithgaredd

Mae gennym system cofnodi amser ar waith i staff nodi pa raglenni y maent yn gweithio arnynt ac mae costau'n cael eu hailgodi yn seiliedig ar y data hwnnw. Mae'n ofynnol i staff gofnodi faint o amser y maent yn ei dreulio ar bob rhaglen bob mis.

2. Mân incwm

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Ad-dalu grantiau	81	—

3. Rhwymedigaethau grant

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen	84,085	102,912
Ymrwymiaidau yn y flwyddyn	24,245	101,211
Dad-ymrwymiaidau	(2,913)	(1,860)
Ymrwymiaidau a dalwyd	(46,794)	(118,178)
Rhwymedigaeth a gariwyd ymlaen	58,623	84,085

Mae balans y rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus yn y cyfnodau a ganlyn:

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Ymhen un flwyddyn	58,623	84,085
Ymhen dwy i bum mlynedd	—	—
	58,623	84,085

Er bod y grantiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer rhaglenni cymorth grant yn £46.8miliwn, mae'r ffigur hwn yn cynnwys taliadau grant o £1.8miliwn a wnaed gan ddefnyddio ein harian sy'n deillio o'r Loteri Genedlaethol. Adlewyrchir y rhain yn y cyfrifon fel dyled sy'n ddyledus gan ein gweithgareddau cymorth grant i'n gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol.

4. Rhwymedigaethau amodol

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Rhwymedigaeth amodol a ddygwyd ymlaen	—	705
Dad-ymrwymiaidau	—	(705)

Rhwymedigaeth amodol a gariwyd ymlaen

	—	—
--	---	---

5. Cymorth grant

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Grant gan DCMS	—	120,015

Ni wnaethom dynnu unrhyw gymorth grant i lawr yn 2022-23 oherwydd i ni ddal balansau arian parod dros ben o flynyddoedd blaenorol a chytunwyd ar hyn gyda DCMS. Mae hyn oherwydd bod arian parod yn cael ei dalu fesul cam i grantion, nid ar yr adeg y gwneir y dyfarniad. Bydd yr arian sydd heb ei dynnu i lawr gan DCMS eleni ar gael yn y blynyddoedd i ddod i dalu am ymrwymiaidau grant sy'n weddill unwaith y byddwn wedi defnyddio'r arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod (gweler nodyn 16). Parhawyd i ddarparu'r rhaglen Cofeb Safonol, ynghyd â'r rhaglenni ariannu brys gan DCMS ac adrannau eraill o lywodraethau'r DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

6. Costau gweithredu eraill

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Llety	75	117
Post a ffonau	26	53
Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch	13	9
Ffioedd proffesiynol		
– cysylltiedig â grantiau	81	133
– ddim yn gysylltiedig â grantiau	650	1,005
Cyfathrebu	20	232
Mân dreuliau	4	149
Cyfarpar swyddfa	11	49
Tâl cydnabyddiaeth archwilwyr	40	35
	920	1,782

Ni thalwyd unrhyw ffioedd nad ydynt yn ymwneud ag archwilio i'r archwilwyr allanol.

Roedd costau gweithredu eraill yn is yn 2022–2023 na'r flwyddyn flaenorol oherwydd y gostyngiad mewn gweithgarwch cymorth grant, yn bennaf o ganlyniad i gau'r rhaglenni brys.

7. Costau staff

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Cyflogau	1,315	2,682
Taliadau YG y Cyflogwr	109	197
Taliadau i'r cynllun pensiwn	266	523
Costau staff dros dro	56	169
	1,746	3,571

Roedd costau staff yn is yn 2022–2023 na'r flwyddyn flaenorol oherwydd y gostyngiad mewn gweithgarwch cymorth grant, yn bennaf o ganlyniad i gau'r rhaglenni brys.

11. Asedau anniriaethol

	Technoleg Gwybodaeth		Cyfanswm	
	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	15	12	15	12
Ychwanegiadau	–	3	–	3
Gwarediadau	–	–	–	–
Ar ddiwedd y flwyddyn	15	15	15	15
Amortiddiad ar ddechrau'r flwyddyn	3	1	3	1
Gwarediadau	–	–	–	–
Tâl am y flwyddyn	3	2	3	2
	6	3	6	3
Llyfrwerth net ar ddechrau'r flwyddyn	12	11	12	11
Ar ddiwedd y flwyddyn	9	12	9	12

Mae cyfalafu technoleg gwybodaeth yn cynrychioli datblygu ffurflenni cais electronig a system rheoli asesu ceisiadau. Mae'r ffigurau uchod yn cynrychioli cyfran y Gronfa o gostau a anfonebir i CGDG gan ddatblygwyr meddalwedd; codwyd bron yr holl gostau ar ein gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ni chyfalafwyd unrhyw gostau a gynhyrchwyd yn fewnol. Amortiddiwyd ychwanegiadau dros eu bywyd defnyddiol disgwylidig.

8. Costau a ailgodwyd

Yn ystod 2022–23, dosbarthodd CGDG symiau o arian gan amrywiaeth o sefydliadau llywodraeth ganolog. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, y gyfran o gostau gweithredu ar y cyd a ddosrannwyd i'r dosbarthiad CGDG oedd 1% (2021–2022: 1%).

Rydym yn nodi cyfran y gwaith a wneir gan staff ar weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri Genedlaethol ac yn ailgodi hyn ar y rhaglenni amrywiol a gefnogir gan gymorth grant. Rydym hefyd yn cyfrifo dyraniad gorbenion cysylltiedig fel rhan o'r dasg hon o ailgodi costau.

Cyfanswm gwerth yr ad-daliadau hyn yn 2022–2023 oedd £2.4miliwn (2021–2022: £5.0miliwn).

9. Llog a dderbyniwyd

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Gwaddol	7	–

10. Dosbarthiadau a dderbyniwyd

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Incwm o'r gronfa waddol	477	5

12. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

	Eiddo prydlles fer		TG a chyfarpar arall		Ffitiadau swyddfa		Cyfanswm	
	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Cost ar ddechrau'r flwyddyn	8	7	17	8	1	1	26	16
Ychwanegiadau	–	1	–	9	–	–	–	10
Gwarediadau	(8)	–	(10)	–	–	–	(18)	–
Ar ddiwedd y flwyddyn	8	8	7	17	1	1	8	26
Dibrisio ar ddechrau'r flwyddyn	6	3	6	3	1	1	13	7
Gwarediadau	(8)	–	(10)	–	–	–	(18)	–
Tâl am y flwyddyn	2	3	4	3	–	–	6	6
Ar ddiwedd y flwyddyn	–	6	–	6	1	1	1	13
Llyfrwerth net ar ddechrau'r flwyddyn	2	4	11	5	–	1	13	10
Ar ddiwedd y flwyddyn	–	2	7	11	–	–	7	13

Mae eiddo prydlles fer yn cynrychioli cost adnewyddu eiddo rydym yn ei lesio. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw lesau o dan IFRS 16 gan eu bod y tu allan i'r cwmpas (gweler nodyn 13).

Mae gwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynrychioli rhaniad cymesur o'r asedau a ddefnyddir gan gymorth grant CGDG a'i gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Ar hyn o bryd y rhaniad hwn yw 99% Loteri Genedlaethol ac 1% cymorth grant.

13. Ased hawl i ddefnyddio (IFRS 16)

Yn 2022–2023, daeth y les ar gyfer ein swyddfa yn Llundain i ben. Mae'r les newydd ar gyfer Llundain (trwydded i feddiannu) y tu hwnt i gwmpas IFRS 16.

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	3	7
Creu ased hawl i ddefnyddio	–	–
Amortyddiad	(3)	(4)
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	–	3

14. Buddsoddiadau

Sefydlwyd CGDG ym 1980 fel olynydd i'r Gronfa Tir Genedlaethol. Credodd yr ymddiriedolwyr, o'r cymorth grant cychwynnol a sefydlodd CGDG, y dylid ystyried bod y swm o £10miliwn yn rhelyw y Gronfa Tir Genedlaethol a'i drin fel cronfa waddol. Penderfynwyd i'w fuddsoddi gyda'r nod o gynnal ei werth cyfalaf mewn termau real o'i gymharu â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Y tu hwnt i hynny, nod y buddsoddiad yw cyflawni twf digonol mewn termau real i alluogi CGDG i gyflawni ei rhwymedigaethau. I'r perwyl hwn, gall buddsoddiadau mewn asedau ariannol a all gael eu marchnata'n hwylus gael eu gwneud y tu allan i'r DU. Mae'r tabl ar ddadansoddi buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn ar dudalen 69 yn crynhoi'r lledaeniad o fuddsoddiadau fesul math ac ardal.

Yn 2018–2019, newidiodd ymddiriedolwyr y mynegai targed o'r Mynegai Prisiau Manwerthu i'r Mynegai Prisiau

Defnyddwyr. Nid yw'r mynegai blaenorol yn boblogaidd yn y byd buddsoddi mwyach a bu pryder efallai na fyddai rhifau mynegai'n cael eu cynhyrchu yn y dyfodol.

Y nod yw y gellir tynnu gwerth gwarged y gronfa waddol, h.y. y swm dros ben gwerth cyfredol y 10miliwn gwreiddiol, i lawr i helpu ariannu gweithgarwch rhoi grantiau CGDG. Ar adegau, mae ymddiriedolwyr wedi tynnu cyllid i lawr sy'n mynd â gwerth y gronfa waddol islaw ei gwerth targed. Mae'r ymddiriedolwyr yn gyndyn o wneud hyn ac yn ei wneud dim ond pan fydd posibilrwydd o golli rhan sylweddol o dreftadaeth y DU. O dan yr amgylchiadau hyn, mae ymddiriedolwyr yn monitro'r diffyg ac yn defnyddio cymorth grant y dyfodol i ail-lenwi'r gronfa waddol os nad yw twf cyfalaf yn uwch na'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Ar 31 Mawrth 2023, gwerth y buddsoddiad gwreiddiol o £10miliwn fyddai £55.5miliwn gan gymryd mynegeo i ystyriaeth. Y gwerth marchnad gwirioneddol oedd £74miliwn gan gynnwys arian parod a ddelir o fewn y gwaddol (£27.6miliwn).

Mae'r gronfa waddol yn cynnwys y canlynol:

	Gwerth ar y farchnad 2022-23 £'000	Gwerth ar y farchnad 2021-22 £'000
Asedau ariannol hirdymor	46,347	41,285
Arian parod	27,582	27,582
	73,929	68,867

Datgelir y gyfran o'r gronfa hon a ddelir mewn arian parod yn y cyfrifon hyn fel ased cyfredol fel rhan o'r balansau arian parod.

Buddsoddir y gronfa waddol yn y Gronfa Asedau Lluosog Cyfrifol a redir gan ein darparwr rheoli buddsoddiadau sy'n buddsoddi mewn ystod o 22 o ymddiriedolaethau unedol a buddsoddi ar draws llawer o fathau gwahanol o asedau a marchnadoedd daearyddol. Gwerthir unedau yn y Gronfa Asedau Lluosog Cyfrifol i godi cyllid ar gyfer taliadau grant a threuliau gweinyddol. Nid oes gan yr ymddiriedolwyr unrhyw gynlluniau i ddatod y gronfa waddol gyfan.

Mae symudiadau ar y buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Cost a llyfrwerth net		
Ar ddechrau'r flwyddyn	45,657	60,614
Ychwanegiadau	3,940	–
Gwarediadau	8,312	14,957
	41,285	45,657
Llyfrwerth net		
– Rhestrir ar Gyfnwidfa Stoc Llundain	–	–
– Buddsoddiadau heb eu rhestru	41,285	45,657
	41,285	45,657
Cost	41,285	45,657
Gwerth marchnad	46,347	53,013
Enillion nas gwireddwyd	5,062	7,356

Nid oes unrhyw rwymedigaeth dreth ar enillion a wireddir gan CGDG. Dadansoddiad o'r buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd:

	2022-23 %	2021-22 %
Bondiau	11	8
Ecwiti DU	–	–
Ecwiti Ewrop (ac eithrio'r DU)	–	–
Ecwiti thematig	17	20
Cronfeydd ecwiti byd-eang	49	50
Eiddo	5	6
Amrywiaethwyr	10	11
Seilwaith	–	–
Arian parod	8	5
Nwyddau	–	–
	100	100

Ceir rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau sylfaenol y gronfa waddol o dan nodyn 21 (Offerynnau ariannol) a'r nodyn Datgelu Buddsoddiadau yn yr adroddiad hwn.

15. Masnachu a symiau derbyniadwy eraill

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Rhagdaliadau ac incwm cronodig	2	5
	2	5

16. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Mynediad ar unwaith		
– Arian parod yn y banc	20,424	81,036
– Arian parod a ddelir mewn cronfeydd hylifedd	27,582	21,598
	48,006	102,634

Delir arian yn y banc i gefnogi ein gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae arian parod a ddelir mewn cronfeydd hylifedd yn arian a neilltuwyd o werthiannau cronfeydd gwaddol.

Mae'r balansau cau ar 31 Mawrth 2023 yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn oherwydd i ni ddal balansau cymorth grant dros ben ar ffurf arian parod o flynyddoedd blaenorol pan oeddem wedi disgwyl i daliadau grant fod wedi'u hawlio ynghynt gan grantion.

17. Elw o werthu buddsoddiadau

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Elw o werthu buddsoddiadau	1,146	2,565

Enillir elw (neu geir colled) wrth waredu buddsoddiadau a ddelir yn y gronfa waddol pan fydd angen cyllid ar CGDG i dalu grantiau. Priodolir cyfran sylweddol o'r elw a enillwyd yn 2022–2023 i werthu unedau gwaddol i dalu am Gronfa Asedau Diwylliannol DCMS a Grantiau Ymateb COVID-19 CGDG.

18. Masnachu a symiau taladwy eraill

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Symiau masnachol taladwy	116	52
Symiau taladwy eraill gan gynnwys trethiant a nawdd cymdeithasol	636	11,905
Croniadau ac incwm gohiriedig	78	127
	830	12,084

Mae'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill yn ddyledus o fewn blwyddyn ac yn cael eu cynnwys yn y rhwymedigaethau cyfredol.

19. Trafodion cyrff cysylltiedig

Mae CGDG yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan DCMS. Ystyrir bod DCMS yn gorff cysylltiedig.

Yn ystod y flwyddyn, mae CGDG (gan gynnwys ei gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol) wedi cynnal trafodion materol amrywiol, ar wahân i ddyfarniadau grant, gyda DCMS ei hun a gyda phum endid yr ystyrir mai DCMS yw'r adran noddi ar eu cyfer – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Sport England, UK Sport, Historic England a Chyngor Celfyddydau Lloegr.

Gellir dod o hyd i fanylion pellach y trafodion a balansau hyn yng nghyfrifon gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol CGDG.

Unwaith eto, mae cyfrifon ein dosbarthiad Loteri Genedlaethol yn cynnwys manylion pellach. Fel y nodir yn y cyfrifon hyn, mae CGDG wedi dosbarthu arian ar ran gwahanol sefydliadau llywodraethol: DCMS, Defra, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Roedd dau achos lle datganodd ymddiriedolwr wrthdaro buddiannau:

Hopetoun House Preservation Trust

Cais i amrywio'r cytundeb y dyfarnodd CGDG grant o £4miliwn trwyddo ym 1995. Cymeradwyodd y Bwrdd y dull a argymhellwyd ar y cais ôl-gwblhau gan y granti.

Datganodd Ray Macfarlane fuddiant am ei bod yn un o ymddiriedolwyr Sefydliad Hopetoun.

Y Llyfrgell Brydeinig

Grant o £150,000 i gaffael archif yr awdur a'r dramodydd, John Galsworthy.

Datganodd Simon Thurley wrthdaro buddiannau fel un o ymddiriedolwyr y Llyfrgell Brydeinig.

20. Cronfa gwerth teg wrth gefn

	2022–23 £'000	2021–22 £'000
Ar ddechrau'r flwyddyn	7,356	3,598
Symudiad yn y flwyddyn	(2,294)	3,758
Ar ddiwedd y flwyddyn	5,062	7,356

Mae'r gronfa wrth gefn gwerth teg yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng llyfrgost a gwerth marchnad y buddsoddiadau (gweler nodyn 14).

21. Offerynnau ariannol

Mae IFRS 7, Offerynnau Ariannol: Datgeliadau yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau.

Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer CGDG na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan CGDG y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi cyllid sy'n deillio o gymorth grant. Ac eithrio'r gronfa waddol, mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

Risg hylifedd

Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnal cronfa waddol ac mae ei buddsoddiad sylfaenol yng Nghronfa Asedau Lluosog Cyfrifol ein darparwr rheoli buddsoddiadau'n cael ei fasnachu'n eang. Gall ymddiriedolwyr ddatod asedau ar sail ddyddiol os bydd yr angen am gyllido taliadau grant yn codi. Gan hynny, mae'r ymddiriedolwyr wedi'u bodloni bod ganddynt ddigon o adnoddau hylif ar ffurf eu balansau arian parod (gwerth £48miliwn ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol) a'r gronfa waddol (gwerth £46miliwn ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol), i dalu'r holl ddyfarniadau grant sy'n weddill o £58.6miliwn a'r rhwymedigaethau gweinyddol o £0.8miliwn. Mae'r gwaddol wedi'i fuddsoddi mewn cronfa a fuddsoddir yn bennaf mewn ymddiriedolaethau unedol a all gael eu marchnata'n hwylus; mae'r prisiau'n cael eu dyfynnu'n ddyddiol yn y Financial Times. Mae CGDG yn monitro ei balansau arian parod ar sail ddyddiol ac yn cynnal cysylltiadau rheolaidd â grantion i gael dealltwriaeth o'u gofynion tebygol o ran tynnu arian i lawr.

Ystyria'r ymddiriedolwyr nad yw'r Gronfa'n agored i risgiau hylifedd arwyddocaol.

Risg marchnadoedd a chyfraddau llog

Dalwyd balansau arian parod mewn amrywiaeth o gyfrifon banc – oll ar gyfraddau llog amrywiol. Mae'r chyfraddau llog sy'n daladwy ar y cyfrifon hyn, gan gynnwys ein cyfrifon hylifedd gyda'n darparwr rheoli buddsoddiadau, wedi bod ar lefelau isel iawn yn hanesyddol ychydig yn uwch na sero y cant (neu ar gyfraddau sero). Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol yn y cynnyrch yn 2022–2023, gan godi i 4.3%.

Y balansau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £48miliwn ac fe'u dalwyd fel y datgelir yn y tabl yn nodyn 15. Ar gyfer asedau ariannol eraill a rhwymedigaethau ariannol CGDG roedd y gyfradd log yn 0 y cant.

Ar ddiwedd y flwyddyn, gwerth y gwaddol ar y farchnad, ac eithrio ei elfen arian parod, oedd £46miliwn. Mae enillion yn ddibynnol ar farchnadoedd stoc a nwyddau byd-eang ac roedd perfformiad y buddsoddiadau wedi'i gynnwys o fewn y portffolio. Yn y flwyddyn, y bu ostyngiad o 2.3% yn yr enillion o'r gwaddol.

Mae'r balans arian parod a buddsoddiadau o fewn y gronfa waddol yn sylweddol uwch na gwerth cyfredol rhwymedigaethau presennol. Ar ben hynny, rydym wedi cael ein hysbysiad y bydd ein cyllid arferol o £5.0miliwn y flwyddyn gan DCMS yn parhau yn ei le am gyfnod yr Adolygiad Gwariant nesaf.

Os bydd gwerth y gronfa waddol yn dirywio'n sylweddol dros y tymor hir, byddai'r ymddiriedolwyr yn gofyn am gynydd yn eu cymorth grant ac ar yr un pryd gostwng eu cyllidebau dyfarniadau grant ar gyfer y dyfodol. Os caiff yr ymagwedd hon ei droi i lawr gan DCMS, byddai'r ymddiriedolwyr yn adolygu eu strategaeth dyfarniadau grantiau tymor hir.

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Balansau arian parod		
– Arian parod a chyfwerth ag arian parod	20,424	81,036
– Arian parod a ddelir yn y cronfeydd gwaddol	27,582	21,598
	48,006	102,634

Risg credyd

Mae symiau derbyniadwy CGDG yn cynnwys dyledwyr masnach a rhagdaliadau yn bennaf. Gan hynny, nid yw'n agored i risgiau credyd sylweddol.

Risgiau arian tramor

Mae'r gronfa waddol wedi'i buddsoddi yng Nghronfa Asedau Lluosog Cyfrifol ein darparwr rheoli buddsoddiadau, sydd wedi'i phrisio mewn sterling. Mae'r gronfa'n buddsoddi mewn nifer mawr o ymddiriedolaethau unedol a chynhyrchion tebyg, y mae llawer ohonynt yn cynnwys buddsoddiadau ac asedau sydd wedi'u prisio mewn arian cyfred gwledydd eraill. Nid yw'n bosib bod yn fanwl gywir am y gyfran o'r buddsoddiadau sydd wedi'u prisio mewn arian cyfred gwledydd eraill, ond mae'n tua dau draean o'n daliadau buddsoddi. Mae'r gronfa'n lliniaru'r ffaith ei bod yn agored i risgiau cyfnewid tramor trwy fuddsoddi

mewn lledaeniad byd-eang o ecwitiâu, bondiau a nwyddau, ac felly mathau gwahanol o arian cyfred. Mae Panel Buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yn monitro buddsoddiadau ein cronfa waddol, gan gynnwys pa mor agored y mae i arian cyfred gwledydd eraill o fewn y Gronfa. Prisir holl asedau eraill CGDG mewn sterling.

Risg buddsoddiadau

Caiff y buddsoddiadau eu buddsoddi mewn cronfa a reolir gan ein darparwyr rheoli buddsoddiadau. Mae buddsoddiadau sylfaenol fel arfer yn ymddiriedolaethau buddsoddi sydd yn y pen draw wedi'u hategu gan fuddsoddiadau cyfranddaliadau. Gall gwerth cyfranddaliadau fynd i fyny ac i lawr am amrywiaeth eang o resymau. Trwy fuddsoddi gyda'n darparwyr rheoli buddsoddiadau rydym yn prynu i mewn i'w harbenigedd mewn gwneud buddsoddiadau. Ar ôl buddsoddi'n wreiddiol yn y Gronfa Aml-Asedau Elusennol ac erbyn hyn yn y Gronfa Aml-Asedau Cyfrifol, rydym yn ceisio hanes o enillion uwchlaw chwyddiant tra'n lleihau effaith anweddolrwydd y farchnad.

Drwy fuddsoddi mewn cronfa aml-asedau, mae ein harian yn cael ei ddsbarthu ar draws nifer fawr o fuddsoddiadau a mathau o asedau, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u dylunio i gynnal gwerth mewn marchnadoedd sy'n gostwng, er mwyn lledaenu'r risg.

Delir y buddsoddiadau hyn er budd hirdymor y Gronfa gan ein galluogi i dynnu symiau i lawr pan fydd y galw am ddyfarniadau grant yn fwy na'n cymorth grant blynyddol. Gan hynny, os bydd gwerth y buddsoddiadau'n codi neu'n gostwng yn sylweddol mewn unrhyw flwyddyn benodol, ni fyddai hyn yn effeithio'n syth ar y grantiau a roddwn. Gan ddibynnu ar natur y gostyngiad neu warged sylweddol yng ngwerth y buddsoddiad, a'i debygolrwydd o barhau yn y tymor canolig i'r hirdymor, gall ymddiriedolwyr ddiwygio cyllidebau grant yn y dyfodol i adlewyrchu'r effaith.

Mae'r Panel Buddsoddi'n cynnwys tri aelod annibynnol sydd â phrofiad helaeth yn y marchnadoedd ariannol. Mae'r Panel Buddsoddi'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Asedau ariannol yn ôl categori

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Asedau yn unol â'r datganiad o sefyllfa ariannol		
– asedau anghyfredol	46,363	53,041
– arian parod a chyfwerth ag arian parod	48,006	102,634
– benthyciadau a symiau derbyniadwy	2	5
	94,371	155,680

Y Datganiadau Ariannol

Rhwymedigaethau ariannol yn ôl categori

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Rhwymedigaethau yn unol â'r datganiad o sefyllfa ariannol		
– ymrwymadau grant	58,623	84,085
– masnachu a symiau taladwy eraill	752	11,957
– croniadau	78	127
	59,453	96,169

Gwerthoedd teg

Isod mae cymhariaeth, fesul categori, o lyfrwerthoedd a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol CGDG ar 31 Mawrth 2023.

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2023

	Llyfrwerth £'000	Gwerth teg £'000
Arian parod	48,006	48,006
Buddsoddiadau	41,285	46,347
Buddsoddiadau	2	2
	89,293	94,355

Asedau ariannol ar 31 Mawrth 2022

	Llyfrwerth £'000	Arian parod £'000
Arian parod	102,634	102,634
Buddsoddiadau	45,657	53,013
Buddsoddiadau	5	5
	148,296	155,652

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2023

	Llyfrwerth £'000	Gwerth teg £'000
Symiau grant taladwy	58,623	58,623
Symiau gweithredu taladwy	116	116
Symiau taladwy eraill	636	636
Croniadau	78	78
	59,453	59,453

Rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2022

	Llyfrwerth £'000	Arian parod £'000
Symiau grant taladwy	84,085	84,085
Symiau gweithredu taladwy	52	52
Symiau taladwy eraill	11,905	11,905
Croniadau	127	127
	96,169	96,169

Sail prisio teg:

- Y ffigur hwn yw gwerth buddsoddiadau ac adneuo marchnad fasnachol tymor byr gyda banciau masnachol. Y disgwyliad yw y bydd y llyfrwerth yn cyfateb i'r gwerth teg.
- Gwneir buddsoddiadau mewn gwarantau all gael eu marchnata'n hwylus ac fe'u prisir ar ganol y farchnad ar ddiwedd busnes ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Pan fo'n berthnasol, cymerir y gyfradd gyfnewid derfynol rhwng yr arian cyfred sylfaenol a sterling ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae llyfrwerth yn adlewyrchu'r pris gwirioneddol a dalwyd mewn sterling ar ddyddiad cwblhau'r trafodyn.
- Ni phennir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddylded. Nid yw'r un o'r dyledion yn dymor hir ac felly ni chymhwyswyd unrhyw ffactor disgowntio.

4. Mae'r holl symiau taladwy nad ydynt yn ymwneud â grantiau'n ddyledus o fewn telerau contract arferol, 14-30 niwrnod fel arfer, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth yn bodoli rhwng llyfrwerth a gwerth teg.

Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

	2022-23 £'000	2021-22 £'000
Ymhen llai nag un flwyddyn	59,453	96,169
Ymhen mwy nag un flwyddyn ond llai na dwy	0	0
Ymhen dwy i bum mlynedd	0	0
Ymhen mwy na phum mlynedd	0	0
	59,453	96,169

22. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn 2022-2023, roedd gan CGDG un diddymiad gwerth cyfanswm o £3,287 (2021-2022: dim byd).

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- gwnaed grant yn anfwriadol i sefydliad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn yn ôl y gyfraith ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol
- cymeradwyir taliadau ex gratia

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig (2021-2022: dim byd).

23. Ymrwymadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd gan CGDG unrhyw ymrwymadau cyfalaf y contractiwyd ar eu cyfer nac ymrwymadau cyfalaf a gymeradwywyd nas contractiwyd ar eu cyfer.

24. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl 31 Mawrth 2023 hyd at ddyddiad y llofnododd y Swyddog Cyfrifyddu y cyfrifon hyn y mae angen eu datgelu. Awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol gan yr ymddiriedolwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Datgelu buddsoddiadau

Buddsoddi'r gronfa waddol

Mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried cyfandaliad o £10miliwn a roddwyd i CGDG ym 1980 fel gwaddol i'w ddefnyddio o bryd i'w gilydd ochr yn ochr â'i chymorth grant i helpu cefnogi treftadaeth y DU. Buddsoddir y gwaddol er mwyn uchafu'r enillion dros y tymor hir.

Allanolir rheoli buddsoddiadau i reolwyr cronfeydd arbenigol gan ddilyn ymarfer tendro.

Mae polisi buddsoddi'n gyfrifoldeb i Banel Buddsoddi'r Ymddiriedolwyr – is-bwyllgor o'r Bwrdd. Mae'r panel yn cynnwys dau ymddiriedolwr a thri arbenigwr ariannol arbenigol sy'n cwrdd â'r darparwr rheoli buddsoddiadau dwywaith y flwyddyn i drafod ei berfformiad.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gall fod diddordeb cyhoeddus mewn datgelu'r buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud ac mae'n disgrifio'r manylion isod. Mae'r Gronfa Asedau Lluosog Cyfrifol yn buddsoddi mewn nifer mawr o ymddiriedolaethau unedol a mathau eraill o fuddsoddiad, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn prynu ac yn gwerthu asedau'n rheolaidd. Roedd yr wybodaeth yn gywir ar 31 Mawrth 2023 ac fe gaiff ei diweddarau'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Mae gan y darparwr rheoli buddsoddiadau ei bolisi buddsoddi cyfrifol ei hun y mae'n ei fabwysiadu wrth wneud buddsoddiadau. Mae'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac yn cynhyrchu adroddiad buddsoddi cyfrifol blynyddol sy'n manylu ei weithgareddau. Mae'r darparwr rheoli buddsoddiadau'n cydymffurfio ag Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig. Rydym yn mynnu bod y darparwr yn ein hysbysu os yw'n ystyried buddsoddi mewn unrhyw sefydliad a allai o bosib beri embaras i CGDG.

Cronfa Asedau Lluosog Cyfrifol

Asedau twf	66.0%
Ecwitiâu Core Global	48.6%
Direct Equities, 30-50 o fusnesau cynaliadwy amlycaf y byd	48.6%
Ecwitiâu thematig	17.4%
HSBC Global Equity Sustainable Healthcare Fund	2.0%
Pictet Nutrition	1.8%
Schroders Global Energy Transition Fund	3.3%
Sparinvest Ethical Global Value Fund	8.6%
UBAM Positive Impact Emerging Equity	1.7%
Rhai amgen	15.1%
Eiddo	5.4%
Charities Property Fund	2.8%
Property Income Trust for Charities	2.6%
Amrywiaethwyr	9.7%
International Public Partnerships	0.2%
Schroder Sustainable Diversified Alternative Assets	4.6%
The Renewables Infrastructure Group	0.3%
Wisdom Tree Energy Transition Metals	1.9%
Wisdom Tree Physical Gold	2.7%
Asedau amddiffynnol	18.9%
Bondiau	11.4%
Charity Bond Fund	0.8%
Federated Hermes Climate Change Fund	0.9%
4.25% Gilt 2032	1.9%
Inflation Linked Gilt 2027	1.4%
Invesco US Treasury Bond	2.1%
Lombard Odier Global Climate Bond Fund	1.2%
Threadneedle European Social Bond Fund	1.1%
TwentyFour Sustainable Short Term Bond Fund	2.0%
Arian parod a chyfwerth	7.5%
Arian parod	5.4%
HSBC ESG Liquidity Fund	2.1%

Ffynhonnell: Cazenove 31 Mawrth 2023

Cadeirydd, ymddiriedolwyr a rheolwyr

Cadeirydd ac ymddiriedolwyr CGDG

Cadeirydd

Dr Simon Thurley CBE

Ymddiriedolwyr

Maria Adebawale-Schwarte

Y Farwnes Kay Andrews OBE

tan 31 Rhagfyr 2022

Dr Claire Feehily

Julian Glover

o 1 Mai 2022

Denise Lewis-Poulton

o 6 Chwefror 2023

Ray Macfarlane

Taryn Nixon

o 1 Mai 2022

Carol Pyrah

o 9 Mai 2022

Mukesh Sharma MBE DL

Dr David Stocker

Cyfarwyddwyr gweithredol

Prif Weithredwr
a Swyddog Cyfrifyddu

Eilish McGuinness

Cyfarwyddwyr anweithredol

Colin Bailey

tan 30 Mehefin 2022

Harnish Hadani

o 3 Mai 2022

Isabel Hunt

Anne Jenkins

Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol

4th Floor

Cannon Bridge House

25 Dowgate Hill

Llundain, EC4R 2YA

nhmf_enquiries@nhmf.org.uk

www.nhmf.org.uk

Panel Ymgynghorol CGDG

Eilish McGuinness (Cadeirydd)

Peter Barber OBE, SA

Lennox Cato

Yr Athro Aonghus MacKechnie

Sally Montgomery

o 1 Mehefin 2022

Dr Tessa Murdoch FSA

Geoff Pick

Orlando Rock

Dr David Stocker

Panel Buddsoddi Ymddiriedolwyr CGDG

Sarah Bates

Jamie Korner

Syr Laurie Magnus

Dr Simon Thurley CBE

Cydnabyddiaeth

Clawr: Delwedd o ddarn arian Ceolwulf II o Mercia trwy garedigrwydd yr Amgueddfa Brydeinig

Delwedd o'r model o HMS Victory © Rachel Trembath, Amgueddfa Genedlaethol y Llynges Frenhinol

Delweddau o Lawysgrif Caroline Herschel © Amgueddfa Seryddiaeth Herschel – Bath Preservation Trust

Delwedd o Two Ladies © Trevanion

Delweddau o Ddeial Ilay-Glyne trwy garedigrwydd Carter Marsh & Co.

Delweddau o'r Llawysgrif Liwt © Sotheby's

Delweddau o Archif John Galsworthy trwy garedigrwydd y Llyfrgell Brydeinig

Delweddai o Gasgliad Beiciau Modur Rasio Gogledd Iwerddon © Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon

Delweddau o Gelc Swydd Henffordd trwy garedigrwydd Cynllun Henebion Cludadwy Amgueddfa Cymru

Llun o RRS Discovery © John Pow

Llun o fedalau Arweinydd Sgwadron Arthur Scarf VC trwy garedigrwydd Amgueddfa'r Llu Awyr Brenhinol

Delweddau o Archif Buckland trwy garedigrwydd Amgueddfa Hanes Naturiol Prifysgol Rhydychen

Delwedd o Dirwedd Panoramig gyda Chaeau Yd a Thwyni wrth ymyl y Môr gan Jacob van Ruisdael trwy garedigrwydd Gwasanaeth Amgueddfeydd Norfolk (Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Norwich)

Delwedd o fythynnod y glowyr trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth Amgueddfa Wanlockhead

Llun o SV Glenlee trwy garedigrwydd Martin Shields/ Ymddiriedolaeth The Tall Ship Glenlee

Delwedd o 'Morayshire' trwy garedigrwydd Scottish Railway Preservation Society

Delwedd o Vigilance of Brixham delwedd © Trevor Taylor

Delwedd o Gastell Hurst trwy garedigrwydd English Heritage

Delwedd o'r Felin Corffori Powdwr Gwn © Melinau Powdwr Gwn Brenhinol

Delwedd o Felin Paradise, yr Amgueddfa Sidan a'r Hen Ysgol Sul, Macclesfield trwy garedigrwydd The Silk Heritage Trust

Delwedd o wyth capel hanesyddol trwy garedigrwydd Historic Chapels Trust

Wedi'i ddylunio a'i gynhyrchu gan The Right Stuff, Llundain

Ailgylchwhch ar ôl ei ddefnyddio

Contra Goffa Drefadach Genedlaethol Awdroddiaol Chyfrifon Blynddod 2022-2023